ADRODDIAD HUNANASESU

ADOLYGIAD BLYNYDDOL O BERFFORMIAD AC AMCANION LLESIANT

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



This document is also available in English

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

2025/26

Caru·Love Ceredigion

CYNNWYS:

Cyflwyniad gan Arweinydd y Cyngor	2
Am Geredigion	4
Y Cyngor	5
Asesiad Perfformiad Panel	9
Cefndir i Hunanasesiad 2025-26	11
Crynodeb o Berfformiad 2025-26	12
Cynllun Gweithredu'r Hunanasesiad: Cyfleoedd i Wella	17
Beth yw Hunanasesiad?	23
Sut yr ydym yn Cynnal Hunanasesiad	24
Hunanasesiad yn Ein Fframwaith Rheoli Perfformiad	25
Rheoli ein Perfformiad	26
Asesiad Seiliedig ar Dystiolaeth	27
Dysgu o Ymgynghori ac Ymgysylltu	29
Adolygiad o'n Hamcanion Llesiant	35
Cyfraniad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol	53
Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	55
Uno ein Cynlluniau: Cysylltiadau i Adnoddau Allweddol	56
Ein Perfformiad 2025/26	59
Ein Cyllideb: Ble gwnaethom flaenoriaethu ein Cyllid yn 2025/26?	65
Adroddiad Blynyddol y Dyletswydd Partneriaeth Cymdeithasol	66
Mesuriadau Perfformiad Allweddol	67

Llun: Traeth Ynyslas, ger Borth
Llun clawr: Golygfa o'r awyr o Gei Newydd

Wedi'i Chymeradwyo: 3 Tachwedd 2026

Cynhyrchwyd y ddogfen hon gan ddefnyddio adnoddau o Freepik.com, tudalennau 37, 41, 45 & 49. (wwwFreepik.com)

CYFLWYNIAD

Gan Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion

Croeso i Adroddiad Hunanasesu diweddaraf Cyngor Sir Ceredigion. Mae'r adroddiad hwn yn adolygu ein perfformiad a'n cynnydd cyffredinol tuag at gyflawni ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol yn 2025/2026.

Wrth i ni fynd i mewn i'r bumed flwyddyn o'n gweinyddiaeth gyfredol, rwy'n falch o adrodd bod y llynedd wedi bod yn flwyddyn hynod gynhyrchiol arall i'r Cyngor.

Bu sawl llwyddiant trwy gydol y flwyddyn, o wella gwasanaethau, cwblhau prosiectau allweddol a chyflawni'r ymrwymiadau yn ein Strategaeth Gorfforaethol.

Er enghraifft, mae'r gwaith ar gynllun amddiffyn arfordirol £32m Aberaeron wedi'i gwblhau a bydd yn amddiffyn y dref a'r arfordir cyfagos rhag cynnydd yn lefel y môr, gan atal llifogydd ac erydiad arfordirol.

Rydym hefyd wedi derbyn cyfran bellach o gyllid, gwerth £11.9m, gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru trwy Fargen Dwf Canolbarth Cymru. Bydd y buddsoddiad hwn yn ein helpu i wireddu potensial yr economi leol, gwella ffyniant rhanbarthol a chreu cyfleoedd ar gyfer pobl leol.

Agorwyd yr Ysgol Dyffryn Aeron newydd yn swyddogol gan ddarparu addysg gyfrwng Gymraeg i 240 o ddisgyblion, tra'n cyfoethogi'r profiad dysgu ac addysgu yn yr ardal leol.

Agorodd Llyfrgell Aberaeron, yn ei lleoliad newydd, ym mis Tachwedd 2025, gan gynnig cyfleusterau modern a hygyrch, yn ogystal â gwasanaeth llyfrgell gwell gyda detholiad ehangach o adnoddau. Roedd buddsoddiad pellach yn y dref yn cynnwys adnewyddu Canolfan Hamdden Aberaeron gyda llawr a goleuadau newydd, a'i hail-addurno.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ailgylchodd trigolion Ceredigion fwy o'u gwastraff nag erioed, gan gyrraedd cyfradd ailgylchu o 73%. Helpodd hyn i ailgyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi a chreu Ceredigion wyrddach a mwy cynaliadwy.

Mae'r cynlluniau ar gyfer datblygu Fferm Llettytwppa yn parhau. Cynhaliwyd nifer o ddiwrnodau agored llwyddiannus yn arddangos y cyfleoedd hyfforddiant yn ymwneud â'r sectorau amaethyddiaeth a garddwriaeth a fydd yn cael eu cynnig o fis Medi 2026 ymlaen.

Mewn mannau eraill, mae llwyddiant digwyddiadau mawr fel Rali Ceredigion a Phencampwriaeth Seiclo Genedlaethol Lloyds nid yn unig yn dod â buddsoddiad a ffyniant i'r Sir, ond byddant ill dau yn cael eu cynnal eto yn ystod Haf 2026.

Rydym hefyd yn parhau i fuddsoddi mewn ffyrdd newydd o weithio a thechnoleg newydd i drawsnewid y ffordd y mae gwasanaethau yn cael eu darparu i bobl leol.

Er enghraifft, mae gwaith yn parhau ar gyflwyno'r Rhaglen Llesiant Gydol Oes, sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar, atal, a hyrwyddo llesiant ar draws pob grŵp oedran. Mae'r "Model Gydol Oes" yn galluogi unigolion i gael mynediad at gymorth ar yr adeg gywir, gan eu helpu i gynnal eu hannibyniaeth a lleihau'r angen am wasanaethau statudol.

Mae arolygiadau rheoliadol annibynnol yn parhau i amlygu Cyngor Sir Ceredigion fel awdurdod sy'n perfformio'n dda, yn cael ei redeg yn dda ac yn gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o'i adnoddau.

Er enghraifft, fe wnaeth ein harolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru amlygu'r cynnydd cadarnhaol a wnaed o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol oedolion, gan ganmol ymrwymiad y Cyngor i ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, arweinyddiaeth gref a bod â gweledigaeth glir ar gyfer gwelliant parhaus.

Yn y cyfamser, mae system addysg Ceredigion yn parhau i fod yn uchel ei chlod heb unrhyw ysgolion sydd angen camau gweithredu dilynol, tra



Cynghorydd Bryan Davies

Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion

bod Archwilio Cymru'n cydnabod rheolaeth ariannol gref Ceredigion a'i hanes o osod cyllidebau cytbwys.

Fodd bynnag, fel pob awdurdod lleol, mae heriau yn ogystal â chyfleoedd o'n blaenau. Mae'r darlun ariannol yn heriol dros ben ac er ein bod ni'n parhau i archwilio ffyrdd arloesol o gyflawni gwasanaethau, bydd rhaid gwneud rhai penderfyniadau anodd iawn yn y dyfodol, serch hynny.

Rydym yn gobeithio y byddwch chi'n gweld yr adroddiad hwn yn addysgiadol ac yn ffordd ddefnyddiol o gadw mewn cysylltiad ar ein taith gwella perfformiad.

EIN SIR MEWN RHIFAU

Mae poblogaeth Ceredigion wedi cynyddu 1,923 ers y Cyfrifiad yn 2021 oherwydd cynyddiad mudo o fewn y DU. Y grŵp oedran 15-19 welodd y cynyddiad fwyaf.



wyn ar Lwybr Arfordirol Ceredigion

72,599
o breswylwyr

31,590
aelwyd

47 mlwydd oed
oedran cyfartalog

2,900
menter gweithredol

22%
gydag anabledd

90km
o arfordir

45.3%
yn siaradwyr Cymraeg

2,265km
o ffyrdd

8,970
myfyrwyr prifysgol

18.4%
mewn amddifadedd materol

4%
o gefndiroedd ethnig lleiafrifol

2,500km
o lwybrau ceffylau a llwybrau troed

43
ysgol a 9,220 dis-gybl

2.87m
ymwelwyr i Geredigion yn flynyddol

8,200
person yn hunangyflogedig

3
Canolfan hamdden sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor ac 1 Canolfan Llesiant

AM GEREDIGION



Mae Ceredigion yn 1,900km^2 o ran maint ac mae'n dir amaethyddol, yn rhostir ac yn goedwigoedd ar y cyfan, ac mae'r ardaloedd ucheldirol i'r dwyrain yn creu cyfran sylweddol o Fynyddoedd Cambria.

Mae gan Geredigion amrywiaeth o dirluniau a chynefinoedd naturiol: traethau a chlogwyni arfordirol ac ucheldir agored. Mae pobl leol ac ymwelwyr yn gwerthfawrogi tirluniau ac amgylchedd naturiol y sir yn fawr.

Mae Ceredigion yn cynnwys cyfran uchel o dir a gydnabyddir am ei werth amgylcheddol uchel trwy gyfrwng dynodiadau swyddogol, gan gynnwys dwy ardal gwlypdir o bwysigrwydd rhyngwladol (aber afon Dyfi a Chors Caron); 13 Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA); tua 100 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), saith Gwarchodfa Natur Genedlaethol a thair Gwarchodfa Natur leol. Mae ucheldiroedd Mynyddoedd Cambria yn bwysig ar gyfer bywyd gwyllt, yn ogystal â'r 'rhostiroedd' gwlyb.

Mae gan Geredigion dros 90 cilomedr o arfordir. Mae pedair adran o arfordir Ceredigion (tua 35 cilomedr) yn Arfordir Treftadaeth dynodedig. Mae Llwybr yr Arfordir Cymru yn dilyn llwybr 60 milltir (96km) rhwng aberoedd Teifi a Dyfi. Mae Llwybr yr Arfordir yn cysylltu trefi a phentrefi ar hyd arfordir ysblennydd Bae Ceredigion.

Mae'r tirluniau deniadol a'r lleoliadau anghysbell yng Ngheredigion yn cynnig sylfaen ar gyfer twristiaeth 'lles gwledig', sy'n denu twristiaid i'r ardal. Mae bron 3 miliwn o ymwelwyr â Cheredigion yn blynyddol.

Er bod yr amgylchedd wastad wedi bod yn nodwedd lles a werthfawrogir, dros y blynyddoedd diwethaf, mae diogelu'r amgylchedd wedi dod yn rhywbeth llawer pwysicach i bobl. Mae effeithiau andwyol newid hinsawdd ar yr amgylchedd a natur yn cael eu cydnabod yn llawer mwy ac mae pobl eisiau gwneud mwy i warchod ein hamgylchedd. Yn 2020, datganwyd argyfwng newid hinsawdd gan Gyngor Sir Ceredigion, a chyn hyn, roedd y Cyngor wedi ymrwymo i fod yn gyngor carbon sero net erbyn 2030.

Mae economi Ceredigion yn eithaf nodweddiadol o economi nifer o ardaloedd gwledig ac arfordirol. Mae cyfran uchel o swyddi ym maes iechyd dynol a gwaith cymdeithasol (15.4%), masnach cyfanwerthu a manwerthu (15.4%) ac addysg (15.4%). Mae maes Llety a Gwasanaethau Bwyd, sy'n cynnwys Twristiaeth, yn faes cryf hefyd (13.5%). Yn y cyfamser, amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota yw'r sector mwyaf o hyd, gan bod un o bob tair menter yn y Sir yn perthyn i'r sector hwn.

Maint poblogaeth Ceredigion yw 72,599 a hon yw'r ail sir fwyaf prin ei phoblogaeth yng Nghymru. Mae tua 10% o'i phoblogaeth yn fyfyrwyr.

Mae'r Sir yn gartref i Brifysgol Aberystwyth a sefydliadau cenedlaethol fel Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'r economi wybodaeth yn gryf yng Ngheredigion ac mae ganddi 'economi werdd' sy'n tyfu, gan ganolbwyntio ar allyriadau carbon isel, defnyddio adnoddau mewn ffordd effeithlon a bod yn gynhwysol yn gymdeithasol.

Mae hunangyflogaeth yn elfen bwysig o'r economi leol, ac yn aml, mae Ceredigion yn cynnwys y cyfran uchaf y bobl hunangyflogedig ar lefel genedlaethol. Mae nifer yn ffermwyr ac mae eraill yn gweithio mewn amrediad o fentrau bychain sefydledig megis trwsio a chynnal a chadw adeiladau.

Mae mwyafrif helaeth (99%) y mentrau yng Ngheredigion yn rhai maint 'micro', h.y. hyd at 9 cyflogai neu'n rhai 'bach' (10 i 49 cyflogai). Dim ond 1% o fentrau yng Ngheredigion sy'n cynnwys hanner cant o cyflogeion neu fwy. Mae cyfraddau goroesi busnesau newydd eu sefydlu yn gyson ymhlith yr uchaf yn genedlaethol, gan wneud Ceredigion yn lle gwych i ddechrau a thyfu busnes.

Mae gan Geredigion weithlu cymwys iawn ac mae'r cyrhaeddiad addysgol ar bob lefel ymhlith y gorau yng Nghymru yn gyson.

Ystyrir bod Ceredigion yn un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg. Dangosodd canlyniadau o Gyfrifiad 2021 bod 45.3% o breswylwyr Ceredigion yn gallu siarad yr iaith Gymraeg, y drydedd ganran uchaf o blith yr holl awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

Ceir 43 o ysgolion yng Ngheredigion, y maent yn gymysgedd o ysgolion cynradd, uwchradd a phob oed. Mae 37 yn ysgolion cyfrwng Cymraeg, sy'n golygu bod mwyafrif ein poblogaeth iau yn dysgu ac yn defnyddio'r Gymraeg o oedran ifanc.

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Ceredigion 2022-32 yn anelu at sicrhau bod holl ddisgyblion ysgolion yr awdurdod yn mynychu addysg trochfa cyfrwng Cymraeg hyd at saith oed ac yn cynyddu dewis y disgybl i ddilyn llwybr cwbl ddwyieithog drwy ei yrfa ac yn ei bywyd cymdeithasol yn y dyfodol. Mae hefyd yn cyfrannu at nod llesiant cenedlaethol Cymru a nod Llywodraeth Cymru o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i 1 miliwn erbyn 2050.

Mae Ceredigion yn sir sy'n adnabyddus am ei safleoedd diwylliannol a threftadaeth. Mae yna hefyd nifer o draethau, yn cynnwys tri a gafodd Wobr Baner Glas yn ystod 2024, sy'n denu nifer o dwristiaid i'r ardal trwy gydol y flwyddyn.

Y CYNGOR

Yn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2022, dychwelodd trigolion Ceredigion 38 o gynghorwyr mewn 34 o wardiau ar draws y Sir. Ym mis Mawrth 2023, mae'r weinyddiaeth newydd yn fwyafrif Plaid Cymru gyda 21 o gynghorwyr, ynghyd â 9 aelod annibynnol, 7 o Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru a 1 o Gwlad.

Arweinydd y Cyngor yw'r Cynghorydd Bryan Davies a'r Cynghorydd John Roberts yw Cadeirydd presennol y Cyngor.

Mae Ceredigion yn buddsoddi mewn technoleg newydd i trawsffurfio'r ffyrdd mae gwasanaethau yn cael ei darparu i bobl leol. Mae hyn er mwyn sicrhau ei bod yn cwrdd â'r galw sy'n tyfu ac yn gynaliadwy yn y dyfodol, mae hefyd er mwyn darparu profiad gwell.

Mae'r Rhaglen Llesiant Gydol Oes sydd yn trawsffurfio gofal cymdeithasol a'r Canolfan Cyswllt Cwsmer, 'CLIC' yn ddwy enghraifft dda o hyn.

Rydym yn gweithredu mewn amgylchedd heriol gyda pwysau ariannol sy'n cynyddu. Er mwyn cyflawni ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol tra'n cynnal gwasanaethau effeithiol ac effeithlon, rhaid i daith ein gweithlu fod yn un o adolygu a newid parhaus. Mae'n hanfodol ein bod yn cynnal dull arloesol ac ystwyth, yn agored ac yn wydn i newid, gyda'r sgiliau i gefnogi ffyrdd callach o weithio mewn byd digidol.

Ein nod yw gwella effeithlonrwydd ein prosesau a systemau mewnol, gan ein galluogi i fesur ein perfformiad yn effeithiol.

Mae'r Cyngor yn cyflogi cyfanswm o 3,462 o staff gan gynnwys staff ysgolion*. Ein nod yw eiriol dros, ac adeiladu ar, ein hethos 'Tîm Ceredigion'. Hyrwyddo ein hymdeimlad o berthyn, cysylltiad a phwrpas cyffredin. Rydym yn dyheu am bob aelod Tîm Ceredigion i ymfalchïo yn y gwaith y maent yn ei wneud, ac i gydnabod arwyddocâd eu cyfraniad i lwyddiant cyffredinol y Cyngor.

*Dyma "gyfrif pennau" o gyfanswm nifer y staff a gyflogir.

STRWYTHUR CYNGOR SIR CEREDIGION



NI YW

‘TÎM CEREDIGION’

Mae’r dull Un Tîm yn rhan o diwylliant y Cyngor ac mae’n ammatod i’r ffyrdd newydd o weithio

---

Mae Tîm Ceredigion yn cefnogi’r Hunanasesiad wrth hwyluso cyd-weithio, meddwl cysylltiedig â chefnogaeth ar draws y gwasanaeth er mwyn cyflawni ein nodau Llesiant Corfforaethol a gwella canlyniadau i bobl leol a rhanddeiliaid

---

Rydym yn gweithredu mewn amgylchedd heriol gyda phwysau cyllidebol cynyddol. Mae'n hanfodol ein bod yn cynnal ymagwedd arloesol ac ystwyth, ein bod yn agored ac yn wydn i newid, gyda'r sgiliau i gefnogi ffyrdd callach o weithio mewn byd digidol.

Llun: cwblhawyd cynllun Amddiffyn Arfordirol £32 miliwn Aberaeron ym mis Hydref 2025. Bydd yn lleihau’r risg o lifogydd i 168 eiddo anfasnachol a phreswyl yn Aberaeron, ac yn rhoi amddiffyniad yn erbyn y cynnydd rhagweledig yn lefel y môr yn y dyfodol.

BETH WNAETHOM GYFLAWNI YN 2025/26...



Cynhaliwyd **Gwobrau Caru Ceredigion** ar Gampws Llanbedr Pont Steffan, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ym mis Rhagfyr 2025. Dathlodd y seremoni wobrwyo gyfraniadau a chyflawniadau eithriadol busnesau, prosiectau cymunedol ac unigolion ledled y sir.



Lansiwyd **Cynllun Graddedigion** newydd gan y Cyngor, gan gynnig y cyfle i raddedigion newydd wneud cynnydd yn eu gyrfaoedd mewn amryw o feysydd allweddol o fewn y rhanbarth a'r cymunedau lle y cawsant eu magu.



Cwblhawyd gwaith ar **Gynllun Amddiffyn Arfordirol Aberaeron** ym mis Hydref 2025.



Enillodd **Gwasanaeth Cynllunio Ceredigion** 3 gwobr yn Seremoni Wobrwyo'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru ar gyfer Rhagoriaeth mewn Cynllunio.



Adnewyddwyd **Canolfan Hamdden Aberaeron**, gan gynnwys gosod llawr newydd, goleuadau LED, ailddodrefnu a gwella'r ystafell ffitrwydd.



Ym mis Mawrth 2026, croesawodd Tyfu Canolbarth Cymru rhyddhau rhagor o gyllid, sef £11.857m, gan Lywodraeth y DU a Lywodraeth Cymru trwy **Fargen Dwf Canolbarth Cymru.**



Agorodd **Llyfrgell Aberaeron**, yn ei lleoliad newydd, ym mis Tachwedd 2025, gan gynnig gwasanaeth llyfrgell a gwasanaeth cwsmeriaid gwell. Mae'r gofod newydd yn cynnig oriau agor estynedig, ystafelloedd cyfarfod, a Gofod Gwneud, gan gryfhau ei rôl fel canolbwynt ar gyfer dysgu ac ymgysylltu.



Cwblhawyd gwaith i wella'r **llwybr sy'n cysylltu Llanbadarn Fawr â Llyfrgell Genedlaethol Cymru** er mwyn gwella hygyrchedd. Gwnaed y llwybr yn fwy llydan gydag wyneb llyfn newydd, gan ei wneud yn addas ar gyfer defnydd a rennir gan seiclwyr a cherddwyr.

...A BETH SYDD I DDOD YN 2026/27!



Mae **Bargen Dwf Canolbarth Cymru** yn magu momentwm gyda llawer o fentrau'n mynd i mewn i'r cyfnod cyflawni dros y 12 mis nesaf, wrth i Ganolbarth Cymru edrych tuag at y dyfodol a datgloi buddsoddiad a chyfleoedd pellach.



Yn dilyn llwyddiant y **Ganolfan Llesiant** cyntaf yn Llanbedr Pont Steffan (llun uchod), mae gwaith yn mynd rhagddo i ddarparu'r ail Ganolfan Llesiant yn y Sir, wedi'i lleoli yn Aberteifi ac yn gwasanaethu de'r Sir.



Mae **Fferm Llettytwppa**, sydd bellach yn eiddo i'r Cyngor, yn cael ei thrawsnewid i fod yn safle addysgol i ddisgyblion sydd eisiau dilyn cyrsiau sy'n gysylltiedig â'r sectorau amaethyddol a garddwriaethol.



Bydd y Cyngor yn cefnogi **Rali Ceredigion** yn falch eto ym mis Medi 2026, gan gynnal rownd o Bencampwriaeth Ralïo Ewrop FIA.



Yn ystod mis Mehefin 2026, bydd Ceredigion yn gartref i **Bencampwriaeth Rasio Ffordd Genedlaethol Lloyds**, a gynhelir gan British Cycling, am ail flwyddyn yn olynol.



Mae **Strategaeth Economaidd Ceredigion** yn cael ei adnewyddu, a bydd yn ystyried yr ymatebion gan berchnogion busnesau lleol, grwpiau cymunedol a thrigolion i helpu llunio ein heconomi leol yn y dyfodol.

ASESIAD PERFFORMIAD PANEL

Cefndir

Bwriedir i Asesiadau Perfformiad Panel roi persbectif annibynnol ac allanol o'r graddau y mae'r Cyngor yn bodloni gofynion perfformiad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sef:

- ei fod yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol;
- ei fod yn defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- mae ei lywodraethu yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod.

Y nod yw cefnogi cynghorau i gyflawni eu dyheadau trwy ddatblygu dealltwriaeth o sut maent yn gweithredu a sut y gallant sicrhau eu bod yn gallu darparu gwasanaethau effeithiol yn yr hirdymor.

Canfyddiadau'r Panel

Cynhelir yr Asesiad gan banel o gyfoedion hyfforddedig ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Cynhaliwyd Asesiad Perfformiad Panel cyntaf Ceredigion rhwng 30 Medi a 3 Hydref 2024.

Bu'r Asesiad Perfformiad Panel yn llwyddiant i'r Cyngor ac adlewyrchir hyn ym mhrofiad cadarnhaol y Panel a'r casgliadau y daethpwyd iddynt yn ei hadroddiad terfynol.

Daeth y Panel i'r casgliad bod gan ystyried y galwadau uchel presennol ar wasanaethau a'r pwysau ariannol heriol iawn, mae Cyngor Sir Ceredigion yn awdurdod lleol sy'n cael ei redeg yn dda.

Amlygodd y Panel y canlynol fel enghreifftiau o hyn:

- Mae gan y Cyngor arweinyddiaeth glir ac effeithiol, gyda pherthnasoedd cadarn ar draws y strwythurau gwleidyddol a swyddogion gweithredol a'r strwythurau ehangach.
- Mae'r Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd effeithiol yng ngoleuni pwysau ariannol, strategol a gweithredol y mae'n delio â nhw yn ddyddiol.
- Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu ac adrodd effeithiol mewn grym.
- Mae'r Cyngor wedi gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau hyd yn hyn.
- Mae'r Cyngor wedi sefydlu ac mae'n datblygu meysydd arloesi gan gynnwys Canolfannau Lles, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, a gweithio hybrid.

Yn ystod yr wythnos, ymwelodd y Panel â'r Ganolfan Lles a lansiwyd yn ddiweddar yn Llanbedr Pont Steffan, cartref gofal Hafan y Waun yn Aberystwyth a'r Ganolfan Byw'n Annibynnol ym Mhenmorfa i weld drostynt eu hunain sut y mae'r Cyngor yn arloesi ac yn buddsoddi mewn technoleg newydd er mwyn cynorthwyo lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol preswylwyr y Sir.

Mae'r adroddiad yn amlygu'r heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu hefyd:

- Pwysau ariannol anodd, yn enwedig trwy wasanaethau a arweinir gan y galw.
- Cynaliadwyedd cyllid ym maes gofal cymdeithasol o ystyried y pwysau ariannol.
- Yr anfanteision i awdurdodau gwledig a achosir gan rai elfennau o'r gwaith adrodd ariannol am y fformwla cyllid, a gweithrediad anghyson mecanweithiau cyllido gwaelodol.
- Effaith diboblogi gwledig a'r heriau ehangach sy'n gysylltiedig â gwledigrwydd a phoblogaeth brin.
- Recriwtio a chadw staff mewn rhai gwasanaethau megis gofal cymdeithasol.

Argymhellion

Mae gofyn i'r Panel wneud unrhyw argymhellion i dywys y Cyngor hefyd wrth nodi camau a fydd yn cynyddu'r graddau y mae'n cyflawni'r gofynion perfformiad.

Mae cyfleoedd ar gyfer gwella wedi'u nodi, a fydd yn gwella'r trefniadau sydd ar waith, i gefnogi cyfathrebu effeithiol, rheoli perthnasoedd a pherchnogaeth gyfunol o heriau'r presennol a'r dyfodol.

Roedd y Panel wedi gwneud cyfres o wyth argymhelliad a restrir ar dudalen 11, ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r Asesiad.

CASGLIADAU CYFFREDINOL

"Gan ystyried y galwadau uchel presennol ar wasanaethau â'r pwysau ariannol heriol iawn, mae Cyngor Sir Ceredigion yn awdurdod lleol sy'n cael ei redeg yn dda."

"Mae gan y Cyngor arweinyddiaeth glir ac effeithiol gyda pherthnasoedd cryf ar draws y weithrediaeth wleidyddol a swyddogion a'r strwythurau ehangach "

"Mae'r Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol yng ngoleuni'r pwysau ariannol, strategol a gweithredol sylweddol y mae'r Cyngor yn delio â o ddydd i ddydd."

"Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu ac adrodd effeithiol ar waith."

"Mae'r Cyngor wedi dangos ei fod wedi gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau hyd yma."

YMATEB I'R PANEL ASESU PERFFORMIAD

Croesawyd y Cyngor Adroddiad Asesu Perfformiad y Panel ac roedd yn ddiolchgar i'r Panel am eu gwaith wrth ddarparu persbectif annibynnol ac allanol o'r graddau y mae'r Cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y meysydd gwella a nodwyd gan y Panel Asesu Perfformiad hefyd, ac mae'n derbyn eu hargymhellion.

Rhestrir ymateb manwl y Cyngor a'r camau cytunedig yn yr Ymateb i'r Asesiad Perfformiad Panel. Dangosir crynodeb o'r argymhellion a chynnydd y Cyngor wrth gyflawni ei gamau gweithredu mewn ymateb yn y tabl ar yr ochr dde.

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n adolygu cynnydd i roi tawelwch meddwl eu bod yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Adeg fis Mawrth 2026, roedd saith allan o'r deg cam gweithredu wedi'u cwblhau gyda dau allan o'r tri cham gweithredu sy'n weddill i fod i'w cwblhau erbyn haf 2026. Y camau gweithredu hyn yw: cyhoeddi'r Strategaeth Cyfathrebu a darparu hyfforddiant pellach i aelodau'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu ynghylch rôl craffu.

Argymhelliad y Panel	Er mwyn mynd i'r afael â'r argymhelliad, byddwn yn	Statws
1) Bydd angen i'r Cyngor ystyried y ffordd orau o ymgynghori ar doriadau posibl yn y gyllideb o ystyried yr amserlen gul ar gyfer ymgynghori oherwydd y terfynau amser statudol ar gyfer pennu'r gyllideb.	Ystyried cynnal ymgynghoriad corfforaethol cyffredinol cyn cymeradwyo cyllideb 2026/27.	Wedi Cwblhau
2) Hyd yn hyn, mae'r Cyngor wedi gallu darparu cyllid ychwanegol sylweddol ar gyfer darparu gofal cymdeithasol, a bydd angen ystyried pa mor gynaliadwy y mae hyn yn symud ymlaen o ystyried y pwysau ariannol.	Sefydlu cartrefi â staff o'r sir ar gyfer plant sy'n derbyn gofal Lleihau dibyniaeth ar weithwyr asiantaeth lle mae'n ddiogel gwneud hynny.	Wedi Cwblhau Wedi Cwblhau
3) Dylai'r Cyngor ystyried y cyfleoedd ar gyfer gwaith partneriaeth pellach.	Archwilio ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu gwasanaethau gyda'r holl bartneriaid, gan gynnwys mynd ar drywydd cyfleoedd pellach ar gyfer darparu gwasanaethau a swyddogaethau a chyfleusterau a rennir gyda phartneriaid.	Wedi Cwblhau
4) Mae angen brys i'r Cyngor ailystyried a yw eu strategaeth bresennol ar gyfer recriwtio gwaith cymdeithasol yn effeithiol ac archwilio dewisiadau eraill.	Darparu a buddsoddi yn y strategaeth i ddatblygu gweithwyr cymdeithasol eu hunain, gyda'r nod y gellir ennill 21 o unigolion yn cymhwyso fel gweithwyr cymdeithasol dros y 4 blynedd nesaf.	Ar y gweill ac ar amser
5) Dylai'r Cyngor ystyried sut i fynd i'r afael â thema gyson o gyfathrebu aneffeithiol ar draws yr awdurdod yn enwedig gyda phartneriaid a phreswylwyr ac effeithiolrwydd "Clic".	Ymgymryd â dadansoddiad rheolaidd o ryngweithio postiadau cyfryngau cymdeithasol, fideos ac e-gylchlythyrau corfforaethol a defnyddio'r wybodaeth i lywio strategaethau'r dyfodol. Datblygu Strategaeth Gyfathrebu sy'n amlygu'r arddull a'r parodrwydd i ymgysylltu.	Wedi Cwblhau Ar y gweill ac ar amser
6) Mae yna ychydig o ddatgysylltiad rhwng aelodau'r fainc gefn a'r timau gweithredol / uwch arweiniol y mae angen mynd i'r afael â nhw.	Bydd yr Arweinydd yn parhau i alw cyfarfodydd anffurfiol gydag arweinwyr grwpiau'r gwrthbleidiau er mwyn rhoi gwybod iddynt am y materion a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor sydd ar ddod, er mwyn ennyn ysbryd o gydweithredu a chyd-ddealltwriaeth.	Wedi Cwblhau
7) Mae angen datblygu'r berthynas rhwng y swyddogaeth graffu a'r corff gweithredol ymhellach.	Darparu hyfforddiant pellach i aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ac i Aelodau'r Cabinet ynghylch rôl craffu a dwyn Aelodau'r Cabinet i gyfrif. Bydd yr hyfforddiant yn darparu gwybodaeth am sut i nodi a blaenoriaethu pynciau y dylid eu craffu.	Ar y gweill ac ar amser
8) Mae'r system rheoli perfformiad yn gynhwysfawr ond mae angen canolbwyntio mwy ar ganlyniadau.	Ail-gydbwyso'r mesurau perfformiad cyfanredol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac allbwn o fewn Cynlluniau Busnes Lefel 1 ar draws y Cyngor.	Wedi Cwblhau

CEFNDIR I HUNANASESIAD 2025-26

Dyma pumed Adroddiad Hunanasesu Cyngor Sir Ceredigion, sydd yn adolygu'r flwyddyn 2025/26.

Rydym wedi dysgu llawer ers dechrau gweithredu'r drefn hunanasesu perfformiad llywodraeth leol a ddaeth i rym yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i helpu ein gwaith cynllunio busnes, wrth ddarparu gwasanaethau a chydag adnoddau.

Mae Adroddiad Hunanasesu eleni yn dod ag amrywiaeth eang o dystiolaeth ynghyd i asesu ein perfformiad ac adolygu ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol.

Mae hefyd wedi tynnu ein sylw at yr heriau sy'n ein hwynebu. Mae hyn yn bwysig gan fod angen i ni barhau i addasu i ateb yr heriau hyn er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau'n gynaliadwy yn ogystal â'n bod yn nodi cyfleoedd i wella lefelau perfformiad, nodi arbedion effeithlonrwydd, neu'r ddau.

Rydym wedi adeiladu ar Adroddiadau Hunanasesu blaenorol trwy gynnwys yr wybodaeth ychwanegol ganlynol eleni:

- Golwg cyflawn o'n perfformiad, risgiau, cyllideb a'n gwerth am arian – y cyfan mewn un lle.
- Gwybodaeth bellach ynghylch sut rydyn ni'n gweithio i wella deilliannau i bobl a chymunedau lleol. Defnyddir astudiaethau achos a mesurau ar sail perfformiad i arddangos yr effaith rydyn ni'n ei chael. Mae sbarduno deilliannau gwell i bobl a chymunedau lleol yn un o egwyddorion sylfaenol y broses Hunanasesu.
- Diweddariad cynnydd ar gyflawni'r deg argymhelliad o'n Hasesiad Perfformiad y Panel, a gynhaliwyd ym mis Hydref 2024.

Yn ystod hydref 2025 aethom ati i adolygu ein dulliau hunanasesu a gwneud nifer o fân addasiadau i'r broses. Yn bennaf, roedd hyn er mwyn cryfhau'r pecyn data o'r adolygiad bwrdd gwaith o dystiolaeth, a ddefnyddir i hysbysu'r gweithdai gyda rheolwyr.

Roedd yr adolygiad wedi cydnabod bod y broses Hunanasesu yn parhau i ymwreiddio yn y sefydliad, mae hyder y Cyngor wrth ddefnyddio'r proses yn tyfu, ac yn hanfodol mae'r Cyngor yn dysgu mwy am ei chryfderau, heriau a'i chyfleoedd. Cefnogwyd hyn gan ganfyddiadau'r Asesiad Perfformiad Panel, y gallwch ddysgu mwy amdano ar dudalen 10.

Bwriad yr adolygiad yw i mireinio'r proses yn seiliedig ar ein profiadau yn y blynyddoedd blaenorol. Byddwn yn parhau i adolygu'r ffordd yr ydym yn cynnal hunanasesiad, yn flynyddol.

Mae'r hunanasesiad yn rhoi golwg i ni ar berfformiad y sefydliad cyfan. Mae saith thema yr ydym yn asesu ein hunain yn eu herbyn, sef:

- Cyflawni ein swyddogaethau yn effeithiol
- Defnyddio ein hadnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol
- Sicrhau bod ein llywodraethu yn effeithiol
- Arloesedd a chreadigrwydd
- Cydweithio
- Cynnwys pobl
- Rheoli Risg

Mae'r themâu hyn yn deillio o gyfuniad o'r Canllawiau Statudol ar y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ynghyd â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy. Maent yn adlewyrchu saith gweithgaredd craidd cyrff cyhoeddus fel y'u diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ar gyfer pob thema rydym yn asesu a oes gennym gynlluniau ac amcanion ar waith, a yw'r cynlluniau a'r amcanion hynny'n cael eu cyflawni ac a ydynt yn gynaliadwy dros y tymor hwy ai peidio. Mae'r rhain yn ffurfio ein Prif Lwybrau Ymholi a dyma'r ffordd yr ydym yn asesu ein perfformiad cyffredinol.

Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi crynodeb o'r canfyddiadau a sgôr bob thema. Mae'r system sgorio a ddefnyddir yn darparu graddfa Coch-Ambr-Gwyrdd i ddangos lle mae perfformiad yn dda a lle mae angen cymryd camau pellach, gweler y diagram isod.

ALLWEDD I'R ASESIAD

DA IAWN

Ar y cyfan fe'i hystyrir yn dda iawn ac yn bodloni arfer orau nid oes angen unrhyw gamau pellach

DA

Ystyrir yn dda ar y cyfan ond efallai y bydd angen mân addasiadau

BODDHAOL

Boddhaol ond camau i'w cymryd

O DAN BODDHAOL

Angen Gweithredu Brys (o fewn 3-6 mis)

ANNERBYNIOL

Angen gweithredu ar unwaith

CRYNODEB O BERFFORMIAD 2025-26

YMARFER EIN SWYDDOGAETHAU YN EFFEITHIOL

Cyhoeddodd y Cyngor ei Strategaeth Gorfforaethol yn 2022, gan nodi ei weledigaeth hirdymor a'i Amcanion Llesiant Corfforaethol. Mae hyn yn parhau i gael ei gefnogi gan ystod o strategaethau allweddol sy'n helpu i gyflawni'r amcanion hyn, gan gynnwys y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, y Strategaeth Llesiant Gydol Oes a'r Strategaeth Economaidd.

Yn ystod 2025/26, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud wrth gryfhau fframwaith strategol a threfniadau rheoli perfformiad y Cyngor. Un garreg filltir allweddol oedd datblygu a gweithredu mecanweithiau i olrhain cyflawni'r Strategaeth Gorfforaethol a'r Amcanion Llesiant Corfforaethol, gan ddarparu trosolwg gwell o gynnydd a helpu i sicrhau bod blaenoriaethau corfforaethol yn cael eu troi'n ddeilliannau ar gyfer trigolion a chymunedau. Mae'r Cyngor hefyd wedi parhau i gryfhau ei ddull cynllunio trwy ddatblygu Cynlluniau Busnes sy'n canolbwyntio'n fwy ar ddeilliannau, wedi'u cefnogi gan ganllawiau wedi'u diweddaru ac aliniad traws-wasanaeth gwell.

Mae'r cynnydd wrth gyflawni'r prif flaenoriaethau'n parhau i fod yn gadarnhaol. Ymhlith y llwyddiannau nodedig yn ystod y flwyddyn mae buddsoddiad parhaol mewn ysgolion, cyfleusterau hamdden, llyfrgelloedd a'r seilwaith llesiant cymunedol, datblygiad pellach prosiect Fferm Llettytwppa, cynnydd wrth ddatblygu llety i blant o fewn y sir, a pherfformiad cryf o ran gwastraff ac ailgylchu, gyda thrigolion y sir bellach yn ailgylchu mwy o wastraff nag erioed o'r blaen yn ystod diwedd 2025. Mae'r Cyngor hefyd wedi parhau i ddathlu a hyrwyddo diwylliant a'r iaith Gymraeg, tra'n buddsoddi mewn mentrau megis y Cynllun Graddedigion i gefnogi cynaliadwyedd y gweithlu yn y dyfodol.

Mae tystiolaeth gynyddol fod cynaliadwyedd a meddwl hirdymor wedi'u hymgorffori o fewn prosesau gwneud penderfyniadau. Caiff hyn ei ddangos trwy'r defnydd cynyddol o Asesiadau Effaith Integredig, gwaith y Cyngor ar werthoedd sefydliadol, a rhaglenni buddsoddiad sy'n cefnogi pobl i fyw, gweithio a ffynnu o fewn y sir. Mae safle ariannol y Cyngor hefyd wedi parhau i sefydlogi, gyda rheolaeth ariannol gref yn helpu i osgoi cwtogi gwasanaethau a darparu platfform ar gyfer buddsoddiad ac arloesedd yn y dyfodol.

Mae Fframwaith Rheolaeth Ariannol corfforaethol y Cyngor yn parhau i aeddfedu ac yn darparu mecanwaith strwythuredig i fonitro cyflawni, perfformiad, risgiau a gweithgarwch gwella. Mae'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu Hunanasesu a'r argymhellion sy'n codi o Adroddiad y Panel Perfformiad yn parhau i gael eu monitro'n agos, gyda chynnydd da wedi'i wneud hyd yn hyn. Mae'r Bwrdd Perfformiad yn dod yn fwy strategol yn ei rôl, gan hysbysu rhaglenni gwaith craffu a chefnogi ffocws cryfach ar ddeilliannau yn hytrach na gweithgarwch yn unig. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio'n rhagweithiol â phartneriaid, gan gynnwys CLILC, i gefnogi datblygiad fframwaith deilliannau cenedlaethol.

Mae asesiadau rheoleiddiol ac allanol yn parhau i roi sicrwydd ynghylch trywydd cyffredinol y Cyngor. Yn ychwanegol, mae heriau recriwtio a nodwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol, yn enwedig o fewn gofal cymdeithasol, wedi gwella'n sylweddol, gan ddangos effaith gadarnhaol mentrau gweithlu wedi'u targedu.

Mae gan y Cyngor weledigaeth uchelgeisiol a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol, ac at ei gilydd, rydym yn ystyried bod y strategaethau, y cynlluniau a'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith yn darparu sylfaen gref ar gyfer cyflawni deilliannau cadarnhaol dros y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir.

YMARFER EIN SWYDDOGAETHAU YN EFFEITHIOL

Oes gan y Cyngor set o strategaethau corfforaethol a gwasanaeth mewn lle sydd yn gosod allan gweledigaeth y Cyngor a'i phriodweddau?

Da Iawn

A yw'r strategaethau hyn yn cyflawni eu nodau a'u hamcanion?

Da

A yw'r strategaethau hyn yn gynaliadwy o ran addasu i anghenion y sefydliad yn y dyfodol?

Da Iawn

A oes gan y Cyngor fframwaith rheoli perfformiad effeithiol a chraffu democrataidd ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflawni gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor?

Boddhaol

A yw Cynlluniau Busnes Gwasanaethau yn cyflawni eu hamcanion a'u targedau perfformiad?

Da

Fodd bynnag, mae heriau o hyd. Mae'n dal i fod angen sylw ar gapasiti o fewn Rheoli Asedau, er bod gwaith sylweddol wedi'i wneud trwy'r Cynllun Gweithredu Rheoli Asedau, gan gynnwys adolygiadau strwythurol a gweithgareddau recriwtio. Rydym hefyd yn cydnabod yr angen i gryfhau ymgysylltiad â rhai aelodau etholedig ymhellach a pharhau i wella sut mae perfformiad a deilliannau'n cael eu cyfathrebu a'u deall. Gan fod disgwyliadau, galw a phwysau ariannol yn parhau ar draws llywodraeth leol, bydd cynnal capasiti sefydliadol tra'n cyflawni newid trawsnewidiol yn parhau i fod yn ffocws pwysig.

At ei gilydd, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cryfhau cynllunio strategol, rheoli perfformiad a chyflawni yn ystod y flwyddyn. Er bod rhagor o waith i'w wneud o hyd, yn enwedig o ran arddangos deilliannau a pharhau i foderneiddio gwasanaethau, rydym mewn sefyllfa sy'n gwella o hyd i gyflawni ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol ac ymateb yn effeithiol i heriau yn y dyfodol.

DEFNYDDIO EIN HADNODDAU YN ECONOMAIDD, YN EFFEITHLON AC YN EFFEITHIOL

Asesir y safle cyffredinol o ran defnyddio adnoddau fel safle da, yn enwedig mewn perthynas â rheoli arian a gweithlu'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn parhau i arddangos stiwardiaeth ariannol gref, a amlygir trwy reolaeth gadarn o gyllidebau, safle ariannol

sefydlog a'r gallu i gynnal gwasanaethau er gwaethaf y pwysau parhaus sy'n wynebu llywodraeth leol. Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth a'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol yn parhau i arddangos ymagwedd gorfforol gref at reolaeth ariannol, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio tuag at flaenoriaethau'r Cyngor tra'n cynnal gwydnwch ariannol.

Cefnogir hyn gan adborth rheoleiddiol cadarnhaol. Daeth yr Asesiad Perfformiad Panel i'r casgliad bod y Cyngor yn gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau, tra bod adolygiadau allanol yn parhau i gydnabod cryfder trefniadau rheolaeth ariannol y Cyngor. Mae gallu'r Cyngor i gynhyrchu cyfrifon cymwys yn gyson yn parhau i fod yn gyflawniad sylweddol ac yn darparu sicrwydd ynghylch llywodraethu ariannol.

Mae'r Cyngor wedi parhau i fuddsoddi'n strategol yn y prif flaenoriaethau. Mae defnydd da wedi'i wneud o adnoddau cyfalaf, gan gynnwys buddsoddiad mewn llety i blant, seilwaith priffyrdd, cyfleusterau hamdden a llesiant, a rhaglenni sy'n cefnogi atal ac annibyniaeth. Mae'r Fenter Benthyca Llywodraeth Leol wedi galluogi cynnydd sylweddol yn y rhaglenni arwynebu a thrin arwynebau priffyrdd, gan wella cyflwr a gwydnwch rhwydwaith ffyrdd y sir. Mae'r llwyddiant parhaol o fewn gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu hefyd wedi arddangos y defnydd effeithiol o adnoddau tra'n cyfrannu at amcanion amgylcheddol.

Mae'r Cyngor yn parhau i gydnabod mai ei ased gorau yw ei weithlu. Mae canlyniadau'r Arolwg Pobl wedi parhau i fod yn eithriadol o gryf am ail flwyddyn yn olynol, gyda lefelau cyfranogiad uwch a chanfyddiadau cadarnhaol sy'n cymharu'n ffafriol â sefydliadau sector cyhoeddus eraill. Mae cyflwyno'r Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau wedi atgyfnerthu diwylliant sefydliadol cadarnhaol ymhellach lle mae staff yn teimlo wedi'u gwerthfawrogi ac wedi ymgysylltu. Mae hyn yn darparu sylfaen gref ar gyfer cynaliadwyedd y gweithlu a pherfformiad sefydliadol.

Mae cynnydd hefyd yn cael ei wneud wrth gryfhau dull y Cyngor o gaffael a rheoli asedau. O ganlyniad i newidiadau deddfwriaethol sylweddol, bu angen dull hyblyg ac ymatebol i weithgarwch caffael, tra bod gwaith yn parhau i sicrhau bod systemau, rheolaethau a threfniadau llywodraethu yn parhau i fod yn addas i'r pwrpas. Yn yr un modd, mae'r Cynllun Rheoli Asedau Strategol wrthi'n cael ei ddatblygu ac mae Cynllun Gweithredu Rheoli Asedau yn cael ei roi ar waith i fynd i'r afael â meysydd a nodwyd ar gyfer gwelliant.

At ei gilydd, mae'r Cyngor yn ystyried bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol er mwyn cefnogi cyflawni'r Amcanion Llesiant Corfforaethol. Fodd bynnag, er bod cynnydd da yn cael ei wneud, mae Rheoli Asedau yn parhau i fod yn faes sydd angen ffocws parhaus wrth i welliannau gael eu hymgorffori a bod dull strategol hirdymor y Cyngor yn parhau i ddatblygu.

SICRHAU EIN LLYWODRAETHU YN EFFEITHIOL

At ei gilydd, mae'r dystiolaeth yn arddangos bod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn parhau i fod yn gadarn ac yn parhau i gefnogi cyflawni gwasanaethau a'r Amcanion Llesiant Corfforaethol yn effeithiol. Mae'r trefniadau llywodraethu yn sefydledig, wedi'u cefnogi gan Fframwaith Llywodraethu cynhwysfawr, proses Datganiad Llywodraethu Blynyddol gref a pherthnasoedd cadarnhaol â rheoleiddwyr ac archwilwyr allanol.

DEFNYDDIO EIN HADNODDAU YN ECONOMAIDD, YN EFFEITHLON AC YN EFFEITHIOL

A oes gan y Cyngor strategaethau cynhwysfawr ar waith ar gyfer Cynllunio'r Gweithlu, Rheolaeth Ariannol, Caffael a Rheoli Asedau?

Da

A yw'r strategaethau hyn yn cyflawni eu nodau a'u hamcanion datganedig ar gyfer Cynllunio'r Gweithlu, Rheolaeth Ariannol, Caffael a Rheoli Asedau?

Da

A yw'r strategaethau hyn yn gynaliadwy o ran addasu i anghenion y sefydliad yn y dyfodol?

Da

Mae sicrwydd allanol yn darparu hyder yn y trefniadau hyn. Daeth yr Asesiad Perfformiad Panel i'r casgliad bod gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith, tra bod Archwilio Cymru wedi darparu adborth cadarnhaol ynghylch prosesau llywodraethu, gan gynnwys dull y Cyngor o adolygu a chynnal ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn parhau i chwarae rôl bwysig wrth herio a rhoi sicrwydd, ac mae'r aelodau wedi cydnabod gwelliannau yn ei effeithiolrwydd yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Cyngor yn parhau i gynnal perthnasoedd agored ac adeiladol â rheoleiddwyr ac arolygwyr. Cynhelir ymgysylltiad cadarnhaol ar draws ystod o gyrff rheoleiddiol, gyda pherthynas hynod o gryf yn parhau gydag Estyn. Mae'r Cyngor yn parhau i ymrwymo i weithio'n dryloyw gyda'r holl rheoleiddwyr ac yn ymateb yn gadarnhaol i heriau ac argymhellion.

Mae trefniadau llywodraethu yn parhau i esblygu er mwyn adlewyrchu gofynion a disgwyliadau newidiol. Yn ystod y flwyddyn, sefydlwyd Grŵp Llywodraethu penodedig, sydd wedi cychwyn eu gwaith, trwy darparu haen ychwanegol o oruchwyliaeth a chryfhau cydlynu materion yn ymwneud â llywodraethu ar draws y sefydliad. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i welliant parhaus a dysgu sefydliadol.

Hefyd, mae'r Cyngor yn parhau i chwarae rôl arweiniol o fewn trefniadau llywodraethu rhanbarthol, gan gynnwys strwythurau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a Tyfu Canolbarth Cymru. Tra bod trefniadau llywodraethu bellach wedi sefydlu'n gadarn, mae pryderon o hyd ynghylch y baich gweinyddol ychwanegol a'r gwerth y gellir ei ddangos sy'n codi o rai strwythurau rhanbarthol.

At ei gilydd, mae'r Cyngor yn ystyried ei drefniadau llywodraethu yn rhai effeithiol, sydd wedi'u hymgorffori'n dda ac sy'n gefnogol o wneud penderfyniadau da, atebolrwydd a gwelliant parhaus.

ARLOESI A CHREADIGRWYDD TYMOR HIR

Mae arloesedd a chreadigrwydd yn parhau i fod yn gryfderau sylweddol ac yn dod yn fwyfwy ymgorfforedig yn niwylliant y sefydliad. Mae gan y Cyngor hanes cryf o adnabod dulliau newydd o gyflawni gwasanaethau ac mae'n parhau i annog arloesedd fel modd o wella deilliannau, gwella profiad y cwsmer a sicrhau cynaliadwyedd hirdymor.

Mae nifer o fentrau sylweddol yn ystod y flwyddyn yn arddangos yr ymrwymiad hwn. Mae datblygiad parhaus y prosiect yn Llanbedr Pont Steffan a mentrau cysylltiedig yn darparu enghreifftiau o ddulliau arloesol i ddatblygu economaidd, adfywio cymunedol a chynaliadwyedd hirdymor. I'r un graddau, mae'r gwaith a wnaed i fynd i'r afael â heriau recriwtio'r gweithlu yn arddangos datrysiadau creadigol i faterion sy'n effeithio ar lywodraeth leol yn genedlaethol ac sydd eisoes yn cyfrannu'n gadarnhaol at wydnwch y gweithlu.

Mae trawsnewid digidol yn parhau i fod yn ysgogydd allweddol o arloesedd ar draws y Cyngor. Yn ystod y flwyddyn, mae gwasanaethau wedi parhau i groesawu technolegau newydd a datrysiadau digidol, gan gynnwys gweithredu systemau busnes newydd, datblygiadau o fewn addysg a gwasanaethau priffyrdd, cyflwyno technolegau Microsoft Copilot a chyflwyno technoleg newydd yn llwyddiannus i gefnogi prosesau etholiadol. Mae datrysiadau digidol hefyd yn cael eu defnyddio'n greadigol o fewn lleoliadau gofal cymdeithasol, gan helpu i wella mynediad at wybodaeth a gwasanaethau i drigolion.

Mae'r Cyngor yn parhau i gydnabod arloesedd fel rhywbeth sydd wrth wraidd ei gynaliadwyedd hirdymor. Gellir gweld hyn trwy weithgarwch trawsnewid parhaus ar draws ystod o feysydd gwasanaeth a thrwy barodrwydd i archwilio dulliau newydd lle maent yn darparu buddion clir i gwsmeriaid, cymunedau a'r sefydliad. Nid yw arloesedd bellach wedi'i gyfyngu i brosiectau unigol, ond, yn gynyddol, mae'n ffurfio rhan o sut mae'r Cyngor yn gweithredu o ddydd i ddydd.

Er bod pwysau ariannol a galw cynyddol yn parhau i fod yn heriau, mae'r Cyngor yn ystyried bod ei ddiwylliant o arloesedd a gwelliant parhaus yn darparu platfform cryf y gallwn ymateb i gyfleoedd a heriau yn y dyfodol ohono.

CYDWEITHIO

Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn rhagweithiol wrth ymgysylltu â phartneriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ac yn cydnabod bod cydweithredu yn offeryn hanfodol ar gyfer gwella deilliannau a chyflawni gwasanaethau yn effeithiol. Mae gweithio cydweithredol yn parhau i gefnogi ystod o flaenoriaethau'r Cyngor ac yn galluogi'r sefydliad i wneud y mwyaf o'i adnoddau, ei ddylanwad a'i arbenigedd yn gynyddol.

Mae sawl enghraifft o weithio'n effeithiol mewn partneriaeth yn ystod y flwyddyn. Mae

SICRHAU EIN LLYWODRAETHU YN EFFEITHIOL

A oes gan y Cyngor fframwaith llywodraethu cynhwysfawr ar waith ar gyfer cynnal llywodraethu corfforaethol y sefydliad?

Da Iawn

Pa mor effeithiol y caiff y cod a'r fframwaith llywodraethu eu cymhwyso a'u harsylwi?

Da

A yw'r Cyngor yn gweithio'n gynhyrchiol gyda'i rheoleiddwyr allanol ac yn dangos cydymffurfiaeth dda?

Da Iawn

ARLOESI A CHREADIGRWYDD TYMOR HIR

A yw'r Cyngor yn croesawu arloesedd a chreadigrwydd yn ei weithgareddau ac yn gweithredu trawsnewid?

Da

Pa mor effeithiol fu prosiectau trawsnewid y Cyngor o ran nodi a gweithredu creadigrwydd ac arloesedd ar draws y sefydliad?

Da

perthnasoedd cryf yn parhau gydag awdurdodau lleol cyfagos, y Bwrdd Iechyd, sefydliadau addysgol ac amrywiaeth o bartneriaethau rhanbarthol. Mae'r gwaith integreiddio â gwasanaethau iechyd yn parhau i ddatblygu'n gadarnhaol. Ymhlith yr enghreifftiau o hyn, gan gynnwys gweithio ar y cyd o gyfleusterau a rennir, trefniadau partneriaeth Adran 33 ac ymagweddau cydweithredol tuag at wasanaethau offer cymunedol a rhaglenni datgyflyru.

Hefyd, mae'r Cyngor yn parhau i chwarae rôl flaenllaw o fewn nifer o bartneriaethau rhanbarthol. Mae'r rhain yn cynnwys cadeirio'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, cadeirio gwaith ynghylch gwasanaethau offer cymunedol, cefnogi gwaith rhanbarthol ar atal radicaleiddio a chyfrannu at ddatblygu trefniadau etholiadol ledled Cymru. Mae dull cydweithredol y Cyngor hefyd wedi helpu i sicrhau buddsoddiad ychwanegol trwy raglenni ariannu rhanbarthol.

Mae gweithio mewn partneriaeth hefyd yn cefnogi blaenoriaethau strategol megis prosiect Llanbedr Pont Steffan, datblygu'r gweithlu a recriwtio ym maes gofal cymdeithasol. Mae trefniadau cydweithredol gyda phartneriaid addysgol yn helpu i greu llwybrau newydd i mewn i broffesiynau sy'n wynebu pwysau o ran recriwtio, tra bod ymgysylltu â sefydliadau sy'n rhanddeiliaid yn cryfhau cyflawni prosiectau economaidd a chymunedol.

Mae'r Cyngor yn parhau i ddilyn dull pragmatig o gydweithredu, gan gydnabod y dylai gweithio mewn partneriaeth ychwanegu gwerth a chyflwyno buddion diriaethol i bobl a chymunedau Ceredigion. Mae hyn yn parhau i fod yn hynod bwysig o ystyried yr heriau ariannol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus. Felly, bydd y Cyngor yn parhau i adolygu partneriaethau'n gritigol a chanolbwyntio'i adnoddau ar y trefniadau hynny sy'n darparu'r budd mwyaf.

At ei gilydd, mae cydweithredu'n parhau i fod yn gryfder sylweddol ac yn gyfrannwr pwysig tuag at gyflawni dyheadau strategol y Cyngor.

YMWNEUD

Mae'r Cyngor yn parhau i fod wedi'i ymrwymo i sicrhau bod trigolion, cymunedau, partneriaid a rhanddeiliaid yn cael cyfleoedd i gyfrannu at wneud penderfyniadau a datblygu gwasanaethau. Yn ystod y flwyddyn, gwnaed cynnydd sylweddol mewn cryfhau trefniadau ymgysylltu a chyfranogiad, ynghyd â datblygu dull mwy cydweithredol o gasglu a defnyddio mewnwelediadau.

Carreg filltir sylweddol oedd datblygu a chyhoeddi Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad newydd, gan ddarparu fframwaith wedi'i adnewyddu ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu ar draws y sefydliad. Cefnogir hyn gan ddatblygiad parhaus y Bwrdd Mewnwelediadau, sy'n dod â gwybodaeth ynghyd o amrywiaeth o ffynonellau ymgysylltu, ymgynghori a thystiolaeth er mwyn helpu i hysbysu gwneud penderfyniadau a gwella gwasanaethau.

Mae cyflwyno ac ehangu Panel Pobl Ceredigion wedi bod yn llwyddiant arbennig. Mae'r aelodaeth wedi parhau i dyfu ac mae'r Panel eisoes wedi'i ddefnyddio i gasglu adborth gwerthfawr ar ystod o faterion, gan gynnwys canfyddiadau'r cyhoedd o berfformiad y Cyngor a datblygiad deunyddiau cyfarwyddyd etholiadol. Mae'r Panel yn darparu mecanwaith ychwanegol ar gyfer ymgysylltu â thrigolion a chasglu tystiolaeth i gefnogi gwneud penderfyniadau yn y dyfodol.

Bu hefyd sawl enghraifft o weithgareddau ymgysylltu effeithiol yn ystod y flwyddyn. Cynhyrchodd ymarfer ymgysylltiad cyllideb y Cyngor gyfranogiad a chyrhaeddiad ar-lein sylweddol, tra bod gwasanaethau ar draws y

CYDWEITHIO

A yw'r Cyngor yn ymgysylltu'n rhagweithiol â phartneriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol?

Da

Pa mor effeithiol yw'r partneriaethau y mae'r Cyngor wedi buddsoddi ynddynt i gyflawni ei nodau a'i amcanion?

Da

YMWNEUD

A oes gan y Cyngor strategaeth gynhwysfawr a chynllun gweithredu ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori ar waith?

Da

Pa mor effeithiol y mae'r Cyngor yn defnyddio adborth ymgysylltu ac ymgynghori i adolygu a gwella ei wasanaethau?

Da

sefydliad wedi parhau i ymgysylltu â chymunedau, rhanddeiliaid, pobl ifanc, gofalwyr a thrigolion hŷn er mwyn sicrhau bod ystod eang o bersbectifau yn hysbysu gwneud penderfyniadau. Mae'r Cyngor hefyd wedi parhau i gryfhau'r defnydd o Asesiadau Effaith Integredig a darparu ystyriaeth ystyrlon o adborth ar ymgynghoriadau.

Tra bod cynnydd wedi bod yn gadarnhaol, mae heriau o hyd. Mae syrffed ar ymgynghoriadau yn parhau i fod yn bryder, yn enwedig pan ofynnir i drigolion ymgysylltu wrth drafod sawl mater. Hefyd, mae angen o hyd am wella'r ddealltwriaeth o bwrpas ymarferion ymgynghori a rheoli disgwyliadau ynghylch sut mae canfyddiadau ymgynghoriadau'n effeithio ar benderfyniadau terfynol.

At ei gilydd, mae trefniadau ymgysylltu ac ymwneud wedi cryfhau'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ac yn darparu sylfaen gref ar gyfer parhau i ddatblygu cyfranogiad ystyrlon yn y dyfodol.

REOLI RISG

Mae dull y cyngor o reoli risgiau yn parhau i gryfhau ac mae'n cael ei gydnabod yn gynyddol fel maes o aeddfedrwydd sefydliadol. Yn ystod y flwyddyn, darparodd adborth cadarnhaol gan Archwilio Cymru sicrwydd allanol ynghylch effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor a'r cynnydd a wnaed o ran ymgorffori rheoli risgiau yn y sefydliad drwyddo draw.

Nododd Archwilio Cymru fod trefniadau rheoli risgiau'r Cyngor yn aeddfed ac fe wnaethant gydnabod y cysylltiadau cryf rhwng risgiau ar lefel gwasanaeth a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. Mae'r broses uwchgyfeirio ar gyfer risgiau sylweddol wedi'i deall yn glir ac mae'n rhoi sicrwydd y gall materion sy'n dod i'r amlwg gael eu nodi a'u rheoli'n addas. Mae hyn yn adlewyrchu cynnydd sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf wrth gryfhau fframwaith rheoli risgiau'r Cyngor.

Mae rheoli risgiau yn cael ei ymgorffori fwyfwy o fewn gweithgarwch busnes o ddydd i ddydd. Mae risgiau'n parhau i gael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd, gyda'r Grŵp Arweinyddiaeth yn chwarae rôl allweddol mewn asesu a rheoli risgiau strategol sy'n wynebu'r sefydliad. Hefyd, mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi datblygu ei ddull ac mae bellach yn rhoi mwy o bwyslais ar drafod sylwedd risgiau a lliniaru yn hytrach na'r broses ei hun. Mae Pwyllgorau Craffu'n parhau i gyfrannu trwy adolygu risgiau corfforaethol ar sail dreigl.

Mae'r Cyngor wedi arddangos gallu i ymateb yn rhagweithiol i amgylchedd risgiau sy'n dod yn fwy cymhleth. Mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn cael sesiynau briffio rheolaidd ar faterion cenedlaethol a rhyngwladol sy'n dod i'r amlwg a allai effeithio ar gyflawni gwasanaethau yn lleol, gan sicrhau bod risgiau'n cael eu hystyried yn gorfforaethol ac yn gynnar.

Fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i welliant parhaus, mae'r Polisi, Strategaeth a'r Fframwaith Rheoli Risgiau yn cael eu hadolygu a'u diweddaru ar hyn o bryd. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys rhoi argymhellion ar waith sy'n codi o adolygiadau allanol, cryfhau trefniadau parodrwydd i dderbyn risg y Cyngor, gwella disgrifiadau risg yn unol ag arferion da cenedlaethol a sicrhau bod risgiau'n cael eu cysylltu'n glir â'r Amcanion Llesiant Corfforaethol.

At ei gilydd, mae'r Cyngor yn ystyried ei drefniadau ar gyfer adnabod, rheoli a monitro risgiau fel rhai effeithiol. Er y disgwylir mireinio parhaus fel rhan o lywodraethu da, mae rheoli risgiau bellach wedi'i ymgorffori'n gadarn o fewn prosesau gwneud penderfyniadau a rheoli perfformiad y Cyngor.

REOLI RISG

A oes gan y Cyngor strategaeth a fframwaith cynhwysfawr ar waith ar gyfer rheoli risg?

Da

A yw'r strategaethau hyn yn cyflawni eu nodau a'u hamcanion?

Da

A yw'r strategaethau hyn yn gynaliadwy o ran addasu i anghenion y sefydliad yn y dyfodol?

Da

CYNLLUN GWEITHREDU'R HUNANASESIAD

Gan ymateb i'r canfyddiadau hyn, rydym wedi nodi nifer o gyfleoedd i sicrhau gwelliant. Trwy ymgynghori â gwasanaethau'r Cyngor ac Aelodau etholedig, mae'r camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd er mwyn ymateb i'r dysgu hwn yn cael eu cynnal yn y cynllun gweithredu drosodd, ac fe'u hadlewyrchir mewn cynlluniau busnes gwasanaethau hefyd.

Mae'r Cynllun yn datblygu cynllun gweithredu y llynedd wrth i'n dysgu ddatblygu ac wrth i gyfleoedd newydd gael eu nodi. Bydd yr holl weithredoedd yn parhau i gael eu monitro nes iddynt gael eu cwblhau fel rhan o'n trefniadau rheoli perfformiad parhaus, ac adroddir am y cynnydd yn yr Adroddiad Hunanasesu. Cedwir adrannau a gwblhawyd yn flaenorol fel cofnod o'r cynnydd ar ein taith perfformiad hunanasesu.

Rydym wedi blaenoriaethu'r gweithredoedd er mwyn gosod y sylfeini ar gyfer gwaith yn y dyfodol ar draws y saith thema trwy sicrhau y bodlonir blociau adeiladu hanfodol ein llinellau Ymholi Allweddol cyn datblygu ymhellach. Rydym eisoes wedi nodi rhestr o gamau gweithredu sy'n dod i'r amlwg, y byddwn yn eu hasesu eto yn ystod y flwyddyn i ddod, gan symud i'r cynllun gweithredu byw os, a phan, y bydd hynny'n briodol.

CYNLLUN GWEITHREDU'R HUNANASESIAD: CYFLEOEDD I WELLA

DISGRIFIAD	AMSERLEN	SWYDDOG ARWEINIOL	CANLYNIADAU
CYFLWYNO CAM 2 O'R RHAGLEN LLESIANT GYDOL OES I DRAWSNEWID GOFAL CYMDEITHASOL YNG NGHEREDIGION			
Monitro ac adolygu cynnydd y Rhaglen Llesiant Gydol Oes er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau a fydd yn cyflawni canlyniadau'r rhaglen ac yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl Ceredigion	Ionawr 2023– Mawrth 2027	Audrey Somerton Edwards (Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol)	• Rheoli'r cynnydd yn y galw a'r pwysau ariannol ar wasanaethau i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy yn y dyfodol • Sicrhau bod pobl yn cael y lefel a'r math cywir o gymorth ar yr amser cywir • Yn hybu iechyd a lles cadarnhaol ac yn cefnogi pobl i gefnogi eu hunain • Cryfhau teuluoedd fel bod plant a phobl ifanc yn aros gyda'u teulu • Galluogi unigolion i fyw'n annibynnol yn eu cymuned eu hunain • Darparu ymagweddau cymesur at ofal a chymorth a reolir • Amddiffyn unigolion ac yn eu cadw'n ddiogel rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod
STATWS: Ar y Gweill Mae'r Rhaglen Llesiant Gydol Oes yn parhau i gael ei gweithredu a'i chyflawni wrth i'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau symud yn ei flaen gydag integreiddio gofal cymdeithasol i mewn i 3 Gwasanaeth – y Porth Cymorth Cynnar, y Porth Gofal a'r Porth Cynnal, sydd, ynghyd â Chyswllt Cwsmeriaid, yn ffurfio'r 4 prif ardal sy'n cwympo o dan y Rhaglen Newid Llesiant Gydol Oes. Wrth i drydedd flwyddyn y Strategaeth Model Llesiant Gydol Oes chwe blynedd ddod i ben (ym mis Hydref 2024), mae'r gwaith cynllunio ar gyfer ail hanner y rhaglen Llesiant Gydol Oes yn canolbwyntio hyd yn oed yn fwy ar gryfhau'r arferion sylfaenol, gan ymateb i a dylanwadu ar gamau gweithredu trwsio o'r dadansoddiad Arolygaeth Gofal Cymru i sicrhau y gellir cyflawni manteision llawn asesiadau cymesur, sgyrsiau am yr hyn sy'n bwysig ac ymyrraeth gynnar yn llawn.			
CYFLAWNI CYNLLUN STRATEGOL RHEOLI ASEDAU SY'N GWEITHREDU FFYRDD NEWYDD O WEITHIO I STAFF CYNGOR SIR CEREDIGION AC YN GWELLA PROFIAD Y CWSMER			
Cyflawni'r Cynllun Strategol Rheoli Asedau newydd i adlewyrchu materion cyfredol, yn enwedig cefnogi ffyrdd newydd o weithio a manteisio ar y cyfleoedd sy'n bodoli ar ôl COVID-19 i sicrhau gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel	Ionawr 2023 - Mawrth 2027	Russell-Hughes Pickering (Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio)	• Yn darparu strategaeth wedi'i diweddaru a hirdymor i reoli asedau ffisegol y Cyngor • Sicrhau defnydd effeithlon ac effeithiol o asedau'r cyngor (cronfeydd, tir, adeiladau, staff a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu) Yn cefnogi ffyrdd newydd o weithio ar ôl COVID-19 gan gynnwys rhesymoli asedau • Darparu strategaeth i ryddhau arbedion effeithlonrwydd a ffrydiau incwm newydd posibl • Sicrhau bod dull y Cyngor o reoli asedau yn addas at y diben a bod gwasanaethau'n gynaliadwy • Cefnogi gwasanaethau mwy cydgysylltiedig ac o ansawdd uchel
STATWS: Ar y Gweill Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Strategol yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd i'w ystyried gan y Pwyllgor Craffu ym mis Gorffennaf 2026, cyn symud ymlaen at y Cabinet a'r Cyngor yn hwyrach yn y flwyddyn. Cafodd y Cynllun Rheoli Asedau Strategol ei wthio'n ôl i 2026 er mwyn galluogi adolygiad mwy sylfaenol o'r Tîm Asedau, ei flaenoriaethau a'i gapasiti. Wedi hynny, mae cynllun gweithredu penodol i'r Tîm Asedau eisoes yn cael ei roi ar waith i fynd i'r afael â meysydd amrywiol o waith, gan gynnwys gwella cynlluniau busnes/gwasanaethau, rhoi strwythur newydd ar waith o fewn y tîm a datblygu capasiti trwy weithgareddau adeiladu tîm. Bydd y Cynllun yn rhoi eglurhad ar raglenni penodol o waith, gan gynnwys rheoli asedau, nodi Rhaglen Datblygu Asedau, a chyflawni Rhaglen Asedau sy'n cefnogi cyflawni'r Strategaeth Gorfforaethol a/neu strategaethau eraill. Yn seiliedig ar gynnydd cyfredol, disgwylir i'r Cynllun fod wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth 2027.			

ALLWEDD:	WEDI CWBLHAU (6)	AR Y GWEILL (4)	GWEITHRED NEWYDD (0)

DISGRIFIAD	AMSERLEN	SWYDDOG ARWEINIOL	CANLYNIADAU
CEFNOGI BUSNESAU LLEOL A'R ECONOMI LLEOL TRWY WEITHREDU'R STRATEGAETH GAFFAEL DIWEDDARAF			
Diweddaru Strategaeth Gaffael y Cyngor i gefnogi busnesau lleol a'r economi leol, ac i sicrhau bod y Cyngor yn darparu gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau ariannol	Ionawr 2023– Ionawr 2027	Duncan Hall (Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael a Swyddog Adran 151)	• Sicrhau bod arferion caffael yn gyfredol ac yn addas at y diben • Helpu i sicrhau gwerth am arian drwy sicrhau bod y Cyngor yn gwario ei adnoddau ariannol yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol • Cefnogi nodi arbedion effeithlonrwydd ac yn dileu gwastraff • Cyflawni arbedion drwy fanteisio ar yr arbedion y gellir eu cyflawni drwy fwy o gapasiti prynu Fframweithiau Lleol, Rhanbarthol a Chenedlaethol • Cynnal safonau moesegol uchel o fuddsoddi a phrynu • Gwneud y mwyaf o'r cyfraniad at ddatblygu cynaliadwy trwy gaffael atebion cynaliadwy • Cefnogi'r gwaith o gyflawni gweledigaeth ac Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor • Cefnogi busnesau lleol, cadwyni cyflenwi a datblygiad yr economi leol
STATWS: Ar y Gweill Mae datblygiad y Strategaeth Gaffael newydd wedi'i wthio nôl oherwydd swm digynsail deddfwriaeth a diwygiad caffael yn dod i'r amlwg ar lefel genedlaethol. Er bod y Strategaeth flaenorol wedi dod i ben yn dechnegol, mae maint a chyflymder y newid rheoleiddiol yn golygu y byddai drafftio dogfen newydd yn peri'r risg iddo ddod yn ddarfodedig bron ar unwaith. Fodd bynnag, mae gwaith sylweddol yn parhau ar draws y Gwasanaeth Caffael, a bydd y Strategaeth yn cael ei ailystyried unwaith y bydd y dirwedd ddeddfwriaethol wedi sefydlogi. Felly, nid yw cynhyrchu Strategaeth Caffael a Chomisiynu ar y Cyd newydd yn dasg hawdd – mae'r Cyngor yn blaenoriaethu'r gwaith "asgwrn cefn" hanfodol sydd ei angen i sicrhau cydymffurfiaeth a pharodrwydd ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd. Mae hyn eisoes wedi cynnwys diweddariad cynhwysfawr o Reolau Gweithdrefn y Cyngor (sydd nawr â mwy o bwyslais ar gefnogi cyflenwyr lleol). Mae'n bwysig nodi bod y Cyngor yn parhau i fod yn ystwyth, gan ymateb i ddatblygiadau wrth iddynt godi, a chymhwyso rheolau caffael yn effeithiol i gefnogi cyflawni gwasanaethau a llywodraethu da.			
CYFLAWNI'R CAMAU GWEITHREDU YN YR YMATEB I'R ASESIAD PERFFORMIAD PANEL			
Cyflawni'r camau gweithredu cytunedig yn Ymateb y Cyngor i'r Asesiad Perfformiad Panel	Mai 2025 - Mawrth 2027	Swyddogion Arweiniol Corfforaethol i gyd	• Mae'n cynyddu'r graddau y mae'r Cyngor yn bodloni gofynion perfformiad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 • Cryfhau cyfathrebu, ymgynghoriadau a dealltwriaeth o safbwyntiau preswylwyr • Mae'n cynyddu capasiti cymdeithasol mewnol ac yn lleihau'r ddibyniaeth ar staff asiantaeth • Mae'n lleihau costau lleoliadau y tu allan i'r sir ar gyfer plant sy'n derbyn gofal • Mae'n nodi ffyrdd mwy arloesol o ddarparu gwasanaethau gyda'r holl bartneriaid • Cryfhau'r swyddogaeth graffu
STATWS: Ar y Gweill Ers y cyhoeddwyd yr Ymateb terfynol i Adroddiad Asesu Perfformiad y Panel, mae gwaith wedi digwydd i gyflawni'r 10 cam gweithredu yn yr Ymateb ac mae cynnydd da wedi'i wneud. Mae'r cynnydd diweddaraf yn dangos bod 7 cam gweithredu wedi'u cwblhau a bod 3 ohonynt ar y gweill ac yn brydlon.			

CYNLLUN GWEITHREDU'R HUNANASESIAD: CYFLEOEDD I WELLA

DISGRIFIAD	AMSERLEN	SWYDDOG ARWEINIOL	CANLYNIADAU
DARPARU DULL SAFONOL AC EFFEITHIOL O YMGYSYLLTU A CHYFRANOGIAD AR DRAWS Y CYNGOR A SICRHAU BOD Y CYNGOR YN YMGYSYLLTU Â PHOBL CEREDIGION YN Y FFORDD ORAU A MWYAF PRIODOL.			
Cyhoeddi'r Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad newydd i wella cyfleoedd ymgysylltu a chyfranogi i ddinasyddion a rhanddeiliaid Ceredigion	Ionawr 2023– Mawrth 2024	Alun Williams (SAC Partneriaethau, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd)	• Yn darparu dull safonol ac effeithiol o ymgysylltu a chyfranogi ar draws y Cyngor • Sicrhau bod y Cyngor yn ymgysylltu â phobl Ceredigion yn y ffordd orau a mwyaf priodol • Cael y wybodaeth ddiweddaraf am arfer gorau ym maes ymgysylltu ac ymgynghori • Mae dinasyddion a rhanddeiliaid yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ac wrth lunio gwasanaethau'r Cyngor • Yn sicrhau bod adnoddau'r Cyngor yn cael eu cyfeirio at feysydd blaenoriaeth, fel yr argyfwng costau byw presennol, fel y nodwyd trwy ymgysylltu ac ymgynghori • Sicrhau bod lleisiau pawb yng Ngheredigion yn cael eu clywed
STATWS: **Wedi Cwblhau yn Mawrth 2024** Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymrwymo i ymgysylltu â'i breswylwyr, ei ddefnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid allweddol eraill. Datblygwyd y Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogi ac fe'i chymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Hydref 2022. Mae'r Strategaeth newydd yn cynnig cyfeiriad corfforaethol ac arweiniad i swyddogion ac aelodau etholedig y Cyngor er mwyn sicrhau bod gweithgarwch ymgysylltu wrth wraidd gwaith y Cyngor, a sicrhau bod gweithgareddau ymgysylltu o safon uchel yn gyson. Cyflwynir adroddiad cynnydd blynyddol am y Strategaeth i'r Cabinet ac fe'i cyhoeddir ar ein gwefan. Cyhoeddwyd y pecyn cymorth Ymgysylltu ar ein gwefan fewnol ym mis Ionawr 2024 hefyd, ac mae ar gael i'r holl staff ei ddefnyddio.			
CYFLWYNO CYNLLUN GWEITHLU ER MWYN SICRHAU BOD GAN Y CYNGOR WEITHLU CYNALIADWY A CHYMHWYSO			
Diweddaru a chyflawni'r Cynllun Gweithlu i fynd i'r afael â materion allweddol gan gynnwys recriwtio, cadw a chynllunio olyniaeth i sicrhau lefelau staffio sefydlog, gweithlu cynaliadwy a bod swyddi gwag yn cael eu llenwi â staff â chymwysterau priodol. Bydd y Cynllun Gweithlu yn cyd-fynd â Strategaeth Gorfforaethol newydd y Cyngor ar gyfer 2022-27.	Ionawr 2023– Mawrth 2027	Geraint Edwards (SAC Pobl a Trefnidiaeth)	• Sicrhau bod swyddi gwag yn cael eu llenwi gan staff sydd â'r cymwysterau a'r profiad priodol i ddarparu profiad cwsmer o ansawdd uchel a lefel gwasanaeth • Sicrhau bod capasiti yn bodoli mewn gwasanaethau i ddarparu gwasanaethau o safon • Sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau dros y tymor hir • Galluogi ni i nodi ac ymateb i anghenion newidiol cwsmeriaid • Gwella recriwtio a chadw gweithwyr • Gwella cynhyrchiant ac ansawdd gwasanaeth
STATWS: **Wedi Cwblhau yn Mawrth 2025** Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithlu wedi'i ddiweddaru yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cabinet ym mis Medi 2023. Mae'r Cynllun newydd yn nodi dull y Cyngor o reoli ei weithlu i ddiwallu ei anghenion darparu gwasanaethau presennol a rhai'r dyfodol, ac yn benodol yn mynd i'r afael â materion allweddol gan gynnwys recriwtio, cadw a chynllunio olyniaeth i sicrhau lefelau staffio sefydlog, gweithlu cynaliadwy a bod swyddi gwag yn cael eu llenwi â staff â chymwysterau priodol. Y pedwar blaenoriaeth thema a nodir yn y cynllun yw: Gwireddu Potensial, Profiad Ymgeiswyr a Denu Talent, Ffyrdd Newydd o Weithio a'n Diwylliant. Bydd y Cynllun newydd yn caniatáu i'r Cyngor ragweld anghenion a gofynion sgiliau'r gweithlu yn y dyfodol er mwyn mynd i'r afael yn rhagweithiol â heriau sy'n dod i'r amlwg a manteisio ar gyfleoedd newydd.			

ALLWEDD:	WEDI CWBLHAU (6)	AR Y GWEILL (4)	GWEITHRED NEWYDD (0)

DISGRIFIAD	AMSERLEN	SWYDDOG ARWEINIOL	CANLYNIADAU
SICRHAU Y MAE GWARIANT CYFALAF YN CAEL EI FWYAF A'I DDEFNYDDIO			
Datblygu system fonitro i alluogi'r Cyngor i wneud defnydd llawn o'i adnoddau cyfalaf a chynyddu cyfran y gwariant cyfalaf ym mhob blwyddyn	Ionawr 2023– Mawrth 2025	Duncan Hall (Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael a Swyddog Adran 151)	• Sicrhau bod Rhaglen Gyfalaf y Cyngor yn cael ei chyflawni a gwariant yn cael ei huchafu • Cefnogi gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ar brosiectau cyfalaf • Cefnogi'r gwaith o gyflawni gweledigaeth ac Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor • Cefnogi lleihau costau hirdymor a chynnydd mewn cynhyrchiant • Ynghyd â'r gyllideb refeniw, mae'n darparu'r adnoddau i gyflawni cynlluniau busnes y gwasanaethau
STATWS: Wedi Cwblhau yn Mawrth 2025 Mae'r Cyngor yn parhau i weithio i sicrhau y gwneir y mwyaf o wariant cyfalaf. Mae defnydd da wedi'i wneud yn y blynyddoedd diwethaf o wariant cyfalaf, gan gynnwys buddsoddi mewn meysydd allweddol megis cyfleusterau plant y sir, sefydlu Canolfannau Llesiant, Cartrefi Gofal Awdurdodau Lleol a threialu Gofal Trwy Dechnoleg. Cymeradwywyd Rhaglen Cyfalaf Aml-flwyddyn ddiwygiedig ar gyfer 2025/26 i 2027/28 gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2025. Adroddodd yr Adroddiad Alldro Cyfalaf ar gyfer 2024/25 bod y gwariant go iawn £29.7m yn uwch na'r lefel a welwyd yn ystod 2023/24 o ganlyniad i ddau gynllun cyfalaf mawr yn ystod y flwyddyn (Ysgol Dyffryn Aeron a chynllun Amddiffyn Arfordirol Aberaeron). Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn cael ei hadrodd i'r Cabinet o hyd, gan nodi manylion y sefyllfa o ran yr alldro a'r rhaglen ddiwygiedig ar gyfer y dair blynedd nesaf.			
DATBLYGU STRATEGAETH DDIGIDOL NEWYDD AR GYFER CEREDIGION			
Datblygu a chyhoeddi Strategaeth Ddigidol newydd i barhau i ddatblygu Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a gwasanaethau digidol ar draws Ceredigion	Medi 2023 - Mawrth 2025	Alan Morris (Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyswllt Cwsmer, TGCh a Digidol)	• Darparu gweledigaeth strategol glir i ddatblygu gwasanaethau digidol • Sicrhau bod gan y cyngor Seilwaith Digidol modern, sefydlog a chadarn • Cefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor a'i Amcanion Llesiant Corfforaethol, megis yr ymgyrch i greu cymunedau sydd â chysylltiadau da drwy wella cysylltedd digidol a gwasanaethau digidol. • Yn cefnogi mynediad digidol haws i wasanaethau'r Cyngor a gwell profiad i gwsmeriaid • Yn cefnogi gwaith y Cyngor i wella cynhwysiant digidol. • Cefnogi cydweithwyr i wneud y defnydd gorau, llawnaf o'r offer a'r technolegau sydd ar gael iddynt, gan ddatblygu lefelau uchel o gydweithio â sgiliau digidol
STATWS: Wedi Cwblhau yn Mawrth 2025 Cyhoeddwyd y Strategaeth Ddigidol newydd ym mis Mawrth 2025 yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'n nodi sut y bydd y Cyngor yn cyflawni'r nod cyffredinol o greu "Ceredigion sy'n Hyderus yn Ddigidol", gan ganolbwyntio ar gyflawni datblygiad digidol cynaliadwy a hirdymor ar draws pob gwasanaeth a chynorthwyo'r strategaeth ddigidol genedlaethol. Mae wedi'i rhannu yn 3 golofn graidd Trefniadaeth Ddigidol, Preswylwyr Digidol a Chymunedau Digidol, gan amlinellu'r amcanion a gyflawnir yn erbyn pob un. Caiff y Strategaeth Ddigidol ei goruchwylio gan Fwrdd Prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio (NWOW), sy'n cynnwys yr "Hyrwyddwr Digidol" o bob maes gwasanaeth. Bydd cadeirydd bwrdd Prosiect NWOW, gyda chymorth rheolwr prosiect, yn goruchwylio darpariaeth y strategaeth, gan sicrhau yr adroddir am gynnydd sy'n sail i gynlluniau darparu gwasanaeth i'r Grŵp Arweiniol a'r Bwrdd Perfformiad Corfforaethol.			

CYNLLUN GWEITHREDU'R HUNANASESIAD: CYFLEOEDD I WELLA

DISGRIFIAD	AMSERLEN	SWYDDOG ARWEINIOL	CANLYNIADAU
CYFLAWNI'R ARGYMHELLION YN AROLYGIAD AGC O'R GWASANAETHAU CYMDEITHASOL			
Gweithredu'r argymhellion a wnaed yn adroddiad arolygu gwerthuso perfformiad AGC i helpu'r Cyngor i gyflawni ei weledigaeth ar gyfer darparu gofal cymdeithasol ledled Ceredigion yn unol â'r model Llesiant Gydol Oes	Mai 2023 - Mawrth 2025	Audrey Somerton Edwards (Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol)	• Sicrhau bod lleisiau pobl yn ganolog i'r gwaith rydym yn ei wneud • Cynyddu'r ddarpariaeth o seibiant i rieni a gofalwyr a chael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau pobl • Sicrhau bod pobl yn cael gwybod pa mor dda y mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu darparu yng Ngheredigion • Blaenoriaethu gweithlu digonol a chynaliadwy sydd â'r gallu a'r gallu i fodloni cyfrifoldebau statudol yn gyson • Sicrhau dull safonol o oruchwylio a goruchwylio arfer Yn sicrhau gweithlu cymwys a hyderus • Darparu fframwaith sicrwydd ansawdd cadarn Sicrhau yr ymatebir yn gyson i gwynion yn unol â'r amserlenni penodedig
STATWS: **Wedi Cwblhau yn Mawrth 2025** Mae'r rhan fwyaf o'r meysydd gwella o Arolygiad Gwerthuso Perfformiad 2023 bellach wedi cael sylw a'u cydnabod fel gwelliannau yn y Gwiriad Gwella AGC mwy diweddar a gynhaliwyd ym mis Mai 2025. Tynnodd y Gwiriad Gwella sylw at y cynnydd cadarnhaol a wnaed mewn Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, yn benodol, ymrwymiad y Cyngor i ofal sy'n canolbwyntio ar y person, arweinyddiaeth gref, a gweledigaeth glir ar gyfer gwelliant parhaus. Canfu'r Tîm Arolygu hefyd fod ffocws strategol clir ar helpu pobl i osgoi bod angen gofal statudol hirdymor a hyrwyddo gwydnwch mewn cymunedau lleol, sef un o brif amcanion y Rhaglen Llesiant Gydol Oes. Ar ben hynny, mae pob cartref gofal preswyl a weithredir gan y Cyngor wedi'i raddio ar hyn o bryd fel 'Da' neu 'Rhagorol', gan adlewyrchu'r safonau uchel o ofal a chymorth a ddarperir ledled y sir. Mae'r materion sy'n weddill wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu wedi'i ddiweddaru a fydd yn mynd trwy'r broses ddemocrataidd yn ystod hydref 2025.			

DISGRIFIAD	AMSERLEN	SWYDDOG ARWEINIOL	CANLYNIADAU
DATBLYGU'R DEFNYDD O AROLYGON BODLONRWYDD CWSMER A MEWNWELEDIADAU MEWN I PROFIADAU CWSMERIAID			
Datblygu'r defnydd o arolygon a mewnwelediadau arall mewn i brofiadau cwsmeriaid	Tachwedd 2023 - Mawrth 2025	Y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol i gyd	• Yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am ganfyddiadau cwsmeriaid o wasanaethau a'r sefydliad yn gyffredinol fel rhan o'i weithgarwch ymgysylltu parhaus • Helpu i nodi meysydd i'w gwella er mwyn helpu i godi lefelau perfformiad neu cyflawni effeithlonrwydd • Cryfhau a datblygu deialog barhaus gyda phobl leol a'u canfyddiadau • Yn darparu gwell dealltwriaeth o anghenion, dymuniadau a blaenoriaethau cwsmeriaid • Helpu i nodi lle mae angen cyfathrebu ychwanegol i gefnogi pobl a / neu hysbysebu gwasanaethau • Yn cynorthwyo dysg y Cyngor i wella profiad cwsmeriaid
STATWS: **Wedi Cwblhau ym Mawrth 2025** Mae dros 6,000 o breswylwyr wedi ymrwymo i FyNghyfrif, gan gynnwys 1,600 sy'n cael y Cylchlythyr sy'n cyd-fynd ag ef ac mae 1,300 wedi ymrwymo i gymryd rhan mewn gwaith ymgysylltu pellach. Mae Arolygon Newydd Fy Nghyfrif wedi cychwyn gyda 635 ymateb wedi derbyn hyd yn hyn a chyfraddiad cyfartalog gwasanaethau o 7.6 allan o 10 ac amrywiaeth o adborth. Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda Data Cymru i ddatblygu'r Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol newydd er mwyn cynnig arolwg dinasyddion cadarn a chymharol yn y dyfodol. Cynhaliwyd y cyntaf o'r arolygon hyn yng Ngheredigion rhwng mis Awst a mis Hydref 2024, a sicrhawyd 1,961 o ymatebion, ac adroddwyd am y rhain i'r pwyllgor Craffu ym mis Ionawr 2025. Sefydlwyd y Bwrdd Dirnadaeth newydd ym mis Medi 2024 hefyd, ac mae'n parhau i ddatblygu'n dda, gan ystyried amrediad o wahanol ymgynghoriadau ac ymgysylltiadau, ynghyd ag amrywiaeth o ddata arall er mwyn manteisio i'r eithaf ar ddirnadaeth a meithrin dealltwriaeth well o safbwyntiau pobl leol er mwyn siapio gwasanaethau yn y dyfodol.			

BETH YW HUNANASESIAD?

Cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 broses newydd ar gyfer monitro perfformiad pob awdurdod lleol, yn seiliedig ar hunanasesiad.

Mae'r gyfundrefn berfformiad newydd yn diffinio prif gynghorau fel 'sefydliadau hunan wella' drwy system sy'n seiliedig ar hunanasesu ac asesiad perfformiad panel. Bwriad y dull newydd yw adeiladu ar, a chefnogi, diwylliant lle mae cynghorau'n herio'r sefyllfa bresennol yn barhaus ac yn gofyn cwestiynau am sut y maent yn gweithredu a sut y gallent ddysgu o arfer gorau. Bydd hunanasesiad tryloyw ac agored o gyngor yn rhan sylfaenol o'r dull hwn.

Mae hunanasesu effeithiol yn rhoi sicrwydd dibynadwy yn fewnol ac yn allanol i rheoleiddwyr ac arolygiaethau ac yn bennaf oll mae'n helpu cynghorau i ddysgu'n barhaus a chyflawni gwelliant cynaliadwy a chanlyniadau gwell i ddinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gweithlu eu hunain.

Mae pum dyletswydd benodol wedi'u cyflwyno gan y Ddeddf:

1. **Dyletswydd i barhau i adolygu perfformiad**
   Mae gan Gyngor Sir Ceredigion ddyletswydd i adolygu i ba raddau y mae'n cyflawni ei 'gofynion perfformiad' drwy bennu i ba raddau y mae:
   - Arfer ei swyddogaethau yn effeithiol
   - Defnyddio ei adnoddau yn economaidd, effeithlon ac effeithiol
   - Sicrhau bod ei lywodraethu yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod
2. **Dyletswydd i ymgynghori ar berfformiad**
   Rhaid i gynghorau ymgynghori ag amrywiaeth o bobl o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn ariannol ynghylch i ba raddau y maent yn bodloni eu gofynion perfformiad. Yr ymgyngoreion statudol yw:
   - Pobl leol
   - Pobl eraill sy'n cynnal busnes yn y Sir
   - Staff y Cyngor
   - Pob Undeb Llafur a gydnabyddir gan y Cyngor
3. **Dyletswydd i adrodd ar berfformiad**
   Rhaid i'r Cyngor gynhyrchu adroddiad hunanasesu bob blwyddyn ariannol. Rhaid i'r adroddiad nodi ei gasgliadau ynghylch i ba raddau yr oedd yn bodloni'r gofynion perfformiad, ac unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd, neu y mae eisoes wedi'u cymryd i wella ymhellach.
4. **Dyletswydd i drefnu panel asesu perfformiad**
   O leiaf unwaith ym mhob cyfnod etholiad, rhaid i'r Cyngor drefnu i banel annibynnol gynnal asesiad o'r graddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad ac adrodd ar ei ganlyniadau. Cynhaliodd y Cyngor ei Asesiad Perfformiad Panel cyntaf ym mis Hydref 2024 ac mae'r canlyniadau i'w gweld ar dudalen 9.
5. **Dyletswydd i ymateb i panel asesu perfformiad**
   Rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i Adroddiad y Panel Asesu yn nodi
   - I ba raddau y mae'n derbyn y casgliadau yn yr adroddiad
   - Sut mae'n bwriadu dilyn unrhyw argymhellion
   - Unrhyw gamau pellach y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd i wella perfformiad

Diben y darpariaethau perfformiad a llywodraethu yn y Ddeddf yw adeiladu a chefnogi ar ddiwylliant sy'n datblygu, lle mae cynghorau'n mynd ati i geisio a chroesawu her, boed yn cael ei chyflwyno gan y cyngor, er enghraifft drwy weithdrefnau craffu, neu'n allanol. Mae'r darpariaethau wedi'u cynllunio i ddatblygu fframwaith sy'n cefnogi cynghorau, trwy broses adolygu barhaus, i feddwl am eu perfformiad a'u heffeithiolrwydd nawr ac ar gyfer y dyfodol; i annog sefydliadau mwy chwilfrydig sy'n barod i herio eu hunain i wneud mwy; a bod yn fwy arloesol a mwy uchelgeisiol yn yr hyn a wnânt.

Ymarfer Myfyriol

Ar gyfer Ceredigion, mae egwyddorion hunanasesu eisoes yn rhan annatod o'i threfniadau llywodraethu strategol a chorfforaethol parhaus.

Rydym yn cydnabod y cyfle ar gyfer hunan fyfyrio a her adeiladol. Er enghraifft, mae'r math hwn o arfer myfyriol eisoes yn rhan annatod o Ddatganiad Cynllunio Busnes a Llywodraethu Blynyddol y Cyngor, ac eisoes wedi'i hen sefydlu yn y Cyngor. Mae arfer myfyriol yn elfen graidd o broses rheoli perfformiad cyffredinol y Cyngor, ac yn canolbwyntio ar werthuso *sut rydym yn gwneud pethau* ac nid dim ond *yr hyn a wnawn.*

Rydym wedi mabwysiadu dull tebyg gyda Hunanasesu – mae arfer myfyriol yn rhan allweddol o'n Gweithdai Hunanasesu lle rydym yn myfyrio ar sut rydym yn gweithredu ar hyn o bryd, yr heriau a wynebwn yn y dyfodol a sut rydym yn ymgorffori cynaliadwyedd yn ein gweithgareddau wrth symud ymlaen.

Daeth Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) i rym yn 2021

Y Pum Dyletswydd ar y Prif Gynghorau yw:

CADW PERFFORMIAD O DAN ADOLYGIAD

YMGYNGHORI AR BERFFORMIAD

ADRODD AR BERFFORMIAD

TREFNU ASESIAD PANEL PERFFORMIAD

YMATEB I ASESIAD Y PANEL PERFFORMIAD

SUT YR YDYM YN CYNNAL HUNANASESIAD

Ein Dull o Hunanasesu

Mae ein dull at Hunanasesu yn seiliedig ar asesu ein hunain yn erbyn cyfres o Lwybrau Ymholi Allweddol. Mae “KLOEs” fel y cyfeirir atynt weithiau, yn gyfres o gwestiynau allweddol perthnasol yr ydym yn eu gofyn i ni ein hunain wrth i ni weithio drwy'r Hunanasesiad.

Mae’r dull Llinellau Ymholi Allweddol yn ddull profedig o gynnal hunanasesiadau mewn Llywodraeth Leol ac ar draws y sector cyhoeddus ehangach. Mae'n sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar y farn gorfforaethol neu 'gyfannol' o berfformiad y Cyngor fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf. Mae hefyd yn darparu'r eglurder hunanwerthuso sydd ei angen i'n helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer gwella, ac wrth wneud hynny, mae'n darparu llwybr archwilio cryf i esbonio'r camau gweithredu yr ydym wedi'u cymryd wrth ymateb.

Cofnodir y canfyddiadau yn ein dogfen Matrics Hunanasesu. Mae’r Matrics yn cofnodi’r dystiolaeth sy’n dangos sut yr ydym yn perfformio ar hyn o bryd, ein huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol a’r camau y mae angen inni eu cymryd er mwyn cyflawni’r uchelgeisiau hynny. Defnyddir y ddogfen hon i nodi'r cyfleoedd sy'n bodoli ar gyfer gwelliant ac fe'i defnyddir i ddatblygu ein Cynllun Gweithredu Hunanasesu.

Cylchred Barhaus

Mae hunanasesu yn broses barhaus o welliant - yn ystod y flwyddyn rydym yn cynnal ymgynghoriad i gefnogi hunanasesiad, rydym yn coladu tystiolaeth i lywio ein gweithdai, rydym yn cyflawni'r camau gweithredu yn ein cynllun gweithredu Hunanasesiad ac rydym yn monitro eu cynnydd tuag at ei gwblhau. Yr Adroddiad Hunanasesu yw'r allbwn allweddol o'r broses ond mae'r gwaith ar wella canlyniadau yn weithgaredd parhaus drwy gydol y flwyddyn.

Mae’r diagram isod yn crynhoi’r prif gamau a’r graddfeydd amser sydd ynghlwm wrth gynnal yr Hunanasesiad a chynhyrchu’r Adroddiad Hunanasesu.

Gwerthuso, Myfyrio ac Adnabod Cyfleoedd

Yn ystod mis Ebrill bob blwyddyn rydym yn dod ag amrywiaeth eang o dystiolaeth ynghyd i'n helpu i asesu ein perfformiad presennol. Mae hyn yn cynnwys monitro perfformiad mewnol, megis dangosfyrdd perfformiad ac adroddiadau cwynion, adroddiadau rheolyddion o arolygiadau a chanlyniadau gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu.

Rydym yn cynnal ymarfer o adolygu'r dystiolaeth i nodi canfyddiadau allweddol - lle mae perfformiad wedi gwella, lle mae cyfleoedd i wella a beth yw'r themâu allweddol o'n hymgynghoriad.

Cyflwynir canfyddiadau’r ymarfer hwn i Weithdai Hunanasesu gyda Grŵp Arweiniol y Cyngor a Phwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu i helpu i asesu ein perfformiad.

Yn y gweithdai rydym yn ailasesu ein hunain yn erbyn y Prif Linellau Ymholi, gan ddiweddaru ein tystiolaeth ar gyfer pob cwestiwn a defnyddio hyn i nodi camau gweithredu ar gyfer gwella. Maent yn adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael iddynt ac yn ychwanegu eu persbectif eu hunain i ddarparu sgorau wedi'u diweddaru ar gyfer pob cwestiwn.

Mae'r gweithdai canfyddiadau'n cael eu coladu gan y Tîm Perfformiad ac Ymchwil. Maent yn cynhyrchu'r Adroddiad Hunanasesu drafft trwy dynnu ar y matrics tystiolaeth, y sgorau a'r camau gwella a nodwyd yn y gweithdy, ynghyd â ffynonellau allweddol eraill megis strategaethau allweddol ac adroddiadau arolygu.

Mae rhan o’r coladu’n cynnwys croeswirio’r sgôr gyda’r dystiolaeth a ddarparwyd a cheisio eglurder ar ein casgliadau lle bo angen. Mae bylchau mewn tystiolaeth a dealltwriaeth o’n perfformiad hefyd yn cael eu hamlygu, sydd i gyd wedi’u cynllunio i sicrhau bod y broses yn gadarn.

Drwy ganolbwyntio ar hyn, gallwn ddysgu o’n profiadau a manteisio ar yr arloesedd a’r creadigrwydd sy’n bodoli yn y Cyngor i nodi cyfleoedd i wella ein perfformiad, boed hynny drwy godi lefelau perfformiad, nodi effeithlonrwydd neu wella boddhad cwsmeriaid.

Mae Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio’r Cyngor yn chwarae rhan allweddol yn y proses Hunan Asesu. Maent yn gyfrifol am adolygu'r Adroddiad Hunanasesu drafft a gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r casgliadau y daethpwyd iddynt neu'r camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd. Caiff yr Adroddiad drafft ei adolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi.

Caiff yr Adroddiad Hunanasesu ei ddiweddaru yn dilyn argymhellion y Pwyllgor a chyflwynir yr adroddiad terfynol i’r Cabinet i’w gymeradwyo ym mis Tachwedd. Ar ôl ei gymeradwyo, caiff yr Adroddiad ei gyhoeddi a'i gyflwyno i'r derbynwyr statudol, gan gynnwys copi terfynol a gyflwynir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Y camau a’r amserlen i gwblhau Adroddiad Hunanasesu Ceredigion

Mawrth/Ebrill	Ebrill/Mai	Mai i Gorffennaf	Gorffennaf i Awst	Medi	Hydref	Tachwedd
Cynnal Adolygiad Bwrdd Gwaith o Dystiolaeth	Cynnal gweithdai gyda Chynghorwyr a Swyddogion	Coladu Tystiolaeth a chynhyrchu Adroddiad Hunanasesu Drafft	Grŵp Arweiniol a Chabinet yn Adolygu Drafft yr Adroddiad Hunanasesu ac yn gwneud argymhellion	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn Adolygu Drafft yr Adroddiad Hunanasesu ac yn gwneud argymhellion	Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu yn Adolygu Drafft Adroddiad Hunanasesu	Adroddiad Hunanasesu Terfynol yn cael ei gymeradwyo gan y Cabinet a'i gyhoeddi

HUNANASESIAD YN EIN FFRAMWAITH RHEOLI PERFFORMIAD


Integreiddio i Fframwaith Perfformiad y Cyngor

Nid yw hunanasesu yn broses annibynnol, yn hytrach mae wedi'i hintegreiddio fel rhan o drefniadau cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad parhaus y Cyngor. Mae'r diagram isod yn dangos sut mae hunanasesu yn cyd-fynd â'n fframwaith perfformiad cyffredinol.

Mae'n hanfodol i lywio Cynllunio Busnes a Rheoli Risg, ac yn ei dro mae'n tynnu ar ganlyniadau monitro cynlluniau busnes a'r gofrestr risg gorfforaethol i werthuso ein perfformiad presennol a chwblhau'r hunanasesiad. Yn ei hanfod, mae'n gyfathrebu dwy ffordd rhwng pob piler o'r Fframwaith Perfformiad.

Mae amseriad Hunanasesiad hefyd yn bwysig. Mae wedi'i amseru i lywio a dylanwadu'n dryloyw ar brosesau cynllunio strategol, rheolaeth ariannol a chyllideb y Cyngor, adolygiadau rheoli risg, cynllunio gwelliant a rheoli perfformiad parhaus. Er enghraifft, mae cyhoeddi'r Adroddiad Hunanasesu ym mis Tachwedd yn sicrhau ei fod yn cael ei baratoi mewn pryd i lywio'r broses cynllunio busnes a gosod targedau blynyddol yn chwarter olaf pob blwyddyn rhwng Ionawr a Mawrth.

Hunanasesiad yn y Fframwaith Perfformiad Ehangach



Mae gan Geredigion hanes hir o ddefnyddio hunanasesu yn effeithiol i ganfod ffyrdd arloesol o ddarparu gwasanaethau, yn fwyaf diweddar yn y 'Rhaglen Gydol Oed a Llesiant' sy'n cael ei rhoi ar waith i drawsnewid darpariaeth gofal cymdeithasol yn y Sir dros y pum mlynedd nesaf.


Mae hefyd yn rhan annatod o berfformiad gweithredol a chaiff ei ddefnyddio wrth osod cynlluniau busnes blynyddol ar gyfer pob gwasanaeth. Rydym i gyd yn cydnabod bod capasiti yn brin a bod galw mawr, ac o ganlyniad ni fu cynllunio busnes effeithiol erioed mor bwysig i sicrhau ein bod yn darparu'r 'gwasanaethau cywir yn y ffordd gywir'. Mae cael y cyfle i 'fyfyrio' ar berfformiad y gorffennol a'r presennol yn hanfodol i ddeall ein cryfderau, ein gwendidau a'n cyfleoedd. Mae'r math hwn o ymarfer myfyriol yn hollbwysig i'n helpu i bennu ein gweithredoedd a'n blaenoriaethau ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Y Llinyn Aur

Mae'r Cyngor yn defnyddio diagram 'Llinyn Aur' (a ddangosir ar y dde) i ddangos y cysylltiadau rhwng ei strategaethau a'i gynlluniau allweddol. Mae'n disgrifio'r llif gwybodaeth o flaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer gwella a gynhwysir yn y Cynllun Llesiant Lleol a'r Strategaeth Gorfforaethol, drwodd i wasanaethau unigol, timau ac aelodau o staff y Cyngor sy'n gyfrifol am eu cyflawni.

Mae Llinyn Aur cryf yn bwysig gan ei fod yn dangos sut mae pob lefel o gynllunio a gweithredu yn cyfrannu at y lefel nesaf, a sut mae pob rôl o fewn y Cyngor yn cyfrannu at gyflawni Amcanion Llesiant Corfforaethol Ceredigion.

Mae lle allweddol i hunanasesu yn y Llinyn Aur fel y ffordd yr ydym yn mesur llwyddiant ac yn ysgogi gwelliannau perfformiad, ynghyd â Chynllunio Busnes a rheolaeth a risg.



RHEOLI EIN PERFFORMIAD

Ein Siwrne Perfformiad

Yn syml, mae rheoli perfformiad yn cymryd camau mewn ymateb i berfformiad gwirioneddol a pherfformiad a ragwelir i wneud canlyniadau i bobl Ceredigion yn well nag y byddent fel arall.

Dros y pedwar blynedd diwethaf, mae dull Ceredigion o reoli perfformiad wedi'i adfywio a'i ddiweddaru. Ers hynny, gwnaed cynnydd da yn adeiladu diwylliant cryf o reoli perfformiad ar draws y sefydliad, ac yn paratoi ar gyfer y drefn newydd o Hunanasesu perfformiad a gyflwynwyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y broses cynllunio busnes newydd, ail-lansiad y Bwrdd Perfformiad, a'r adborth positif i ddulliau'r Cyngor o hunanasesu.

Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn pwysleisio pwysigrwydd ymgorffori diwylliant rheoli perfformiad cryf, a sicrhau hyn yw prif egwyddor siwrne perfformiad barhaus y Cyngor.

Mae'r hyn a ddysgwyd yn ystod pandemig COVID-19 wedi creu'r cyfle i gyflwyno newidiadau a gwelliannau cynaliadwy drwy ffyrdd newydd o weithio, a buddsoddi mewn technolegau newydd i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da, a hynny mewn ffordd effeithlon sy'n ystyriol o'r amgylchedd.

Mae gan y Cyngor enw da am arloesi a dros y pum mlynedd nesaf mi fydd yn parhau i ddatblygu'r dull arloesol hwn ac yn symud tuag at ffyrdd mwy hyblyg a doeth o weithio. Bydd rheoli perfformiad yn chwarae rôl allweddol yn y trawsnewid hwn.

Pwy sydd yn gyfrifol am Rheoli Perfformiad?

Mae pawb yn gyfrifol am reoli perfformiad – mae gan bawb rôl i'w chwarae o ran cyflawni amcanion y cynllun busnes, y tasgau a'r mesurau sy'n cynorthwyo i gyflawni'r Amcanion Llesiant Corfforaethol a gweledigaeth gyffredinol y Cyngor. Mae Tabl 1 yn dangos pwy sy'n gyfrifol am beth.

Fframwaith Rheoli Perfformiad

I sicrhau ein bod yn cyflawni hyn, mae gennym Fframwaith Rheoli Perfformiad yn ei le sy'n caniatáu inni adolygu ac olrhain cynnydd yn rheolaidd, gwirio sut rydym yn perfformio, a sicrhau ein bod yn cyflawni'r Amcanion Llesiant Corfforaethol ac yn gwella canlyniadau i bobl a chymunedau Ceredigion.

Mae'r fframwaith rheoli perfformiad yn gweithredu ochr yn ochr â strwythur cyffredinol y Strategaeth Gorfforaethol, Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, Amcanion Llesiant Corfforaethol, Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a Rheoli Rhaglenni/Prosiectau.

Mae'n rhan o broses cynllunio corfforaethol y Cyngor ac yn sicrhau dealltwriaeth gyson o egwyddorion rheoli perfformiad, a sut y cânt eu gweithredu yng Ngheredigion.


Y Cylchred Gwelliant Parhaus

Mae ein dull o reoli perfformiad yn seiliedig ar gylchred gwelliant parhaus, sy'n dilyn y cylchred Cynllunio-Gwneud-Adolygu a gydnabyddir gan y diwydiant, ac a ddangosir yn y diagram isod. Mae'r cylchred hwn yn seiliedig ar y camau canlynol:

- **Cynllunio** ein gweithgareddau i gyflawni'n gweledigaeth a'n Hamcanion Llesiant Corfforaethol
- **Gwneud** neu gyflawni'r gweithgareddau
- **Adolygu** ein cynnydd yn rheolaidd i asesu a ydyn ni'n cyflawni'n hamcanion
- **Adlewyrchu** ar y ffordd rydym yn cyflawni'n gweithgareddau i nodi cyfleoedd i wella, neu i fod yn fwy effeithlon, neu'r ddau.

Mae Rheoli Perfformiad yn flaenoriaeth uchel yng Ngheredigion. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wella'n barhaus, ac mae'n gofyn barn y trigolion ac yn hunanwerthuso'n rheolaidd i nodi cyfleoedd i wella.

Y Cylchred Gwelliant Parhaus yng Ngheredigion



- Cynllunio
- Gwneud
- Adolygu
- Adlewyrchu

ASESIAD SY'N SEILIEDIG AR DYSTIOLAETH

Mae Ceredigion yn ymdrechu i fod yn sefydliad a yrrir gan dystiolaeth a data. Defnyddiwyd amrywiaeth eang o dystiolaeth wrth asesu ein perfformiad ac wrth gynhyrchu'r adroddiad hwn.

Rhennir y ffynonellau hyn yn dri chategori sy'n ein helpu i wirio bod ein casgliadau'n gywir a darparu darlun cywir o'n perfformiad presennol.

Y tri chategori yw'r **dystiolaeth fewnol** sydd ar gael i ni trwy strategaethau allweddol a monitro mewnol, megis y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol a monitro Cwynion. Mae hyn yn rhoi golwg fewnol i ni o sut mae'r sefydliad yn perfformio.


Rydym hefyd yn defnyddio'r **dystiolaeth reoleiddiol ac allanol helaeth** sy'n bodoli. Mae'r rhain yn cynnwys adroddiadau arolygu gan Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru a'r gwaith parhaus a wneir gan Archwilio Cymru. Mae hefyd yn cynnwys yr Asesiad Perfformiad Panel a gynhaliwyd gan banel adolygu annibynnol yn 2024. Mae hyn yn rhoi golwg reoleiddiol neu allanol i ni o sut rydym yn perfformio gan gyrff annibynnol.

Y trydydd categori o dystiolaeth ydy'r **ymgynghori a'r ymgysylltu** a gynhelir yn barhaus.. Mae hwn yn cofnodi barn yr holl rhanddeiliaid yng Ngheredigion, gan gynnwys dinasyddion, busnesau, staff y cyngor ac Undebau Llafur, gan gynnig safbwynt y rhai sy'n derbyn gwasanaethau gan y Cyngor.

Mae gan y Cyngor broses ymgysylltu ac ymgynghori barhaus ar waith drwy gydol y flwyddyn a ddefnyddir i gofnodi barn trigolion ar amrywiaeth o swyddogaethau'r Cyngor (gweler tudalennau 29-34).

Mae'r tri chategori tystiolaeth hyn yn ein helpu i 'driongli' neu wirio mai'r casgliadau y byddwn yn dod iddynt yw'r rhai cywir drwy ganiatáu inni gymharu'r canfyddiadau allweddol o bob un a sicrhau eu bod yn cyd-fynd cyn cynhyrchu'r Adroddiad Hunanasesu. Dangosir y berthynas hon yn y diagram gyferbyn, lle mae'r dystiolaeth yn bwydo'n gyfartal i'r dadansoddiad bwrdd gwaith ac yn y pen draw yr adroddiad hunanasesu.

Mathau o dystiolaeth a defnyddiwyd wrth gynnal Hunanasesiad



CATEGORÏAU TYSTIOLAETH

Ansawdd Data

Mae pob cam o'r broses hunanasesu a'r broses rheoli perfformiad ehangach yn dibynnu ar dystiolaeth a data i alluogi'r Cyngor i farnu beth yw anghenion Ceredigion, beth yw anghenion ei pobl leol, beth mae wedi'i gyflawni, a sut mae'n cymharu. Mae'n hanfodol felly bod yr holl wybodaeth hon yn seiliedig ar ddata o ansawdd uchel, dibynadwy ac amserol er mwyn sicrhau bod y dyfarniadau sy'n seiliedig arno yn gadarn.

Mae Strategaeth Ddigidol y Cyngor yn cefnogi hyn trwy weithredu fframwaith i reoli a monitro ansawdd data, gan gynnwys trwy gyfrwng dangosyddion ansawdd data ar gyfer systemau craidd, gan gadw cofnodion prosesu data ac uwchsgilio ar gyfer pob maes busnes allweddol.

Mae ein fframwaith perfformiad hefyd yn cefnogi hyn drwy helpu i sicrhau y darperir data cyflawn, cywir ac amserol a ddefnyddir mewn monitro mewnol ac a gyhoeddir yn allanol i gyfleu cynnydd y Cyngor wrth gyflawni ei weledigaeth a'i Amcanion Llesiant Corfforaethol i'r cyhoedd a rhanddeiliaid.

Mae'r tabl gyferbyn yn rhoi rhestr o'r mathau o ffynonellau a data sy'n cael eu hystyried yn hunanasesiad Ceredigion, ac wedi'u rhannu yn ôl math o gategori. ▶

Ffynonellau a defnyddiwyd wrth gynnal yr Hunanasesiad ac Adolygiad o'r Amcanion Llesiant

TYSTIOLAETH MEWNOL

- Strategaeth Corfforaethol
- Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
- Datganiad o Gyfrifon
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Adborth ac Adroddiadau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
- Adborth ac Adroddiadau Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Gofal
- Dangosfyrdd Perfformiad Chwarterol
- Monitro Cynllunio Busnes
- Dangos fwrdd y Strategaeth Gorfforaethol
- Dangos fwrdd yr Hunanasesiad
- Cofrestr Risg Corfforaethol
- Adroddiadau Archwilio Mewnol
- Adroddiadau Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion
- Canlyniadau Mesur Perfformiad
- Adroddiadau Hunanasesu Blaenorol
- Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru
- Treth Cyngor / Cyfraddau Casglu
- Archwiliad Sgiliau Digidol 2022
- Adolygiad o Trefniant Gweithio Hybrid
- Data Gwasanaethau

TYSTIOLAETH RHEOLEIDDIO & ALLANOL

- Adroddiad Gwella Blynyddol Archwilio Cymru
- Adroddiad Perfformiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal Cymru
- Adroddiadau Arolygu Archwilio Cymru
- Adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru
- Adroddiadau arolygiad Estyn
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Panel Asesu Perfformiad
- Adroddiadau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Adroddiadau Blynyddol Comisiynydd Plant, Pobl Hŷn a'r Gymraeg
- Asiantaeth Safonau Bwyd, y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio ac adroddiadau rheoleiddio eraill
- Adroddiadau Blynyddol BGC Ceredigion
- Asesiad o Lesiant Lleol BGC Ceredigion
- Asesiad Poblogaeth Gorllewin Cymru
- Data Cymru
- Ystadegau Cymru

YMGYNGHORIAD & YMGYSYLLTU

- Adroddiadau Adborth Ymgynghori
  - Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru
  - Adolygiad o Safleoedd Gwastraff Cartref
  - Datganiad o Bolisi Trwyddedu
  - Polisi Dronau Ceredigion
  - Polisi Gorfodi Corfforaethol

Ymarferion Ymgysylltu gan gynnwys:

  - Llunio Dyfodol ein Heconomi Leol
  - Creu Lle Ceredigion (Cynlluniau Lle Pentrefi)
  - Strategaeth Diwylliant
  - Cyfarfodydd Blynyddol gyda Chynghorau Tref a Chymuned
  - Ceredigion Oed Gyfeillgar
  - Ymrwymiad Cyllid
  - Strategaeth y Gwasanaeth Ieuenctid
  - Teithio Llesol Pont Plascrug, Aberystwyth
  - Rhwydwaith Teithio Llesol Ceredigion
- Ymgysylltu gyda grwpiau rhanddeiliaid gan gynnwys y Fforwm Anabledd, y Fforwm Pobl Hŷn
- Cyfarfodydd Misol Undebau Llafur
- Arolygon Pobl (staff)

DYSGU O YMGYNGHORIAD AC YMGYSYLLTU

Mae ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn thema graidd drwy gydol ein proses hunanasesu.

Mae'n rhan annatod o'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd yn ein rheolaeth perfformiad a bydd yn parhau i chwarae rhan fwy byth wrth i ni archwilio cyfleoedd i wella gydag amrywiaeth o unigolion a grwpiau ar draws y Sir.

Mae ymgynghori ac ymgysylltu yn ein cynorthwyo i wella ein gwasanaethau. Mae'n rhoi gwybod i bobl beth mae'r Cyngor yn ei wneud a sut ydym yn gosod ein blaenoriaethau a'n polisïau. Mae'n ein cynorthwyo i egluro pa wasanaethau yr ydym yn medru ac yn methu eu cynnig.

Mae ein Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi, a gymeradwywyd ym mis Hydref 2022, yn nodi sut y byddwn yn siarad ac yn gwrando gyda phawb sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio yng Ngheredigion, gan gynnwys pobl nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml.

Adolygwyd y Polisi yn ystod 2025 ac fe gyhoeddwyd fersiwn ddiwygiedig ym mis Mawrth 2026. Helpodd ein hymgyrch ymgysylltu yn ystod haf 2025 inni ddeall yr hyn rydyn ni'n ei wneud yn dda ac i nodi meysydd lle mae angen gwneud gwaith pellach. Bydd cynllun gweithredu wedi'i ddiweddaru'n cael ei gyflawni dros y tair blynedd nesaf i gyflawni'r deilliannau canlynol:

- Cynyddu Tryloywder ac Adborth
- Gwella Cyfathrebu a Hyrwyddo
- Gwella Hygyrchedd a Chynhwysiant
- Symleiddio Deunyddiau Ymgysylltu
- Cefnogi Ymgysylltiad Cynghorwyr

Mae ein dyletswydd gyfreithiol i ymgynghori wedi'i nodi mewn gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth, gan gynnwys:

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** - rhaid i'r Cyngor gynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau Llesiant Cenedlaethol.
- **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021** - Rhaid i'r Cyngor annog cyfranogiad y cyhoedd yn ein gwaith o wneud penderfyniadau, gan ymgynghori â phobl leol am y graddau y mae'r cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd effeithiol.
- **Mesur y Gymraeg 2011** - rhaid i'r Cyngor ofyn i'r cyhoedd am eu barn ar yr effaith y bydd ein penderfyniadau yn ei chael ar y Gymraeg.
- **Deddf Cydraddoldeb 2010** - rhaid i'r Cyngor gynnwys ac ymgysylltu â phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.
- **Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1996** - rhaid i'r Cyngor ymgynghori â sefydliadau a bennir yn y Rheoliadau a rhaid iddynt hysbysu pobl sy'n debygol o gael eu heffeithio gan orchymyn traffig.
- **Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013** - rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion sy'n amlinellu'r egwyddorion y dylid eu hystyried wrth gynnig gwneud newidiadau i ddarpariaeth ysgolion.

Lle mae angen mwy o adborth gan grwpiau penodol, rydym yn addasu ein dull yn ystod y flwyddyn i dargedu'r ardaloedd hynny a sicrhau bod holl gymunedau Ceredigion yn cymryd rhan. Rydym yn ymgysylltu â'r llu o grwpiau a sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau penodol yn y sir, ac yn arbennig i sicrhau bod lleisiau'r rhai na chlywir yn aml yn cael eu clywed yn wir.

Nid yw hyn i ymwneud â'n dyletswydd gyfreithiol yn unig, fodd bynnag. Mae ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd yn darparu ni efo gwybodaeth gwell i'n helpu i wneud penderfyniadau. Gall hyn arwain at ganlyniadau gwell i'n trigolion.

Rydym yn cymryd dull 'ymgysylltu parhaol' i ddarparu ein gwasanaethau. Cyflawnwyd hyn trwy drafodaethau parhaol rhwng y Cyngor a chymunedau lleol. Er enghraifft, Cyngor Ieuenctid Ceredigion, Fforwm Anabledd, Partneriaeth Natur Leol a 'r Fforwm Gofalwyr.

Mae'n rhoi dechrau da wrth ddatblygu gwasanaethau a strategaethau newydd oherwydd bod ni wedi siarad yn rheolaidd gyda phobl sydd â phrofiad byw o'r pwnc.


Weithiau, ymarfer ymgysylltu neu ymgynghori wedi'i dargedu yw'r dull gorau. Mewn achosion eraill, mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i ddilyn proses benodol i hysbysu'r cyhoedd a rhoi cyfle i gael adborth. Nid oes 'un ateb i bawb' ar gyfer ymgysylltu. Ein nod yw defnyddio'r math gorau o ymgysylltu ar gyfer y sefyllfa gywir.

Mae llawer yn cael ei wneud i ymgysylltu â thrigolion a rhanddeiliaid. Fel arfer, cyflwynir adborth ar ein hymgyrchoedd ymgysylltu ac ymgynghori i gyfarfodydd y Cabinet.

Mae sesiynau trafod, gweithdai thematig, cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid allweddol a sesiynau galw heibio wyneb yn wyneb hefyd yn cael eu cynnig, yn enwedig lle ceisir adborth gan garfan benodol.

Ymarferion Ymgysylltu ac Ymgynghori Cyhoeddus yn 2025/26

Roedd 20 ymgyrch ymgysylltu ac ymgynghori yn ystod 2025/26, gyda 12 ohonynt yn ymgyrchoedd ymgysylltu penodol a 8 ohonynt yn ymarferion ymgynghori.



Yn ystod 2025/26, rydym wedi cael budd gan rai digwyddiadau ymgysylltu pwysig sy'n cynnig dirnadaeth unigryw o safbwyntiau dinasyddion a rhanddeiliaid. Roedd y rhain yn cynnwys ymgysylltu i helpu hysbysu Strategaeth Ddiwylliant newydd y Cyngor, sut ddylai'r Cyngor wario ei gyllideb yn 2026/27 a chyfres o sesiynau galw heibio ledled y Sir i gasglu barn busnesau a thrigolion lleol i helpu llunio dyfodol yr economi leol a'r Strategaeth Economaidd wedi'i hadnewyddu ar gyfer Ceredigion.

Mae canlyniadau'r ymgyrchoedd yn cael ei defnyddio i cyfarwyddo penderfyniadau gan Aelodau Etholedig. Yn 2025-26 gwnaeth y Cabinet a'r Cyngor tri penderfyniad a arweiniodd at newidiadau i gwasanaethau, polisi neu strategaeth a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar y cyhoedd.

Mae swyddogion y Cyngor yn paratoi adroddiad i aelodau etholedig i helpu cyfarwyddo penderfyniadau. Roedd pob un o'r adroddiadau a oedd angen y math yma o benderfyniad yn cynnwys crynodeb o'r ymgynghoriad i helpu datblygu'r newid arfaethedig.

Cyhoeddir ein holl ymgynghoriadau cyhoeddus ar ein gwefan Ymgysylltu ac Ymgynghoriadau. Yn ddiweddar, rydym wedi gwella'r dudalen hon i wahaniaethu rhwng Ymgynghoriadau Agored a'r rhai sydd wedi Cau, gan ddiweddaru manylion yr ymgyrch wreiddiol gyda gwybodaeth am y penderfyniad terfynol fel y gall pobl weld y stori gyfan.


Mae nifer yr ymatebion a gawsom yn amrywio ac yn dibynnu ar bwnc yr ymgyrch. Er enghraifft, cafwyd nifer uchel iawn o ymatebion i'r broses ymgysylltu ynghylch Pont Teithio Llesol Plascrug yn Aberystwyth a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr a mis Chwefror 2026 – gan ddenu 1,978 o ymatebion. I'r gwrthwyneb, dim ond tri-ar-ddeg o ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar y Polisi Gorfodi Corfforaethol newydd, oherwydd natur arbenigol y pwnc.


Mae llawer o waith yn cael ei wneud i gryfhau'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â thrigolion a rhanddeiliaid. Rydym yn anfon e-fwletinau ymgysylltu rheolaidd i bobl sydd wedi cofrestru i'w derbyn trwy Fy Nghyfrif ac rydym wedi sefydlu Panel Pobl Ceredigion, sy'n cymryd rhan mewn arolygon a chyfleoedd eraill i fynegi eu barn ar wasanaethau'r Cyngor drwy gydol y flwyddyn.

Mae modd gweld manylion yr ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori a gynhaliwyd yn ystod 2025/26 drosodd, ynghyd â nifer yr ymatebion a sut y defnyddiwyd yr adborth i cyfarwyddo penderfyniadau polisi a newidiadau i gwasanaethau.

Rydym yn croesawu eich barn ar ein Hasesiad Hunanasesu, Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor ac ar ein perfformiad cyfredol. Byddwn hefyd yn hoffi gwybod sut ydych chi, eich teulu, neu eich cymuned, wedi'i effeithio gan ein gwaith i wella llesiant i bawb yn y sir. Mae manylion ar sut i gysylltu ar gefn yr adroddiad yma.

DADANSODDIAD O YMGYRCHOEDD YMGYSYLLTU AC YMGYNGHORI YN 2025/26





YMGYRCHOEDD YMGYSYLLTU YN 2025/26

Amser y Gweithgaredd	Dyddiadau	Ymateb	Beth nesaf
Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi Corfforaethol	04/07/2025 - 20/08/2025	186	Defnyddiwyd adborth i hysbysu datblygiad y polisi drafft Ymgysylltu a Chyfranogi a aeth allan fel ymgynghoriad cyhoeddus yng Ngaeaf 2025-26.
Llunio dyfodol ein Heconomi Leol	04/11/2025 - 17/11/2025	49	Sesiynau galw heibio mewn 9 lleoliad er mwyn i berchnogion busnes, grwpiau cymunedol a phreswylwyr cyfrannu at y strategaeth Economaidd ddiwygiedig.
Cynllun Llunio Lleoedd	11/11/2025 - 04/12/2025	605	Y bwriad oedd rhoi pŵer i 13 cymuned wledig er mwyn deall ei anghenion, ffurfio gweledigaeth ar gyfer ei phentref ac adnabod blaenoriaethau. Gall y darganfyddiadau cael ei defnyddio fel tystiolaeth ymrwymo i gefnogi cynigion cyllid ac i hysbysu cynlluniau a strategaethau'r Cyngor.
Strategaeth Diwylliant	04/11/2025 - 12/01/2026	524	Defnyddiwyd yr adborth yma i hysbysu Strategaeth drafft Diwylliant Ceredigion. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth drafft yn ystod 2026.
Cyfarfod blynyddol gyda chynrychiolyddion o Gynghorau Tref a Chymunedol	25/11/2025 - 27/11/2025	47	Cyfle i aelodau Cynghorau Tref a Chymuned drafod materion lleol a chlywed gan Arweinydd ag Uwch Swyddogion y Cyngor. Adborth o Gynghorydd Cymunedol, "roedd yn ddefnyddiol i gael dealltwriaeth o brosesau Cyngor Sir a'r heriau o ddarparu gwasanaethau wrth wynebu toriadau cyllideb o'r sector gyhoeddus."
Arolwg Ceredigion Oed Gyfeillgar	24/11/2025 - 20/03/2026	237	Defnyddiwyd yr adborth i hysbysu Cynllun Gweithredu drafft Oed Cyfeillgar i Geredigion. Bydd cyfres o weithdai rhanddeilliaid er mwyn datblygu'r cynllun bellach. Bydd y Cynllun Gweithredu Oed Cyfeillgar yn cael eu cyflwyno i Gabinet am gymeradwyaeth yn Hydref 2026.
Ymrwymiad Cyllid	01/12/2025 - 09/01/2026	300	Cyflwynwyd adborth i Gabinet yn Chwefror 2026 i hysbysu proses gosod cyllideb 2026-27. Cafwyd awgrymiadau Cabinet i'w cymeradwyo gan y Cyngor ar 2il Mawrth 2026.
Strategaeth y Gwasanaeth Ieuenctid 2027-2032	06/01/2026 - 31/03/2026	503	Bydd yr adborth yn cael i'w dadansoddi a'i defnyddio i hysbysu cynllun strategol drafft y Gwasanaeth Ieuenctid o 2027 i 2032. Bydd ymrwymiad cyhoeddus ar y cynllun drafft; bydd hyn yn cael i'w lansio ar ddiwedd Mehefin 2026.
Teithio Llesol Pont Plascrug, Aberystwyth	14/01/2026 - 25/02/2026	1,681	Bydd yr adborth yn hysbysu dyluniad manwl i sicrhau ei fod yn ddichonadwy i adeiladu. Bydd angen ymrwymiad pellach gyda rhanddeilliaid allweddol yn enwedig gan fod y bont yn croesi Rhwydwaith Cledran. Efallai bydd angen caniatâd cynllunio. Efallai bydd yn cymryd flwyddyn neu ddau arall cyn i adeiladu cychwyn.
Cynlluniau'r dyfodol ar gyfer 2 safle allweddol yn Llandysul	28/01/2026 - 06/03/2026	220	Bydd y penseiri yn dadansoddi'r ymatebion a dderbyniwyd yn y camau cynnar hyn ac yn eu hymgorffori mewn astudiaeth ddichonoldeb. Bydd ymgynghoriad pellach ar yr astudiaeth ddichonoldeb i wneud yn siŵr ein bod wedi cipio'r holl opsiynau rhesymol.
Pont Rhiwarthen, Capel Bangor	16/02/2026 - 22/03/2026	74	Bydd yr adborth yn helpu i lunio'r dyluniad terfynol. Pan fydd hyn ar waith, byddwn yn dechrau trafodaethau tir, asesiadau amgylcheddol, caniatâd cynllunio (os oes angen). Bydd ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid allweddol yn dilyn ac yna caffael ac adeiladu.

Amser y Gweithgaredd	Disgrifiad	Ymateb	Beth nesaf
Map o'r Rhwydwaith Teithio Llesol Ceredigion	09/02/2026 - 22/03/2026	392	Bydd ymatebion i'r arolwg yn cael eu hadolygu. Bydd gwelliannau posibl i Fap Rhwydwaith Teithio Egnïol Ceredigion yn cael eu rhannu ar gyfer adborth pellach yn ystod ein hymgynghoriad cyhoeddus statudol 12

YMARFERION YMGYNGHORI YN 2025/26

Amser y Gweithgaredd	Dyddiadau	Ymateb	Effaith yr Ymgynghoriad
Gwaharddiad arfaethedig ar barcio ar unrhyw adeg ar ochr orllewinol Heol Pengraig/Lewis Terrace, Ceinewydd	22/07/2025 - 12/08/2025	0	Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau. Cymeradwywyd y Gwaharddiad arfaethedig ar Barcio, er mwyn amddiffyn diogelwch ffyrdd wrth fynedfa newydd.
Datganiad o Bolisi Trwyddedu	24/10/2025 - 01/12/2025	13	Newidiwyd elfennau o'r Polisi Trwyddedu yn dilyn yr adborth a gafwyd fel rhan o'r ymgynghoriad. Cymeradwywyd y Datganiad o Bolisi Trwyddedu gan y Cyngor ym mis Ionawr 2026.
Polisi Dronau Ceredigion	03/11/2025 - 14/01/2026	243	Gwnaed newidiadau i'r Polisi Dronau drafft yn dilyn yr adborth a gafwyd fel rhan o'r ymgynghoriad. Bydd y Polisi Dronau drafft yn cael ei gyflwyno gerbron y Cabinet ym mis Gorffennaf 2026.
Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi	05/12/2025 - 20/02/2026	12	Cyflwynwyd y Polisi gerbron y Cabinet ym mis Mawrth 2026 ac mae bellach wedi'i gyhoeddi ar y wefan gorfforaethol. Byddwn yn dechrau gweithio ar y cynllun gweithredu o fis Ebrill 2026 ymlaen.
Polisi Gorfodi Corfforaethol	08/12/2025 - 20/01/2026	13	Cyflwynwyd adborth i'r Cabinet ym mis Mawrth 2026. Ni wnaeth yr ymgynghoriad dynnu sylw at unrhyw newidiadau a oedd angen eu gwneud. Mae'r polisi wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan fel y gall y cyhoedd ei weld.
Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru	04/02/2026 - 04/04/2026	214	Gwnaed newidiadau i Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru yn sgil yr ymgynghoriad cyhoeddus. Cymeradwywyd y cynllun gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2025, a byddai'r gwaith o'i gyflawni yn dechrau ym mis Ebrill 2026.
Lle parcio newydd arfaethedig, ger Maes Mwldan, Stryd y Baddondy, Aberteifi	25/03/2025 - 15/04/2025	0	Ni dderbyniwyd yr un gwrthwynebiad. Cymeradwywyd y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig.
Adolygiad o'r safleoedd gwastraff cartref	15/05/2025 - 04/08/2026	1,250	Cafodd yr adborth ei gynnwys yn y papur a gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Hydref. Penderfynwyd cynnal pob safle Gwastraff Cartref heb wneud unrhyw newidiadau ac argymhellwyd y dylid gwrthdroi'r penderfyniad a wnaed fel rhan o broses pennu'r gyllideb yn 24/25 i dynnu £100k o'r Gyllideb sylfaenol.

CEFNOGI'R HUNANASESIAD

Undebau Llafur

Mae cyfarfodydd misol yn cael eu cynnal rhwng y Cyngor ac undebau llafur cydnabyddedig. Caiff y rhain eu cadeirio gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Pobl a Thrafnidiaeth ac maent yn darparu fforwm ymgynghorol i gymryd rhan mewn a helpu i lywio cyfeiriad ar gyfer materion gweithlu a phryderon unigol ynghylch lles ac ymddygiad. Mae'r ddeialog barhaus hon yn bwysig i'r Cyngor drwy sicrhau bod gan staff lais ac adeiladu ar y wybodaeth a gafwyd o'n harolygon staff a'n hymgynghoriadau.

Fel rhan o'r hunanasesiad, rydym ni wedi parhau i gwrdd a cynrychiolyddion Undebau Llafur i amlinellu'r broses Hunanasesu a'u rôl fel ymgynghorwyr statudol. Nid oes unrhyw faterion penodol wedi'u codi gan yr Undebau Llafur ar hyn o bryd, er bod hyn yn debygol o ddatblygu wrth i'r broses ymwreiddio mwy ym mhob prif gyngor.

Mae gweithio mewn partneriaeth â'n Hundebau Llafur yn hanfodol i gyflawni'r Cynllun Gweithlu yn llwyddiannus, a gall adborth ar perfformiad y Cyngor cael ei ddarparu ar unrhyw adeg.

Ymgynghori â Staff

Mae gan Geredigion hanes cryf o hysbysu staff a mesur teimladau staff. Mae hyn wedi parhau mewn i 2025/26 gyda'r "Arolwg Pobl" wedi'i cynnal rhwng Rhagfyr 2025 a Ionawr 2026. Mae'r arolwg yn cofnodi barn y staff ar ystod o faterion, o'u lles personol i drefniadau gwaith.

Mae'r adborth a dderbyniwyd gan staff yn amhrisiadwy i helpu creu gweithle iachach a hapusach i bawb ac yn cael ei defnyddio i hysbysu hyfforddiant a chefnogaeth a ddarparwyd i staff. Mae'n rhan allweddol o ddull 'Tîm Ceredigion'. Dangosir canlyniadau'r arolwg diweddaraf gyferbyn.

Ymgynghoriad Busnes

Mae partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, sydd yn cynrychioli dau awdurdod lleol sef Ceredigion a Powys, yn cynnal ymgynghoriadau rheolaidd gyda busnesau lleol.

Yn ystod 2025/26, cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar Gynllun Trafnidiaeth Ranbarthol Canolbarth Cymru i wahodd pobl i rannu eu profiadau o deithio yn y rhanbarth ac i dynnu sylw at flaenoriaethau ar gyfer gwelliant.

Yn dilyn adborth, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru'r Cynllun ar ddiwedd 2025. Dechreuodd Ceredigion a Phowys gyflwyno cynlluniau trafnidiaeth a theithio llesol rhanbarthol penodol ym mis Ebrill 2026.

Mae'r Cynllun yn nodi gweledigaeth hirdymor, blaenoriaethau ac ymyriadau arfaethedig y rhanbarth o ran trafnidiaeth, gan ddarparu fframwaith strategol i arwain buddsoddiad, cynllunio a darpariaeth trafnidiaeth yn y dyfodol ar draws Canolbarth Cymru.

Trefnodd y Cyngor sesiynau galw heibio mewn naw lleoliad ar draws Ceredigion er mwyn i berchnogion busnes, grwpiau cymunedol a thrigolion gyfrannu at y strategaeth economaidd ddiwygiedig. Derbyniwyd cyfanswm o 49 o ymatebion, sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd i helpu i lunio'r Strategaeth Economaidd ddiweddaraf ar gyfer Ceredigion, sydd i'w chyhoeddi yn hydref 2026.

PANEL POBL CEREDIGION

Mae Panel Pobl Ceredigion yn fenter dan arweiniad y cyngor lle mae trigolion lleol yn cymryd rhan mewn arolygon cyflym a grwpiau ffocws i helpu i lunio gwasanaethau a pholisïau'r cyngor, yn ogystal â'r broses ddemocrataidd leol. Mae'r Panel yn rhan allweddol o Bolisi Ymgysylltu a Chyfranogiad parhaus y Cyngor.

Y nod yw i'r Panel gynrychioli pobl Ceredigion mor agos â phosibl, gan gynnwys pobl o wahanol oedrannau, rhywiau a chefndiroedd. Er na fydd pob arolwg neu drafodaeth yn gwbl gynrychioliadol, maent yn dal i roi cipolwg defnyddiol ar brofiadau a barn pobl. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Panel wedi'i ehangu i 81 o bobl. Gall preswylwyr ymuno â'r panel ac ymateb i ymgynghoriadau parhaus drwy greu cyfrif ar borth 'Fy Nghyfrif' Cyngor Sir Ceredigion.

Yn chwarter olaf 2025/26, ymgynghorwyd â'r Panel ddwywaith; unwaith i geisio deall pam nad yw perfformiad y Cyngor (sy'n gadarnhaol ar y cyfan) yn cyd-fynd â barn y cyhoedd amdano. Defnyddiwyd arolwg a grŵp ffocws hybrid i gasglu adborth.

Roedd yr ail i gasglu adborth ar ddrafft y Canllaw i Ymgeiswyr Posibl. Rhoddodd hyn fewnwelediad gwerthfawr i lywio'r gwaith o ddiwygio'r canllaw.

Ymatebodd 40 o aelodau'r panel i'n harolwg er mwyn deall yn well pam mae'r Cyngor yn aml yn perfformio'n dda yn ôl mesurau swyddogol, ond bod barn y cyhoedd weithiau'n gallu bod yn fwy negyddol. Roedd yr arolwg yn cynnwys atebion byr a sylwadau manwl, gan ddarparu cymysgedd o ffeithiau, barnau a phrofiadau personol. Mynychodd 10 aelod o'r panel grŵp ffocws dilynol.

Mae tair neges allweddol yn amlwg o'r arolwg a'r trafodaethau grŵp ffocws, fel y nodir isod. Yn sgil yr adborth hwn, rydym yn darparu mwy o wybodaeth am wasanaethau bob dydd (gwastraff, glanhau strydoedd, cynnal a chadw ffyrdd, ac ati) yn ein Hadroddiad Hunanasesu; rydym yn adlewyrchu profiadau bywyd wrth adrodd ar ganlyniadau, ac yn cynnwys mwy o wybodaeth am yr heriau rydym yn eu hwynebu er mwyn eu gwneud yn fwy eglur.

ADBORTH O'R PANEL POBL

Yr hyn a ddwedoch wrthym am ein perfformiad ac am gyfathrebu ein perfformiad i chi:

1. Mae pobl yn barnu perfformiad drwy wasanaethau bob dydd y gallant eu gweld a'u defnyddio.
2. Mae cyfathrebu yn hollbwysig, yn enwedig pan fo penderfyniadau yn anodd neu'n amhoblogaidd.
3. Nid yw ymgynghori bob amser yn teimlo'n ystyrlon, a all leihau ymddiriedaeth yn y broses.

AROLWG POBL 2025/26

Cefndir

Bwriad yr Arolwg Pobl yw darparu dealltwriaeth gynhwysfawr o brofiadau cyflogwyr, ymdrin ag ardaloedd megis boddhad swydd, cyfleoedd i ddatblygu a lles. Roedd cyfanswm o 1,345 o staff wedi cymryd rhan.

Mae'r arolygon blynyddol hyn yn rhan bwysig o ddull gweithredu Tîm Ceredigion. Maent yn ein helpu i ddeall ble rydym yn gwneud cynnydd a ble mae angen i ni ganolbwyntio ein hymdrechion er mwyn parhau i wella.

Y Canlyniadau

Ar y cyfan, mae'r canlyniadau'n rhoi darlun cadarnhaol i raddau helaeth, gyda gwelliannau i'w gweld ar draws llawer o'r meysydd sy'n dylanwadu ar sut mae staff yn teimlo ynghylch gweithio i'r Cyngor.


Un o'r canfyddiadau cryfaf yw bod 88.2% o'r ymatebwyr wedi dweud y byddent yn argymell y Cyngor fel lle da i weithio, cynnydd o 85.2% yn 2024 a ffigwr sy'n sylweddol uwch na'r hyn a welir mewn sefydliadau cenedlaethol tebyg. Mae hyn yn adlewyrchu'r balchder y mae llawer o gydweithwyr yn ei deimlo wrth fod yn rhan o Dîm Ceredigion.
Yn ogystal, eleni roedd mwy o ymatebwyr yn teimlo bod eu cyfraniad yn cael ei werthfawrogi gan y sefydliad, 81.9% o gymharu â 76.6% y flwyddyn flaenorol.


Mae balchder o weithio i'r Cyngor hefyd yn parhau i dyfu. Dywedodd mwy na thri chwarter (76.7%) eu bod yn falch o safonau perfformiad a'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor, o'i gymharu â 74.7% yn flaenorol.


Ar gyfer y rhan fwyaf o'r cwestiynau a ofynnwyd, mae barn y staff yn uwch na'r holl feincnodau cenedlaethol, ac ymhlith y meysydd lle gellir olrhain tueddiadau, gwelir naill ai sefydlogrwydd neu welliant cadarnhaol ar draws y rhan fwyaf o ddangosyddion. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod y bydd rhai meysydd yn gofyn am ragor o gymorth ac ymgysylltiad.


Mae'r arolwg wedi rhoi cipolwg gwerthfawr ar brofiadau a chanfyddiadau ein gweithlu. Mae'r lefel uchel o gyfranogiad a'r adborth cadarnhaol ym mhob maes yn adlewyrchu ymroddiad ac ymgysylltiad Tîm Ceredigion. Dangosir rhai o'r prif bwyntiau ar y dde.


PENAWDAU














GOSOD AC ADOLYGU EIN HAMCANION LLESIANT

Mae'r Strategaeth Gorfforaethol 2022-27 yn cyflwyno pedwar Amcan Llesiant Corfforaethol i'r Cyngor. Rhain ydy:

- Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth
- Creu cymunedau gofalgar ac iach
- Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu
- Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd

Mae Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor yn galluogi darparu gwasanaethau a fydd yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol dinasyddion a chymunedau Ceredigion. Adolygwyd yr Amcanion yn ystod 2022 a chytunwyd ar set newydd i gyd-fynd â'r Strategaeth Gorfforaethol newydd. Nodwyd yr Amcanion newydd drwy amrywiaeth eang o dystiolaeth, gan gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, Asesiad Llesiant Lleol Ceredigion ac uchelgeisiau'r weinyddiaeth wleidyddol newydd.

Cam cyntaf y broses oedd cynnal dadansoddiad pen bwrdd o amrywiol ddarnau o dystiolaeth, er mwyn nodi'r prif faterion sy'n effeithio ar lesiant dinasyddion Ceredigion. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys adolygu Asesiad Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, a oedd yn darparu darlun cynhwysfawr o lesiant yn y sir, gan gynnwys gwaith ymgysylltu eang â'r cyhoedd yn ystod 2021. Trwy hyn, cawsom wybod am bryderon pobl a'r meysydd y byddent yn dymuno eu gweld yn cael eu gwella.

Ar ôl hynny, tynnwyd yr adborth ynghyd a'i ddehongli gan ystyried blaenoriaethau'r weinyddiaeth newydd dros y bum mlynedd nesaf a'i gymharu â'r Asesiad i nodi unrhyw flychau. Cynhaliwyd gweithdai gyda gwasanaethau'r Cyngor fel cam arall yn y broses ac aethpwyd ati i ddatblygu'r camau unigol y byddai angen eu cymryd i gyflawni'r Amcanion.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor osod a chyhoeddi Amcanion Llesiant sydd wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'n cyfraniad at gyflawni'r saith Nod Llesiant ar gyfer Cymru a nodir yn y Ddeddf. Ar yr un pryd mae'n rhaid i ni gyhoeddi datganiad yn egluro pam y bydd cyflawni'r amcanion yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant a pha gamau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion.

Mae'r Ddeddf hefyd yn gofyn i ni adolygu'r Amcanion yn flynyddol i sicrhau bod nhw'n parhau i fod yr Amcanion cywir i Geredigion ac yr ydym yn eu cyflawni. Yn hydref 2025 cafwyd ei adolygu a chytunwyd gan y Cyngor bod y rhain yn parhau i fod yn ardaloedd blaenoriaeth i'r Cyngor a fyddant yn parhau yn ei le i 2025/26.

Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi crynodeb o sut mae ein Hamcanion Llesiant ar yn cyfrannu at y Nodau Llesiant cenedlaethol, adolygiad o gynnydd yn erbyn cyflawni'r Amcanion a sut rydym wedi cymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

Ein Gweledigaeth:

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn darparu gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog cynaliadwy gwerth am arian sy'n cefnogi economi gref ac amgylchedd iach wrth hyrwyddo llesiant yn ein pobl a'n cymunedau

Ein Amcanion Llesiant Corfforaethol:



Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth



Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach



Darparu'r Dechrau Gorau mewn Bywyd a Galluogi Pobl o Bob Oed i Ddysgu



Creu Cymunedau Cynaliadwy a Gwyrdd sydd wedi'u Cysylltu'n Dda â'i Gilydd

ASESU CYNNYDD 2025/26

Y Deddfwriaeth

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adolygu cynnydd yn cyflawni eu hamcanion llesiant. Er ein bod yn adolygu cynnydd yn barhaus, rydym yn cyhoeddi ein perfformiad diweddaraf bob blwyddyn yn ein Hadroddiad Hunanasesu.

Mae'r adroddiad hwn yn cyfuno gofynion adrodd statudol Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yr Offeryn "Gwiriwr Siwrnai"

Wrth asesu ein cynnydd drwyddi draw, rydym yn defnyddio Gwiriwr Siwrnai Cenedlaethau'r Dyfodol i gynorthwyo wrth lunio asesiad safonol o'n cynnydd yn erbyn pob Amcan Llesiant Corfforaethol.

Mae'r Gwiriwr Siwrnai yn offer defnyddiol sy'n categoreiddio cynnydd yn ôl pum maen prawf, sy'n amrywio o 'Dim Newid' lle nad oes cynnydd wedi'i wneud i 'Arwain y Ffordd' sy'n golygu y gwnaed cynnydd da a bod lefel ein dealltwriaeth am y materion sy'n effeithio llesiant yn gynhwysfawr a bod anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn cael eu deall a'u hystyried gan bawb.

Mae'r categorïau wedi'i amlygu yn y system sgorio yn y tabl cyferbyn. Gwelir tudalennau 40, 44, 48 a 52 ar gyfer y sgôr yn erbyn pob Amcan.

Mae'r Gwiriwr Siwrnai yn ffordd ddefnyddiol o asesu'r camau gweithredu unigol a wnaed, yn ogystal ag asesu sut rydym yn cyflawni'r amcanion.

Ar y tudalennau canlynol ceir adolygiad o'n cynnydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys rhai uchafbwyntiau a llwyddiannau diweddar, ynghyd â rhai o'r cyflawniadau i'r hirdymor wrth gyflawni ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol.

GWIRIWR SIWRNAI CENEDLAETHAU'R DYFODOL

ARWAIN Y FFORDD	
HUNAIN UCHELGAIS	
MWY ANTUROL	
NEWID SYML	
DIM NEWID	



Llun: Yn Rhagfyr 2025, derbyniwyd o gwmpas 160 disgybl Ceredigion blas o'r cyrsiau fydd ar gael yn Fferm Llettytwppa o Fedi 2026.



HYBU'R ECONOMI, CEFNOGI BUSNESAU A GALLUOGI CYFLOGAETH



CYNNYDD A WNAED YN 2025/26

- Ers amser hir, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi hyrwyddo datblygiad a thwf ei heconomi leol fel uchelgais gorfforaethol allweddol, fel y nodir yn ei Strategaeth Economaidd 15 mlynedd. Mae rhan fwyaf y meysydd cyflawni, a gynorthwyir gan ffynonellau cyllid allanol, yn destun gwerthusiadau annibynnol, y maent mewn cyfnodau amrywiol o ran comisiynu a darparu. Cyflawnir nifer o raglenni strategol allweddol, ac asesir eu heffeithiau ar y cyd.
- Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) wedi darparu cyllid wedi'i dargedu i Wasanaeth Dysgu Gydol Oes a Sgiliau'r Cyngor er mwyn gwella cyfleoedd bywyd pobl ifanc yng Ngheredigion. Mae hyn wedi galluogi datblygiad a chyflwyniad cyfleoedd hyfforddiant addas a chyrsiau sgiliau galwedigaethol, gan gefnogi pobl ifanc i wneud cynnydd a chyfrannu'n gadarnhaol at yr economi leol. Cefnogwyd 142 o unigolion i ennill cymhwyster, sy'n uwch na'r targed o 50. Yn debyg, rhagorwyd ar y targed o gefnogi 100 o unigolion i gymryd rhan mewn addysg, gydag 119 o unigolion wedi cofrestru ar gyrsiau.
- Wedi'i ddatblygu gan Tyfu Canolbarth Cymru, mewn partneriaeth â Chynghorau Sir Ceredigion a Phowys, mae Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru bellach wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. O ganlyniad i hynny, mae ychydig dros £13 miliwn o gyllid wedi'i ddyrannu i wella trafnidiaeth ledled Canolbarth Cymru, wrth i'r rhanbarth symud o gynllunio strategol tuag at welliannau ymarferol, gweladwy. Bydd y rhan fwyaf o'r cyllid yn cael ei wario ar welliannau ffisegol, a fydd yn canolbwyntio ar gyflwyno seilwaith trafnidiaeth sy'n gwella teithiau bob dydd. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad mewn teithio llesol, gwefru cerbydau trydan a gwelliannau wedi'u targedu i lwybrau a lleoedd allweddol ledled y rhanbarth.
- Mae Cynnal y Cardi yn parhau i gefnogi'r gwaith o adfywio cymunedau gwledig trwy brosiectau peilot, astudiaethau dichonoldeb, hwyluso, gweithgareddau rhwydweithio, hyfforddiant a mentora. Ei nod yw symbylu arloesedd sy'n cynyddu gwerth ac amrywiaeth y cyfleoedd economaidd cynaliadwy ar gyfer pobl Ceredigion.
- Mae'r prosiect Adfywio Promenâd Aberystwyth, a ariennir gan Gronfa Ffyniant Bro y DU, wedi parhau i wneud cynnydd yn ystod y flwyddyn. Mae'r prosiect yn trawsnewid glan môr eiconig Aberystwyth yn ofod mwy diogel, mwy hygyrch a deniadol ar gyfer trigolion ac ymwelwyr. Mae'r cynllun hefyd yn creu gwell cysylltiadau i gerddwyr a beicwyr ac yn gwella ardaloedd nas defnyddir ddigon er mwyn annog rhagor o bobl i archwilio tirnodau hanesyddol a mannau bywiog Aberystwyth. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gosodwyd pontydd troed y Castell, gwnaed gwelliannau o dan Bont Trefechan ac mae'r gwaith ar oleuadau'r Castell bellach wedi'i gwblhau. Yn fwyaf diweddar, mae Walk Wheel Cycle Trust wedi dadorchuddio gwaith celf newydd, sy'n canolbwyntio ar y gymuned, ar hyd y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn Aberystwyth, gan ffurfio rhan o'r gwelliannau ehangach ledled y dref.
- Am yr eildro, cynhaliwyd Gwobrau Caru Ceredigion ym mis Hydref 2025 i ddathlu talent a llwyddiannau eithriadol busnesau, prosiectau cymunedol ac unigolion ledled y sir. Gwnaed dros 110 cais ar gyfer y gwobrau, gyda 40 yn cyrraedd y rhestr fer ar draws 12 categori. Roedd y digwyddiad yn noson o ddathlu a chydnabyddiaeth, a welodd Cynghorwyr Sir, swyddogion gweithredol, cynrychiolwyr o'r byd busnes drwyddo draw a grwpiau cymunedol yn anrhydeddu'r ymdrechion a'r cyflawniadau eithriadol o fewn y sir.
- Unwaith eto, cefnogodd y Cyngor Rali Ceredigion ym mis Medi 2025, sy'n ddigwyddiad Pencampwriaeth Ralio Ewrop FIA swyddogol. Mae Rali Ceredigion yn parhau i hyrwyddo cynaliadwyedd a diogelwch, ac mae'r digwyddiad yn parhau i ddal achrediad amgylcheddol FIA ac yn arddangos tanwydd carbon isel a cherbydau trydan. Yn ystod y bwrlwm cyn y digwyddiad, bu gweithgareddau ymgysylltu ag ysgolion a chymunedau. Daeth y digwyddiad â chynulleidfa ehangach, ryngwladol i'n hardal ac fe amlygodd y pethau unigryw sydd gan ein rhanbarth i'w cynnig i gynulleidfa fyd-eang, gan gynhyrchu £4 miliwn mewn buddion economaidd ledled y Sir.
- Roedd Cyngor Sir Ceredigion hefyd yn falch o gefnogi Pencampwriaethau Rasio Ffordd Cenedlaethol 2025 a ddigwyddodd ar draws Aberaeron ac Aberystwyth, gan ddenu beicwyr proffesiynol a gwylwyr o bob ardal o'r DU i galon Ceredigion. Denodd y digwyddiad mawreddog hwn lawer o ymwelwyr i'r Sir gan roi'r cyfle iddynt fwynhau'r holl bethau sydd gan fusnesau lleol i'w cynnig.
- Ym mis Mehefin 2025, enillodd Gwasanaeth Cynllunio Ceredigion dair gwobr yng ngwobrau'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru ar gyfer Rhagoriaeth Cynllunio. Mae'r gwobrau'n arddangos ac yn dathlu'r cynlluniau, prosiectau a'r bobl orau o fewn y maes cynllunio. Cafodd tîm Ceredigion gydnabyddiaeth am drawsnewid y swyddogaeth gynllunio i fynd i'r afael â heriau gwledig yn uniongyrchol ac enillodd wobr Awdurdod Cynllunio'r Flwyddyn, ynghyd â'r wobr Cynlluniwr Ifanc y Flwyddyn a'r wobr Cynllun neu Brosiect Gorau'r Flwyddyn.
- Mae Cyngor Sir Ceredigion a'i bartneriaid ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn parhau i weithio'n rhagweithiol ar liniaru achosion ac effeithiau tlodi yng Ngheredigion. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r partneriaid wedi bod yn cydweithio i helpu lleihau costau aelwydydd a sicrhau'r incwm mwyaf posibl i bobl sy'n wynebu caledi, tra'n gwella ein dealltwriaeth o dlodi lleol a mynd i'r afael â'r stigma sy'n gysylltiedig â phobl sy'n byw mewn tlodi.
- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwnaed

cynnydd ardderchog wrth ddatblygu mentrau gofal micro yng Ngheredigion, gan ddarparu ystod o gymorth i helpu unigolion i fyw'n annibynnol, megis cymorth yn y cartref, cwmnïaeth a gofal personol. Sefydlwyd 57 o fentrau yn ystod y flwyddyn gyda chymorth gan PLANED, yr elusen a arweinir gan y gymuned sy'n gweithio ledled Gorllewin Cymru i gyflawni deilliannau cynaliadwy ar gyfer cymunedau.

- Yn ystod 2025/26, mae'r nifer o leoliadau gofal plant wedi cynyddu, gan ddarparu mwy o ddewis a chymorth i rieni. Nawr, mae 1,609 o leoliadau gofal plant cofrestredig yng Ngheredigion, sef 112 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.
- Mae'r Uned Gofal Plant yn parhau i hyrwyddo cynllun Gofal Plant Cymru yn rheolaidd, ynghyd â ffrydiau cymorth cyllid eraill megis Gofal Plant Di-dreth er mwyn helpu gyda chostau gofal plant. Mae hyn wedi cynnwys hyrwyddo trwy'r cyfryngau cymdeithasol, tudalennau Teuluoedd Ceredigion ac yn y cnawd mewn digwyddiadau lleol.
- Mae 123 o blant ychwanegol yng Ngheredigion wedi elwa o faes ehangu gofal plant Dechrau'n Deg ar gyfer plant 2 oed. Dechrau'n Deg yw'r rhaglen blynyddoedd cynnar a ariennir gan Lywodraeth Cymru sydd wedi'i chynllunio ar gyfer teuluoedd â phlant o dan bedair oed sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig. Mae'n darparu gofal plant rhan-amser am ddim i blant 2 oed, gwell gwasanaethau ymwelwyr iechyd, cymorth rhianta, yn ogystal â datblygu lleferydd ac iaith.
- Mae'r Cyngor wedi lansio Cynllun Graddedigion newydd, sy'n cynnig y cyfle i raddedigion diweddar gymryd eu cam cyntaf ar yr ysgol yrfa a chael mynediad at gyfleoedd gyrfa o ansawdd mewn gwasanaeth cyhoeddus. Cynigir contract 12 mis i Hyfforddeion Graddedig, lle byddant yn ennill wrth iddynt ddysgu, yn cael cymorth i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth arbenigol, ac adeiladu sylfaen gref ar gyfer gyrfa yn y dyfodol.
- Mae £4 miliwn o gyllid wedi'i ddyrannu ar gyfer prosiectau ledled Ceredigion a Phowys dros y ddwy flynedd nesaf, fel rhan o raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru. Bydd y buddsoddiad yn hybu adfywiad canol trefi, gan helpu i greu swyddi, hybu gweithgarwch economaidd ac ailfywiogi strydoedd mawr a chanol trefi ar draws y rhanbarth.
- Dathlodd Canolfan Bwyd Cymru ei ben-blwydd yn 30 oed ym mis Mawrth 2026 – tri degawd o hyrwyddo busnesau bwyd a diod o Gymru. Wedi'i weithredu gan Gyngor Sir Ceredigion a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, mae Canolfan Bwyd Cymru wedi dod yn un o gonglfeini'r diwydiant, gan gynnig cyngor technegol arbenigol, y cyfleusterau datblygu cynnyrch diweddaraf a chymorth busnes wedi'i deilwra. Ers agor yn 1996, mae'r Ganolfan wedi cefnogi cannoedd o gynhyrchwyr, o egin fusnesau uchelgeisiol i enwau sefydledig, gan eu helpu nhw i arloesi, tyfu a llwyddo.
- Mae Cynllun Gweithredu Asedau newydd wedi'i roi ar waith i wneud y defnydd gorau o asedau eiddo'r Cyngor, gwella cyflawni gwasanaethau a chyfrannu mwy tuag at yr economi leol. Mae'r Cynllun Gweithredu'n ymgorffori ystod o gamau gweithredu sy'n ceisio gwella cynllunio strategol i gefnogi amcanion y Cyngor; yn lleihau'r ôl-groniad o adnewyddiadau prydles ac adolygiadau rhent; yn nodi rhaglen datblygu asedau glir; yn gweithredu adolygiad o ffermydd y Sir; yn nodi caffaeliadau addas; ac yn sicrhau bod capasiti'n cwrdd ag uchelgais. Ar wahân i gefnogi gweithrediad effeithlon y Cyngor, bydd hefyd yn cyfrannu at dwf yr economi yng Ngheredigion tra'n stopio a gwrthdroi'r dirywiad ym myd natur.



CYFLAWNIADAU

£11.3m
o Gyllid Twf Lleol a ddyrannwyd i Ganolbarth Cymru i gefnogi twf a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd

£1.5m
o Gyllid Effaith 'Pride in Place' a ddyrannwyd i adfywio prif strydoedd lleol a gwella mannau cyhoeddus

142
busnes wedi'i cefnogi ar draws Ceredigion

31
busnes newydd wedi'i cefnogi ar draws Ceredigion

4
cyfleoedd prentisiaeth wedi cynnig o fewn y Cyngor yn ystod y flwyddyn

40
Sefydlwyd mentrau gofal bach o fewn y sector gofal yn ystod y flwyddyn 2025/26

6,865
o bobl wedi ymweld â Wefan Costau Byw y Cyngor i helpu i drechu tlodi

28%
ai newydd a gwblhawyd yn dai fforddiadwy

GWELLA CANLYNIADAU

DATHLU EIN DIWYLLIANT A'N CREADIGRWYDD

Ym mis Hydref 2025, ymunodd Aberystwyth â dros 50 o Ddinasoedd a gydnabyddir gan UNESCO am eu cyfraniad at lenyddiaeth, gan gynnwys Barcelona, Dulyn, Seattle a Rio de Janeiro. Mae'r dynodiad Dinas Llên yn cadarnhau mai Aberystwyth yw Dinas Greadigol UNESCO gyntaf Cymru.

Crëwyd y dynodiad Dinas Llên newydd ar ôl cais cymhellol gan y bartneriaeth strategol Dinas Llên, sy'n cynnwys Cyngor Sir Ceredigion. Mae'r dynodiad UNESCO yn dod ag Aberystwyth a sir ehangach Ceredigion ynghyd i ddathlu traddodiadau llenyddol hynafol yr ardal a'i sîn ddiwylliannol ddwyieithog sy'n ffynnu.

Mae gan Aberystwyth seilwaith bywiog o wyliau, siopau llyfrau, theatrau, digwyddiadau diwylliannol, darlithoedd, canolfannau rhagoriaeth ac ymchwil academaidd, cwmnïau cyhoeddi, barddoniaeth a gwaith llenyddol sy'n cysylltu pob rhan o'r sir. Mae llenyddiaeth a chreadigrwydd yn helpu i wneud Aberystwyth yn lle gwych i fyw, gweithio, astudio ac ymweld ag ef.

Mae'r nod o gydnabyddiaeth fyd-eang hwn yn **dathlu bywiogrwydd a chryfder diwylliant llenyddol dwyieithog Ceredigion a Chymru** a'i gyfraniad at greadigrwydd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Daw'r dynodiad â bri byd-eang sy'n helpu dinasoedd i **ddenu refeniw twristiaeth**, **sicrhau cyllid diwylliannol**, ac yn **hybu balchder dinesig**. Bydd Dinas Llên gyntaf Cymru yn gatalydd ar gyfer twf pellach **yn y diwydiannau creadigol, yn fuddiol i fusnesau lleol** ac yn helpu rhagor o bobl i ddarganfod Ceredigion a'i hanes diwylliannol a llenyddol cyfoethog.

LLUNIO'R ECONOMI LEOL

Mae Strategaeth Economaidd 15 mlynedd Ceredigion yn nodi sut byddwn ni'n gweithio gyda'n gilydd tuag at gyflawni twf economaidd cryf, cynaliadwy a gwydn ar gyfer Ceredigion, wedi'i greu a'i rannu gan bawb. Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar y meysydd lle gallai'r Cyngor wneud cyfraniad cadarnhaol at yr economi leol trwy'r defnydd o'i adnoddau, ei bartneriaethau a'i ddylanwad.

Mae sawl menter eisoes wedi cael eu cyflwyno, **gan gefnogi busnesau i dyfu, hyrwyddo Ceredigion fel lle i fyw, gweithio ac ymweld ag ef**, a helpu i **gryfhau sgiliau'r gweithlu lleol**. Mae buddsoddiad allanol sylweddol hefyd wedi'i sicrhau, gan greu cyfleoedd ar gyfer twf ac adfywio economaidd pellach ledled y sir.

Yn ystod 2025/26, fe wnaethom ddechrau ar adolygiad llawn o'r Strategaeth Economaidd er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn berthnasol i'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu Ceredigion. Cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu ar draws naw lleoliad o fewn y sir, gan roi'r cyfle i fusnesau, trigolion a grwpiau cymunedol gyfrannu eu barn. Roedd gweithdy rhanddeiliaid hefyd wedi denu cynrychiolwyr o bartneriaid allweddol ynghyd i helpu llunio trywydd y Strategaeth ar gyfer y dyfodol.

Bydd y Strategaeth wedi'i hadfywio, y mae disgwyl ei chyhoeddi yn hydref 2026, yn rhoi pwyslais cryfach ar sgiliau, cynaliadwyedd, tai, adfywio trefi a hyrwyddo diwylliannol. Mae'r adolygiad hwn yn rhoi cyfle gwych i bobl a sefydliadau lleol helpu **llunio dyfodol economi Ceredigion** a sicrhau bod **twf yn y dyfodol yn adlewyrchu cymunedau, cryfderau a gwerthoedd y sir.**

TYFU'R ECONOMI

Mae Bargen Twf Canolbarth Cymru yn parhau i wneud cynnydd da. Ym mis Mawrth 2026, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU y byddai'r rhandaliad diweddaraf o gyllid, gwerth £11.8 miliwn, yn cael ei ryddhau.

Ar hyn o bryd, mae 10 prosiect ym mhortffolio'r Cytundeb Twf, ar draws sectorau allweddol gan gynnwys digidol, ynni, amaeth-fwyd a gweithgynhyrchu uwch. Mae nifer o brosiectau ar fin symud o'r cam cynllunio i'r cam cyflawni. Mae tua £6.8 miliwn o gyllid y Fargen Twf wedi'i ddyrannu i'r prosiectau cynnar hyn.

Caiff yr achos busnes ar gyfer prosiectau eraill ei ystyried yn ystod y flwyddyn nesaf, ac mae cymorth yn cael ei ddarparu i helpu i'w gwireddu.

Mae cynlluniau cam cynnar – fel y prosiect twristiaeth gynaliadwy yn Llynnoedd Dyffryn Elan ac ehangu'r Fforest Lawr Geltaidd – wedi trosglwyddo'n llwyddiannus i gyfnod cyflawni gweithredol.

Mae'r Fargen Twf yn bartneriaeth sy'n torri tir newydd, gan ddwyn buddsoddiad cyfunol o £110m gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, y disgwylir iddo sicrhau buddsoddiad ychwanegol sylweddol gan ffynonellau cyhoeddus a phreifat eraill.

Mae'r rhaglenni a'r prosiectau sy'n ffurfio o Bortffolio Bargen Dwf Tyfu Canolbarth Cymru yn cyfrannu tuag at drosglwyddiad un o'r meysydd Blaenoriaeth Twf Strategol canlynol:

- Arloesi ac Ymchwil Gymhwysol
- Amaethyddiaeth, Bwyd a Diod
- Cynnig Twristiaeth Cryfach
- Digidol
- Cynorthwyo Menter

Disgwylir i'r Fargen Twf ddwyn buddion uniongyrchol ac anuniongyrchol, gan gynnwys twf o ran ffyniant rhanbarthol a chreu swyddi o ansawdd gwell ar gyfer y farchnad lafur leol.

Mae'r allbynnau y mae modd eu cyflawni yng Nghanolbarth Cymru trwy gyfrwng buddsoddiad y Fargen Twf fel a ganlyn:

- Creu rhwng 1,100 a 1,400 o swyddi newydd yng Nghanolbarth Cymru erbyn 2032.
- Cynorthwyo ymgodiad Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) ychwanegol net o rhwng £570m a £700 miliwn ar gyfer Economi Canolbarth Cymru erbyn 2032.
- Darparu buddsoddiad cyfan gwbl o hyd at £400 miliwn yn economi Canolbarth Cymru erbyn 2032.

Mae'r canlyniadau y disgwylir i'r Fargen Twf eu cyflawni fel a ganlyn:

- **Twf mewn ffyniant rhanbarthol**
- **Creu swyddi o ansawdd gwell ar gyfer y farchnad lafur leol**
- **Gweithlu mwy medrus yn y rhanbarth**
- **Gwelliannau mewn safonau byw ar draws y rhanbarth.**

Yn ogystal, disgwylir i'r rhaglenni a'r prosiectau a gefnogir gan y Fargen Twf i sicrhau buddion cymdeithasol ac economaidd ehangach, megis **ansawdd bywyd gwell, creu cyfleoedd** busnes yn dilyn effaith COVID-19, **datgarboneiddio** mewn diwydiant ac ystyried effeithiau newid hinsawdd.

DARPARU DATBLYGU CYNALIADWY

Asesiad cyffredinol o'r daith hyd yn hyn

Mae cynnydd wrth fodloni'r flaenoriaeth hon yn ***dda*** ac mae'r rhagolygon gwella yn ***dda***. Mae Tyfu Canolbarth Cymru yn parhau i symud ymlaen, wrth i'r gyfran ddiweddaraf o gyllid £11.8m gael ei datgloi. Mae cynnal a chefnogi digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol blaenllaw hefyd yn gwneud cyfraniad economaidd cadarnhaol ac yn hyrwyddo Ceredigion fel cyrchfan i ymweld â hi. Mae'r dynodiad llenyddol UNESCO yn gwneud Ceredigion yn hollol unigryw yng Nghymru. Mae'r prosiect Adfywio Promenâd Aberystwyth bron wedi'i gwblhau er mwyn i bawb ei fwynhau. Mae cyllid pellach wedi'i ddyrannu trwy Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru i wella trafnidiaeth ar draws y rhanbarth.

YN BERCHEN AR EIN HUCHELGAIS

MWYHAU EIN CYFRANIAD AT Y NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL

Mae'r nod llesiant corfforaethol **Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth** yn cefnogi'r nodau llesiant cenedlaethol canlynol.

▶

- Llewyrchus
- Cydnerth
- Iachach
- Mwy Cyfartal
- Cydlynus
- Diwylliant
- Byd-eang

Hirdymor

- Mae'r Strategaeth Economaidd yn cynllunio ar gyfer datblygiad hirdymor yr economi hyd at 2035
- Mae Bargen Twf Canolbarth Cymru a'r Strategaeth Economaidd yn mynd i'r afael â gwendidau strwythurol hirdymor
- Mae Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn gosod y weledigaeth ar gyfer amserlen 15+ mlynedd
- Defnyddiwyd dadansoddiad tueddiadau yn y dyfodol i ddatblygu gweledigaeth Tyfu Canolbarth Cymru

Atal

- Bydd mwy o gyfleoedd economaidd yn atal allfudo pellach o bobl ifanc medrus
- Bydd twf economaidd yn atal effaith negyddol patrymau mudo yn y dyfodol ar y Gymraeg a diwylliant Cymru
- Bydd ymyriadau yn y Strategaeth Economaidd yn helpu i greu twf mewn cynhyrchiant
- Bydd denu a chreu cyfleoedd swyddi â chyflogau uchel yn helpu i atal aelwydydd rhag mynd i dlodi a chaledi

Cydweithio

- Gweithio gyda Chyngor Sir Powys a Llywodraeth Cymru a'r DU i wneud y defnydd gorau o adnoddau a manteisio ar gyfleoedd
- Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru yn dod ag arweinwyr busnes a rhanddeiliaid ar draws y rhanbarth ynghyd i ddeall y ddarpariaeth sgiliau ac anghenion y farchnad lafur, er mwyn ysgogi buddsoddiad sy'n bodloni gofynion cyflogwyr a'r gweithlu.
- Mae'r Cyngor yn gweithio'n rhagweithiol gyda phartneriaid drwy Is-grŵp Tlodi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion i fynd i'r afael ag achosion ac effeithiau tlodi ar draws y Sir.

Cynnwys

- Mae busnesau'r sector preifat, yr ysgogwyr twf economaidd yn y dyfodol, yn rhan o'r gwaith o nodi blaenoriaethau a strategaethau allweddol
- Mae'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector sy'n ymwneud â llunio rhaglen y Cynllun Twf sy'n dod i'r amlwg
- Ymgymerwyd yn helaeth â datblygiad y Strategaeth Economaidd
- Seiliwyd yr Arolwg Llesiant Rhanbarthol sy'n allweddol o ran llywio'r holl strategaethau lleol ar ymgysylltu helaeth â'r cyhoedd a rhanddeiliaid

Integreiddio

- Mae'r Strategaeth Economaidd yn darparu gweledigaeth a chamau gweithredu a rennir ar gyfer datblygu'r economi leol. Bydd yr ymyriadau a gynhwysir ynddi yn cael eu cyflawni gan amrywiaeth o bartneriaid a rhanddeiliaid dros y 15 mlynedd nesaf.
- Strategaethau twf economaidd wedi'u hintegreiddio â gwasanaethau eraill a ddarperir, gan gynnwys addysg, sgiliau, cynllunio a seilwaith

CYFLAWNIADAU MESUR ALLWEDDOL

£11.8m

o gyllid Bargen Twf Canolbarth Cymru wedi'i ddatgloi i hybu'r economi a chreu swyddi ar draws y rhanbarth

41

swydd newydd wedi creu yn ystod y flwyddyn drwy waith y Cyngor sydd yn cynyddu twf economaidd, yn gwella lles cymdeithasol ac yn creu cyfleoedd i ddatblygu gyrfa.

300+

o gyfranogwyr wedi cefnogi gan Dîm Cymorth Cyflogadwyedd Ceredigion sydd yn helpu i gynyddu cyfleoedd cyflogaeth, a hyrwyddo llesiant

£12.4m

wedi dyrannu i Geredigion yn Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU i fuddsoddi mewn balchder mewn lle a chynyddu cyfleoedd bywyd ar draws y Sir



CREU CYMUNEDAU GOFALGAR AC IACH

CYNNYDD A WNAED YN 2025/26

- Mae Ceredigion wedi ymateb i'r heriau ym maes darparu gofal cymdeithasol trwy symud at gyfuno'r gwasanaethau plant ac oedolion, yr oeddent ar wahân yn flaenorol, mewn un Gwasanaeth Lles Gydol Oes. Mae hyn yn gwaredu rhwystrau adrannol, gan gynnig gwasanaeth gydol oes mwy cyson i ddefnyddwyr, a chan gynnal sgiliau cyffredinol a hyblygrwydd staff.
- Mae'r gwaith o weithredu a chyflawni'r Rhaglen Lles Gydol Oes (TAW) yn parhau wrth i'r broses o drawsnewid gwasanaethau symud yn ei blaen yn dda wrth integreiddio Gofal Cymdeithasol a Dysgu Gydol Oes yn 3 Gwasanaeth - Porth Cymorth Cynnar, Porth Gofal a Phorth Cynnal, y maent, law yn llaw â Chyswllt Cwsmeriaid, yn creu'r 4 prif faes sy'n dod o fewn Rhaglen newid Lles Gydol Oes.
- Yn dilyn agoriad Canolfan Llesiant gyntaf Ceredigion yn Llanbedr Pont Steffan ym mis Hydref 2023, mae cynlluniau yn symud yn eu blaenau am ail ganolfan wedi'i lleoli yn ne'r sir. Cytunodd y Cabinet mai safle Pwll Coffa Aberteifi / Maes Parcio Cae'r Ffair yw'r lleoliad dewisol a bod y syniad o adeilad a adeiladir o'r newydd yn well ganddynt yn hytrach nag ailwampio'r cyfleusterau presennol. Bydd gwaith ar y prosiect yn parhau yn ystod 2026/27.
- Cynhaliwyd Sioe Iechyd a Llesiant Llanbedr Pont Steffan yng Nghanolfan Llesiant Llanbedr Pont Steffan ym mis Chwefror 2026. Cafodd y digwyddiad am ddim hwn ei gynnal gan y Cyngor ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ac roedd yn cynnwys dros 20 o stondinau a gweithgareddau. Roedd trigolion yn gallu cael mynediad at gyngor a gwybodaeth am ddim ar amrywiaeth o bynciau iechyd, gan gynnwys iechyd a llesiant meddyliol, bwyta'n iach a gwasanaethau fferylliaeth, cymorth ar stopio ysmygu a chamddefnyddio sylweddau, a chymorth cyffredinol o ran costau byw.
- Mae Prosiect Canolfan Gofal Integredig Cylch Caron yn parhau i wneud cynnydd ac mae'r Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn parhau i ymrwymo'n llawn â'r prosiect. Mae'r cynllun yn cael ei ail-gwmpasu gydag opsiynau dichonoldeb, cyllid a chaffael diweddaredig. Bydd y camau nesaf yn canolbwyntio ar gytuno'r achos busnes wedi'i adfywio a'r llwybr cyllido gyda Llywodraeth Cymru. Bydd y cynllun arloesol hwn yn cyflwyno canolfan adnoddau iechyd, gofal cymdeithasol a thai integredig ar gyfer Tregaron a'r cymunedau gwledig cyfagos. Mae hyn yn golygu dod â meddygfa meddyg teulu, fferyllfa gymunedol, clinigau cleifion allanol, gwasanaethau nyrsio cymunedol, tai cymdeithasol arbenigol a fflatiau gofal ychwanegol ynghyd ar gyfer unigolion ag anghenion gofal.
- Mae Gwasanaeth Gofal wedi'i Dargedu a Galluogi Ceredigion wedi ymgorffori 'model daearyddol ar sail ardaloedd', sy'n rhannu'r sir yn ardaloedd lleol diffiniedig, y mae pob un ohonynt yn cael ei gydlynu gan Gydlynydd Gwasanaethau wedi'u Targedu a Thymor Byr dynodedig. Mae hyn wedi cryfhau cymorth y gwasanaeth ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty'n brydlon ac osgoi derbyniadau i'r ysbyty. Yn ystod y flwyddyn, darparwyd 354 o becynnau ailalluogi a phontio, sef 74 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol, ac adenillodd 185 o bobl eu hannibyniaeth yn dilyn ailalluogi, sef cynnydd o 35. Mae ailalluogi yn wasanaeth gofal cymdeithasol dwys, tymor byr sydd wedi'i gynllunio i helpu unigolion i adennill yr hyder, y gallu swyddogaethol a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fyw'n annibynnol gartref.
- Mae Tîm Porth Gofal (Ymyrraeth wedi'i Thargedu) Cyngor Sir Ceredigion yn cael ei ehangu er mwyn lleihau oedi ar gyfer trigolion sy'n barod i adael yr ysbyty ond sydd angen cymorth gofal. Sicrhawyd £726,503 mewn cyllid cylchol gan Lywodraeth Cymru, sy'n cael ei ddefnyddio i recriwtio staff gofal cymdeithasol ychwanegol a chryfhau gwasanaethau sy'n cefnogi rhyddhau o'r ysbyty yn brydlon, osgoi derbyniadau i'r ysbyty a byw'n annibynnol gartref.
- Mae'r Cyngor yn parhau i hyrwyddo a hwyluso presgripsiynu cymdeithasol, megis garddio, cerdded a nofio, fel ffordd o gysylltu cleifion gyda gwasanaethau cymorth anfeddygol yn eu cymuned er mwyn gwella eu hiechyd a'u lles.
- Mae rhaglen Tyfu Eich Hun Ceredigion yn parhau i gryfhau'r gweithlu lleol. Ym mis Ionawr 2026, cafodd bum gweithiwr cymdeithasol, a oedd newydd raddio ac a gafodd hyfforddiant trwy'r cynllun, swyddi parhaol o fewn y Sir. Mae hyn wedi helpu i leihau swyddi gwag, lleihau'r ddibyniaeth ar staff asiantaeth a chadw sgiliau o fewn cymunedau lleol. Mae'r rhaglen hefyd yn cefnogi gweithlu mwy cynaliadwy trwy ddatblygu ymarferwyr sy'n deall anghenion lleol, gwasanaethau lleol ac sy'n gallu cynnig cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg, mewn sawl achos.
- Mae Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i ddatblygu ei gymorth i ofalwyr di-dâl yn y sir, ac mae dros 2,600 o ofalwyr sydd bellach wedi cofrestru â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr, sef cynnydd o dros 300 o'r flwyddyn ddiwethaf.
- Ar hyn o bryd, mae 32 cynnig disgownt a seibiant y gall gofalwyr di-dâl gael mynediad atynt yng Ngheredigion trwy eu Cerdyn Gofalwyr. Mae'r Cyngor hefyd yn trefnu digwyddiadau seibiannau gyrfa ac mae wedi partneru â Ceredigion Actif i alluogi gofalwyr i gyrchu ein Canolfannau Llesiant a'n Pyllau Nofio. Yn ystod 2025-2026, fe wnaeth 541 o ofalwyr elwa o'r gwasanaeth hwn, gan ddarparu cymorth a seibiant hanfodol ar gyfer y 7,250 o ofalwyr yn y Sir.
- Yn ystod y flwyddyn, ailsefydlwyd Fforwm Gofalwyr Ceredigion er mwyn sicrhau bod gan bobl o bob oedran blatfform a chyfle i rannu eu barn a'u syniadau i helpu ein gwasanaethau. Mae Fforwm Gofalwyr Ceredigion yn cwrdd bob deufis i gynnig cymorth, gwybodaeth a chyfeillgarwch i ofalwyr di-dâl.
- Dros gyfnod y Nadolig yn 2025, dosbarthwyd 108 o becynnau llesiant i bobl ifanc sy'n agored i niwed. Darparodd y pecynnau offerynnau ymarferol, eitemau synhwyraidd ac adnoddau dyrchafol er mwyn helpu pobl ifanc i deimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi, eu cynnwys a bod rhywun yn gofalu amdanynt yn ystod yr adeg hon o'r flwyddyn.
- Mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn technoleg glyfar i wella gwasanaethau. Er enghraifft, mae ap

Ceredigion Actif yn darparu gwybodaeth ar archebu gweithgareddau mewn cyfleusterau hamdden sy'n eiddo i'r Cyngor. Hyd yn hyn, mae'r ap wedi'i lawrlwytho 3,236 gwaith ac mae ganddo 746 o ddefnyddwyr misol gweithredol.

- Cafwyd presenoldeb o 80,043 ar draws pob rhaglen Ymyrraeth Iechyd yn ystod 2025/26 o gymharu â 70,838 yn ystod 2024/25, sef cynnydd o 14%. Mae rhaglenni Ymyrraeth Iechyd yn cyfeirio at ystod o wasanaethau a gynllunnir i wella iechyd a llesiant pobl, gan ganolbwyntio ar weithgarwch corfforol ac iechyd meddwl. Mae'r rhain yn cynnwys y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS), Ffit am Byth a Cerdded er Lles.
- Ar ddiwedd y flwyddyn, gwnaed cymorth ychwanegol ar gael i drigolion a oedd yn profi argyfwng a chaledi ariannol annisgwyl ac sy'n ddibynnol ar olew gwresogi trwy Gronfa Cymorth Dewisol Llywodraeth Cymru. Nawr, gall aelwydydd cymwys dderbyn hyd at £750 fesul dyfarniad ar gyfer olew gwresogi a chael mynediad at ddau ddyfarniad o fewn cyfnod o 12 mis, gydag o leiaf tri mis rhwng y dyfarniadau.
- Mae'r tîm Polisi Cynllunio wedi ymgymryd â gwaith llunio lleoedd ar draws 13 anheddiad mwy yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26, a fydd yn arwain at gyhoeddi 13 cynllun pendant sy'n cefnogi cydlyniad cymunedol.
- Mae gan Geredigion hanes o gefnogi teuluoedd sy'n ffoi rhag rhyfel, newyn a digartrefedd. Ar ddiwedd 2025/2026, cefnogodd Ceredigion 172 o geiswyr lloches o dan y Cynllun Cartrefi i Wcráin a'r Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan. Mae'r Cynllun Cartrefi i Wcráin yn galluogi trigolion y DU sydd â llety sbâr i noddi gwladolion Wcráin sy'n ffoi rhag y rhyfel i fyw gyda nhw yn y DU, tra bod y Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan yn cynnig cyfleoedd adleoli ac adsefydlu i ddinasyddion Affganistan a weithiodd neu a gynorthwyodd cenhadaeth y DU, neu a ystyriwyd yn agored i niwed.
- Mae pob plentyn a pherson ifanc yng Ngheredigion yn cael cyfleoedd i fynychu gweithgareddau ar ôl ysgol, gyda'r nos ac ar benwythnosau. Er enghraifft, ymgysylltodd 197 o bobl ifanc â gweithgareddau gwyliau strwythuredig ac ymgysylltodd 216 ohonynt â rhaglenni hanner tymor yn ystod 2025/26. Darperir ystod eang o weithgareddau, gan gynnwys chwaraeon, celfyddydau creadigol a phrosiectau digidol.
- Yn ystod 2025/26, roedd Tîm Rhianta a Chefnogaeth i Deuluoedd y Cyngor yn falch o ennill Gwobr Efydd Buddsoddwyr mewn Gofalwyr, gan gydnabod ymrwymiad y tîm i gefnogi gofalwyr o fewn ein gweithlu a'r gymuned ehangach. Mae'r Wobr Efydd yn tynnu sylw at y camau cadarnhaol y mae'r tîm wedi'u cymryd i godi ymwybyddiaeth o anghenion gofalwyr, ymgorffori arferion da a hyrwyddo diwylliant sy'n blaenoriaethu llesiant.
- Ym mis Gorffennaf 2025, llofnododd Tîm Ceredigion yr Addewid Cyflogwr Oed-Gyfeillgar yn swyddogol, sef rhaglen genedlaethol a arweinir gan y Centre for Ageing Better i wella recriwtio, cadw a datblygu gweithwyr hŷn. Credwn na ddylai oedran fyth fod yn rhwystr i gyfleoedd. Trwy lofnodi'r adduned, rydym yn arddangos ein hymrwymiad i greu gweithle cynhwysol a chefnogol ar gyfer pobl o bob oedran.
- Anrhydeddwyd Cyngor Sir Ceredigion â gwobr am gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog. Roedd y Cyngor ymhlith 12 o gyflogwyr i dderbyn Gwobr Aur Cynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn mewn seremoni yn HMS Cambria, Bae Caerdydd. Wedi'i ddyfarnu gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, mae'r Cynllun Cydnabod Cyflogwyr yn cydnabod sefydliadau sy'n cyflogi ac yn cefnogi'r rhai sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, cyn-filwyr a'u teuluoedd yn ffurfiol.
- Bu'r Cyngor yn gweithio gyda Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CMGC/CAVO) i gynnal rhwydwaith o 39 Man Croeso Cynnes ledled y sir. Mae'r lleoliadau hyn, a arweinir gan y gymuned, yn darparu amgylchedd diogel, wedi'i wresogi gyda diodydd a phrydau bwyd poeth ynghyd â gweithgareddau cymdeithasol. Y nod yw dod â chymunedau ynghyd a chefnogi unrhyw un sy'n cael trafferth â'r costau byw uwch, yn enwedig yn ystod y gaeaf.



CYFLAWNIADAU

9,000+

cylchgrawn gofalwyr wedi'i phrintio a'i dosbarthu ar draws Ceredigion

850

gofalwyr di-dâl wedi cymryd ran mewn gweithgareddau hamdden o dan ei darpariaeth seibiannau i ofalwyr

80,043

presenoldeb ar draws yr holl rhaglennu Ymyriadau Iechyd

43

dosbarth gweithgareddau bob wythnos ar draws yr holl gyfleusterau hamdden

1,135

aelodau misol o Ceredigion Actif, sy'n helpu pobl i fod yn gorfforol egnïol fel y gallant elwa ar iechyd a lles cadarnhaol

1,245

camau gorfodi diogelu'r cyhoedd a gymerwyd i wella llesiant ac iechyd cyhoeddus pobl a chymunedau

126

pobl ifanc wedi'i cefnogi mewn lleoliadau gwledig a chymunedol drwy ddarpariaeth ieuenctid symudol ac allgymorth

583

Cwsmeriaid yn cael eu cefnogi gan wasanaeth Teleofal Ceredigion a 105 yn cael eu cefnogi gyda Thechnoleg Gynorthwyol

£279,548

o cyllid grant wedi darparu i sefydliadau cymunedol i wella'r ddarpariaeth

20

ymgyrchoedd ymgysylltu ac ymgynghori wedi'i rhedeg i recordio barnau preswylwyr

GWELLA CANLYNIADAU

CEFNOGI ANNIBYNIAETH POBL

Bellach yn ei hail flwyddyn, mae Canolfan Byw'n Annibynnol Penmorfa yn parhau i gefnogi unigolion i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol gartref am hirach.

Mae'n gwneud hyn trwy ddarparu'r cyfle i weld ystod o ddatrysiadau sy'n gysylltiedig â Gofal, Technoleg, Symudedd a Byw'n Annibynnol. Ond, mae hefyd yn hwb cymunedol, lle gall pobl gysylltu ag arbenigwyr trwy sesiynau galw heibio, gweithdai ac arddangosiadau rheolaidd.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn cynyddu ymwybyddiaeth o offer asesu, technoleg gynorthwyol a theleofal, yn ogystal â chynyddu'r defnydd ohonynt.

Er enghraifft, cwblhaodd y rhaglen "Just Checking" 100 o asesiadau galluogi gofal trwy dechnoleg, gan gynhyrchu 68 atgyfeiriad a 56 gosodiad o'r system monitro gofal.

Yn ystod 2025/26, cefnogodd y Ganolfan 1,744 o ymwelwyr – cynnydd o 744 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Hefyd, derbyniodd 583 o bobl wasanaeth teleofal, sef 349 yn fwy na'r llynedd. Mae'r gwasanaetha teleofal yn cysylltu defnyddwyr â chanolfan fonitro 24/7, gan ddarparu cymorth ar unwaith mewn argyfwng.

Yn ogystal â hyrwyddo a chefnogi byw'n annibynnol, mae'r datrysiadau arloesol a gynigir yn helpu pobl i reoli eu hiechyd a gwella ansawdd eu bywydau, ac mae'n trawsnewid y ffordd y mae unigolion yn dod o hyd i ddatrysiadau a chael mynediad at gymorth.

BUDDSODDI MEWN HAMDDEN A CHWARAEON

Yn ystod 2025/26, ailwampiwyd Canolfan Hamdden Geraint Evans yn Aberaeron. Cyflawnwyd gwaith, a ddaeth i gyfanswm o £331,000, rhwng mis Awst a mis Hydref 2025 i osod llawr newydd, addurno'r neuadd chwaraeon a gwella'r ystafell ffitrwydd. Daeth hyn ar ôl ailwampio'r cyfleusterau toiled a chawod hygyrch yn gynharach yn y flwyddyn.

Cefnogwyd y gwelliannau gan gyllid grant Chwaraeon Cymru gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â chyllid gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU a Chyngor Sir Ceredigion.

Roedd y gwaith ailwampio'n cynnwys llawr newydd yn y neuadd chwaraeon, goleuadau LED, ail-ddodrefnu a marciau llinell newydd ar gyfer Boccia a Phêl-bicl, sef y tro cyntaf ar gyfer cyfleusterau a weithredir gan y cyngor.

Ymwelodd Jack Sargeant AS, Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, â'r ganolfan ym mis Rhagfyr 2025, a dywedodd: "mae'n wych i weld sut mae buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru yn gwneud gwahaniaeth go iawn i gymunedau yng Ngheredigion."

Heblaw am drawsnewid y ganolfan hamdden i fod yn ofod modern a hygyrch, mae'n ehangu cyfleoedd chwaraeon lleol, yn gwella amgylcheddau ffitrwydd ac yn meithrin iechyd y cyhoedd gwell yn gyffredinol.

Mae'r gwelliannau'n darparu ar gyfer pob defnyddiwr, gan gynnwys trigolion sy'n defnyddio rhaglenni ymyrraeth iechyd, ac maen nhw'n annog mwy o bobl yn y sir i fyw bywydau actif ac iach.

GWELLA LLESIANT CORFFOROL, MEDDYLIOL A CHYMDEITHASOL TRIGOLION CEREDIGION

Mae model Llesiant Gydol Oes (TAW) Ceredigion wrth wraidd ein dull gofal cymdeithasol, gan ganolbwyntio ar baratoi, ymyrraeth gynnar a helpu pobl i aros yn annibynnol am gyn hired â phosibl.

Cydnabuwyd y dull yn gadarnhaol yn ystod arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ym mis Mai 2025. Rhoddodd AGC ganmoliaeth i ymrwymiad y Cyngor i ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, arweinyddiaeth amlwg ac ymatebol, a bod â gweledigaeth glir ar gyfer gwelliant parhaus.

Tynnodd yr arolygwyr sylw at y ffocws ar atal, gwydnwch cymunedol, a chymhwyso dulliau ar sail cryfderau'n effeithiol sy'n sicrhau bod lleisiau, dewisiadau a blaenoriaethau pobl yn llunio'r cymorth y maen nhw'n ei gael.

Cadarnhaodd yr arolygiad ddeilliannau cryf a bod cynnydd cryf wedi'i wneud, gyda'r model TAW yn cael ei gyflwyno o fewn y gyllideb ar gyfer 2024/25, gan ddangos cynaliadwyedd a gwerth am arian.

Ar ben hynny, llwyddodd cartrefi gofal y Cyngor i gynnal sgoriau o 'Da' neu 'Ardderchog', ac fe gryfhawyd capasiti'r gweithlu trwy recriwtio chwe gweithiwr cymdeithasol ychwanegol.

Mae ffocws strategol yr Awdurdod ar atal yr angen am ofal statudol hirdymor a meithrin gwydnwch mewn cymunedau lleol fel cryfder allweddol.

Daeth AGC i'r casgliad bod gan y Cyngor sylfeini cryf, diwylliant cadarnhaol o ddysgu a llesiant, a thrywydd clir ar gyfer gwelliant pellach mewn deilliannau i bobl ifanc sydd angen gofal a chymorth.

Bellach yn ei bumed flwyddyn, mae'r model Llesiant Gydol Oes wedi galluogi Ceredigion i gyflawni nifer o amcanion. Mae'r ffocws ar gymorth ataliol yn helpu i **hyrwyddo annibyniaeth**, yn **cryfhau gwydnwch cymunedol** ac yn **lleihau'r angen am ymyrraeth statudol tymor hwy**.

Mae gwell mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth yn cefnogi oedolion, plant a theuluoedd i **feithrin gwydnwch**, **cynnal annibyniaeth** a chyflawni'r amcanion sydd bwysicaf iddynt.

Mae'r dull yn hyrwyddo llais cryfach, dewis a rheolaeth, gan **rymuso unigolion, gofalwyr a chymunedau i chwarae rôl weithredol mewn adnabod datrysiadau a chefnogi llesiant.**

Yn weithredol, mae'r model hefyd wedi cyfrannu at **weithio cryfach mewn partneriaeth** ledled y Sir ac wedi gwella capasiti'r gweithlu trwy "dyfu" ei weithwyr cymdeithasol ei hun er mwyn cynyddu capasiti a chefnogi'r galw.

DARPARU DATBLYGU CYNALIADWY

Asesiad cyffredinol o'r daith hyd yn hyn

Mae cynnydd wrth fodloni'r flaenoriaeth hon yn ***dda*** ac mae'r rhagolygon gwella hefyd yn ***dda***.

Adlewyrchodd yr arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru mwyaf diweddar yn gadarnhaol ar y rhaglen Llesiant Gydol Oes sy'n trawsnewid gofal cymdeithasol yng Ngheredigion. Mae'r Ganolfan Byw'n Annibynnol yn ehangu ei gwasanaethau ac yn cefnogi nifer cynyddol o gwsmeriaid, tra bod y Cyngor yn parhau i ddarparu cymorth penodedig i ofalwyr di-dâl y Sir.

Mae buddsoddi mewn cyfleusterau hamdden a'u hailwampio, ynghyd â'r prosiect parhaus i sefydlu ail ganolfan lesiant yn ne'r sir, yn arddangos cynnydd tuag at ddarparu gwasanaethau modern, hygyrch a chynaliadwy i bob un o drigolion Ceredigion gynnal ffyrdd o fyw actif ac iach.

YN BERCHEN AR EIN HUCHELGAIS

MWYHAU EIN CYFRANIAD AT Y NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL

Mae'r nod llesiant corfforaethol **Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach** yn cefnogi'r nodau llesiant cenedlaethol canlynol. ▶

- Llewyrchus
- Cydnerth
- Iachach
- Mwy Cyfartal
- Cydlynus
- Diwylliant
- Byd-eang

Hirdymor

- Mae Model Gydol Oed yn ymwneud â chynllunio hirdymor i sicrhau gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer y 15 mlynedd + nesaf
- Mae Tueddiadau'r Dyfodol, megis newid demograffig wedi'u defnyddio yn y Model
- Mae'r Strategaeth Llesiant Trwy Oedran yn cwmpasu cyfnod o chwe blynedd o 2021 i 2027
- Rhagwelir y bydd yr adferiad o'r pandemig yn para am nifer o flynyddoedd ac mae ein cynlluniau i wella llesiant corfforol a meddyliol yn cymryd agwedd hirdymor at gefnogaeth i ymateb

Atal

- Mae'r Model Gydol Oed yn darparu dull cydgysylltiedig o ymdrin â gofal cymdeithasol er mwyn atal, lleihau neu ohirio'r angen am gymorth parhaus, a chaniatáu i bobl aros yn eu cartrefi eu hunain.
- Mae atal digartrefedd a hyrwyddo annibyniaeth yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor a dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â digartrefedd
- Mae Datblygu'r Canolfannau Llesiant yn cefnogi'r uchelgais i greu cymunedau iach
- Fel rhan o'i waith atal, mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn rhoi cydnabyddiaeth lawn a chefnogaeth i ofalwyr drwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer seibiant o'u rôl heriol 24/7.

Cydweithio

- Mae'r Bwrdd Iechyd, y Cyngor a phartneriaid y Trydydd Sector yn cydweithio i roi rhaglenni iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar waith ar draws gorllewin Cymru
- Mae cyfarfodydd monitro tensiwn wythnosol aml-asiantaeth yn mynd i'r afael ag arwyddion cynnar tensiynau cymunedol trwy ymyrraeth gynnar ac atal.

Cynnwys

- Mae cefnogi llesiant corfforol ac emosiynol pobl yn effeithio ar bob un o'r Nodau Llesiant cenedlaethol ac yn helpu i adeiladu cymunedau cryfach a mwy llewyrchus
- Roedd yr Amcan o greu cymunedau gofalgar ac iach yn cynnwys canfyddiadau o'r Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion ac ymgynghoriad helaeth

Integreiddio

- Mae sectorau cyhoeddus a phreifat yn gweithio gyda'i gilydd i wneud y cyfraniad mwyaf posibl at Gymru Iachach a nodau eraill
- Mae cefnogi llesiant corfforol ac emosiynol pobl yn effeithio ar bob un o'r Nodau Llesiant cenedlaethol ac yn helpu i adeiladu cymunedau cryfach a mwy gwydn

CYFLAWNIADAU MESUR ALLWEDDOL

100%

o gleientiaid yn adrodd gwelliant mewn lles corfforol neu emosiynol trwy gymryd rhan mewn Rhaglenni Ymyrraeth Iechyd

85.1%

o'r rhai sy'n derbyn seibiannau gofalwyr wedi adrodd fod eu llesiant wedi gwella, yn fwy na'r targed o 70%

83.3%

o bobl a ddefnyddiodd Wasanaethau Porth Tai'r Cyngor wedi cyflawni annibyniaeth fwy, yn fwy na'r targed o 80%

185

person wedi adennill eu hannibyniaeth yn dilyn adfer gallu, cynnydd o 35 i gymharu â'r flwyddyn flaenorol



DARPARU'R DECHRAU GORAU MEWN BYWYD A GALLUOGI BOBL O BOB OED I DDYSGU

CYNNYDD A WNAED YN 2025/26

- Mae'r Cyngor yn parhau i foderneiddio sefydliadau addysg. Enillodd Ysgol newydd Dyffryn Aeron, sy'n darparu'r cyfleusterau dysgu mwyaf modern ar gyfer disgyblion, wobr bellach yn ystod y flwyddyn - 'Prosiect y Flwyddyn – Dyluniad Cynhwysol' yng Ngwobrau Adeiladau Addysg Cymru i gydnabod integreiddio cyfleusterau dysgu arbenigol i fod yn gampws arloesol a hygyrch.
- Mae mentrau eraill o fewn y Sir yn symud yn eu blaenau – cymeradwywyd yr Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer y prosiect Ysgol Gymraeg gan Lywodraeth Cymru, gyda chyllid wedi'i sicrhau i adeiladu estyniad yn yr ysgol a'i hailwampio, gan ddarparu canolfan trochi iaith newydd a galluogi'r ysgol i symud y cabanau symudol dros dro ymaith. Mae disgwyl i'r Ganolfan Trochi Iaith a'r ysgol agor ym mis Medi 2027.
- Mae'r prosiect i ailwampio ac ad-drefnu Ysgol Llwyn yr Eos i ehangu a gwella darpariaeth ADY ar gyfer Dysgu Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 hefyd yn symud yn ei flaen. Cymeradwywyd yr Achos Amlinellol Strategol gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2026, a bydd y prosiect nawr yn symud trwy'r camau Achos Busnes Amlinellol ac Achos Busnes Llawn yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn sicrhau cyllid ar gyfer y prosiect.
- Mae system addysg Ceredigion yn parhau i gael ei hystyried ymhlith y rhai mwyaf llwyddiannus yng Nghymru. Mae'r ganran o oedolion oedran gweithio sydd wedi cymhwyso ar lefel 2 yn 89.6% yng Ngheredigion, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yng Nghymru, sef 87.1%. Mae cymwysterau lefel 2 yn golygu pump TGAU ar raddau A-C neu'n uwch, neu gyfwerth â hynny.
- Mae canlyniadau arolygiadau ar gyfer ysgolion Ceredigion wedi bod yn gryf yn ystod 2025/26. Roedd pob un o'r 36 o adroddiadau arolwg ac adroddiadau interim a gyhoeddwyd gan Estyn yn adlewyrchu'n gadarnhaol ar yr ysgol a arolygwyd, ac nid oedd angen i unrhyw un o ysgolion Ceredigion gyflawni mesurau dilynol.
- Derbyniodd 6 o ysgolion Ceredigion "sbotoleuadau" am arferion da yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gan Estyn, yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant. Mae'r rhain yn enghreifftiau o ymarfer arloesol ac effeithiol o fewn addysgu, arweinyddiaeth a llesiant.
- Mae menter arloesol e-sgol wedi parhau i ddarparu cymorth arweiniol i'r sector ar gyfer y ddarpariaeth addysg yng Ngheredigion ac yn genedlaethol. Mae e-sgol yn fenter dysgu cyfunol i gynnig cyfleoedd dysgu ac addysgu ar-lein gan ddefnyddio dulliau dysgu uniongyrchol, rhyngweithiol ac amser real. Ariannir y prosiect gan Lywodraeth Cymru a chaiff ei gydlynu yn genedlaethol gan Gyngor Sir Ceredigion. Hyd yma, mae 243 o ysgolion ledled Cymru wedi cymryd rhan gan ymgysylltu â 12,900 o ddisgyblion.
- Mae pob Ysgol yng Ngheredigion yn gallu troi at Strategaeth Tegwch ac Amddifadedd Ceredigion, ac mae bron pob ysgol a arolygwyd wedi cael sylwadau cadarnhaol ynghylch y cymorth ar gyfer dysgwyr difreintiedig a'r cyllid a gaiff ei neilltuo i gynorthwyo hyn.
- Roedd dros 2,250 o bobl ifanc yng Ngheredigion wedi cymryd rhan ym mhleidlais 2025 'Rhoi dy Farn' a drefnwyd gan Wasanaeth Ieuenctid Ceredigion er mwyn pleidleisio am bynciau a fydd yn siapio blaenoriaethau'r Cyngor Ieuenctid yn ystod y flwyddyn. Y prif themâu a godwyd gan bobl ifanc yn ystod y digwyddiad oedd swyddi a chyfleoedd gyrfa, atal trais yn erbyn menywod a merched, a gwelliannau i wasanaethau iechyd meddwl. Mae hwn yn un o'r gweithgareddau a gefnogir gan y Cyngor fel rhan o'i ymrwymiad i sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed.
- Ymgysylltodd dros 400 o bobl ifanc â gweithgareddau ymgynghori a datblygu ar y cyd ledled Ceredigion. Mae gwaith y Cyngor Ieuenctid ac ymgyrchoedd a arweinir gan bobl ifanc yn dylanwadu ar wneud penderfyniadau yn lleol.
- Mae Cered, y fenter iaith Gymraeg, yn parhau i gynorthwyo, dylanwadu a datblygu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yng Ngheredigion. Maent yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweinyddiaeth er mwyn sicrhau bod yr iaith yn ffynnu a'i bod yn parhau i fod yn iaith greiddiol a bod ganddi rôl ganolog yng nghymunedau Ceredigion.
- Gwnaed cais llwyddiannus am gyllid cydweithredol i Lywodraeth Cymru gyda Chyngor Sir Gâr. Mae Cyngor Sir Penfro a Chyngor Sir Powys wedi symbylu prosiect i ddatblygu Strategaeth Diwylliant Rhanbarthol a Chynllun Blaenoriaeth Ddiwylliannol ar gyfer Ceredigion. Mae'r prosiect yn anelu at gryfhau cyfleoedd diwylliannol, gosod gweledigaeth gyffredin ar gyfer y dyfodol tra'n alinio â Blaenoriaethau Cenedlaethol ar gyfer Diwylliant Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Bydd y gwaith yn dechrau yn ystod 2026/27.
- Dechrau'n Deg yn cefnogi ac yn monitro'r holl Gylchoedd Meithrin, Meithrinfeydd Dydd a Grwpiau Chwarae yn y sir ac yn sicrhau bod pob aelod o staff yn cael cynnig hyfforddiant i wella ansawdd eu darpariaeth ynghyd â'r Tîm Gofal Plant, sy'n cynnig hyfforddiant gorfodol.
- Mae Ceredigion yn rhan o'r prosiect "Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion", gyda phob ysgol yng Ngheredigion yn gweini llysiau organig a dyfir yng Nghymru fel rhan o'u ciniawau ysgol. Tyfir y rhan fwyaf o'r llysiau o fewn y sir ei hun. Yn 2025, gweinodd ysgolion Ceredigion 2,537kg o lysiau o Castell Howell, y swm mwyaf o unrhyw sir yng Nghymru, gan ddarparu prydau iach a

maethlon i ddisgyblion tra'n tyfu sector garddwriaeth Cymru.

- Roedd 98 o ddysgwyr ar y rhaglen brentisiaeth, sy'n helpu dysgwyr i gyfuno profiad gwaith ymarferol â chymwysterau galwedigaethol.
- Cafodd 78 aelod o staff y Cyngor fynediad at hyfforddiant "Cymraeg yn y Gweithle" yn ystod 2025-26 er mwyn dysgu neu wella eu sgiliau iaith Gymraeg.
- Darperir hyfforddiant ar Safonau'r Gymraeg fel rhan o'u rhaglen ymsefydlu. Mae pob aelod o staff yng nghanolfan gyswllt y Cyngor, "CLIC", yn gallu ymateb i ymholiadau trwy gyfrwng y Gymraeg, gan sicrhau y gall y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pob Defnyddiwr Gwasanaeth fod yn eu dewis iaith. Yn yr "Arolwg Pobl" i staff a gynhaliwyd yn ystod 2025/26, roedd 96.8% o staff yn teimlo eu bod nhw'n cael cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn ystod eu diwrnod gwaith.
- Ym mis Mehefin 2025, cynhaliodd y Cyngor ei Gynhadledd Iaith Gymraeg gyntaf gyda dros 60 o bobl yn bresennol o bob cwr o Gymru. Y gynhadledd hon oedd y cyntaf o'i math ac fe roddodd y cyfle i ddathlu llwyddiannau'r Iaith Gymraeg yng Ngheredigion, ystyried ymdrechion parhaus y Cyngor i hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn y Sir, ac ystyried y cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Roedd y siaradwyr gwadd yn cynnwys Comisiynydd y Gymraeg, Efa Gruffudd Jones.
- Cyflawnwyd 83 cymhwyster gan bobl ifanc yng Ngheredigion trwy weithdai gwaith ieuenctid. Cyflawnwyd y rhain trwy gyflwyno sgiliau bywyd, gweithdai cyflogadwyedd a chyfleoedd dysgu anffurfiol.
- Cefnogir plant a phobl ifanc sydd wedi'u nodi i fod mewn perygl o waharddiad ac ymddieithriad i gael mynediad at raglenni a gweithgareddau dysgu anffurfiol strwythuredig er mwyn cefnogi eu cyrhaeddiad. Yn ystod y flwyddyn, cefnogwyd 57 o bobl ifanc a nodwyd eu bod mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, ac fe ail-ymgysylltwyd â 32 o bobl ifanc i fynd i mewn i fyd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.
- Mae'r Cyngor yn darparu ystod eang o weithgareddau sy'n cefnogi datblygiad cymdeithasol, emosiynol a chorfforol pobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys clybiau ieuenctid a gweithgareddau allgymorth, sy'n darparu mynediad at fannau diogel a chefnogol. Er enghraifft, yn ystod y flwyddyn, cymerodd 197 o bobl ifanc ran mewn rhaglenni gwyliau strwythuredig.
- Yn Ebrill 2025, cynhaliwyd Asesiad Digonolrwydd Chwarae newydd, a datblygwyd Cynllun Gweithredu Chwarae Ceredigion 2025-28. Mae'r ddyletswydd statudol hon yn mynnu bod pob awdurdod lleol yn asesu argaeledd ac ansawdd cyfleoedd chwarae i blant yn eu hardal bob tair blynedd. Ers yr Asesiad diwethaf, mae'r Cyngor wedi cydweithio â phartneriaid a chymunedau i wella cyfleoedd chwarae ar draws y sir. Mae'r Asesiad yn nodi'r cynlluniau i wella'r ddarpariaeth chwarae dros y dair blynedd nesaf hefyd.
- Fel rhan o'n hymrwymiad i greu a gwella mannau chwarae yng Ngheredigion, dyfarnwyd Grantiau Cyfalaf Gwella Chwarae i 12 sefydliad gyda chyllid Llywodraeth Cymru a dyfarnwyd 11 grant arall trwy'r gronfa Balchder Bro. Y nod yw helpu pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth, a'u hyder i fod yn actif yn gorfforol.
- Mae nofio ysgol wedi cael ei wneud ar gael i bob ysgol gynradd ac uned Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y sir. Derbyniodd 624 o blant wersi nofio cymunedol mewn pyllau nofio a weithredir gan y Cyngor yn 2025/26, sy'n gynnydd pellach o 2% o gymharu â 2024/25.



9,220

dysgwyr wedi'i cefnogi ar draws 36 Ysgol Gynradd, 3 Ysgol Ganol, 4 Ysgol Uwchradd ac 1 Uned Cyfeirio Disgyblion

60+

o bobl ifanc yn mynychu clybiau ieuenctid wythnosol ar draws darpariaeth gymunedol

104

person ifanc wedi cael cymorth gan weithwyr ieuenctid mewn ysgolion

99.3%

o bobl sy'n mynychu rhaglenni rhiant yn adrodd eu bod wedi elwa o bresenoldeb

340

person ifanc wedi'i hatgyfeirio neu eu cyfeirio a'u dyrannu i Weithiwr Ieuenctid arweiniol trwy ein Tîm Llwybrau cymorth

154

person ifanc wedi'i cefnogi gan y Tîm Gwaith Ieuenctid yn y gymuned, gan gynnwys rhaglenni ataliol a chymorth ôl-16

132

plentyn ychwanegol wedi elwa o'r ardal ehangu Dechrau'n Deg ar gyfer gofal i blant 2 mlwydd oed

90%

o blith disgyblion Canolfan Eos ac Uned Cyfeirio Disgyblion Canolfan Aeron wedi ennill gymwysterau priodol

82,471

ymwelwyr i lyfrgelloedd y Sir, ynghyd a 11,832 sesiwn cyfrifiadurol mynediad cyhoeddus

394,508

adnoddau ffisegol ac 'e-adnoddau' a gyhoeddir gan Wasanaeth Llyfrgell Ceredigion

GWELLA CANLYNIADAU

BUDDSODDI YN EIN DYFODOL ADDYSG

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, prynodd Cyngor Sir Ceredigion Fferm Llettytwppa (ger Llanbedr Pont Steffan) i'w thrawsnewid i ganolfan addysgol galwedigaethol ymarferol i fyfyrwyr 16+ oed.

Mae'r prosiect yn rhan o weledigaeth ehangach i gefnogi economi wledig Ceredigion trwy gynnig cyrsiau sy'n adlewyrchu anghenion diwydiannau amaethyddol, garddwriaethol a diwydiannau perthnasol.

Wedi'i reoli gan Hyfforddiant Ceredigion Training, bydd y safle'n cynnwys prentisiaethau Lefel 2 a Lefel 3, ynghyd â chyrsiau ymarferol ar bynciau megis y defnydd diogel o beiriannau, mecaneg, a ffermio amaethyddol o fis Medi 2026 ymlaen.

Yn ystod 2025/26, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu Ilwyddiannus i hyrwyddo'r safle ac arddangos y cyrsiau sydd ar gael. Ym mis Rhagfyr 2025, cafodd 160 o ddisgyblion blwyddyn 10-13 yng Ngheredigion flas ar yr hyn sydd gan Fferm Llettytwppa i'w gynnig yn ystod dau ddiwrnod agored, gan gymryd rhan mewn amrywiaeth o ymarferion ymarferol.

Bydd y prosiect cyffrous hwn yn darparu **hyfforddiant galwedigaethol gwell** ac yn **sefydlu prentisiaethau amaethyddol** ar gyfer pobl ifanc a dysgwyr gydol oes fel ei gilydd. Bydd yn cefnogi'r economi wledig trwy ddarparu'r **sgiliau a'r hyfforddiant** sydd eu hangen i gefnogi un o brif sectorau Ceredigion.

O ganlyniad i hynny, mae'n creu **cyfleoedd hyfforddiant** ac opsiynau gyrfa pellach i bobl leol, yn enwedig pobl ifanc sy'n dechrau eu gyrfaoedd, i **aros, dysgu a llwyddo yn eu cymunedau lleol.**

HYBU'R IAITH GYMRAEG

Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi datblygu'r ddarpariaeth o addysg cyfrwng Cymraeg ymhellach mewn pum ysgol gynradd yng Ngheredigion.

Roedd y flwyddyn gyntaf o weithredu'n llwyddiannus iawn ym mhedair ysgol ar lefel Meithrin, lle gwnaeth y disgyblion ymaddasu'n dda iawn i'r newid.

Ers mis Medi 2025, mae'r ddarpariaeth wedi'i hymestyn i gynnwys pob disgybl pedair oed mewn pum ysgol gynradd. O ganlyniad i hynny, mae pob disgybl tair a phedair oed ym mhob ysgol yng Ngheredigion bellach yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd y rhaglen dreigl hon yn parhau i symud ymlaen i mewn i grwpiau oedran hŷn yn unol â'r cynllun gweithredu a gytunwyd.

Tynnodd arolygon Estyn diweddar mewn dwy o'r ysgolion sylw at ymarfer llwyddiannus o ran gweithredu a datblygu'r iaith Gymraeg.

Mae tystiolaeth yn dangos bod addysg ddwyieithog yn cefnogi **cyflawniad academaidd cryf** ac yn agor **cyfleoedd gyrfa newydd** wrth i gyflogwyr ledled Cymru chwilio am staff dwyieithog yn weithredol. Yn ddiwylliannol, mae ymwybyddiaeth gryfach o ddiwylliant, hanes a hunaniaeth Cymru yn **meithrin hyder diwylliannol** a **chydlyniant cymunedol**. Yn genedlaethol, mae'n cefnogi nod Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru o **feithrin cenedl hyderus, ddwyieithog** trwy ddyblu'r defnydd dyddiol o'r iaith Gymraeg a chyrraedd 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg.

MODERNEIDDIO CYFLEUSTERAU LLYFRGELL

Ym mis Tachwedd 2025, adleolwyd Llyfrgell Aberaeron i Benmorfa, ar lawr gwaelod adeilad y Cyngor.

Mae'r lleoliad newydd yn darparu cyfleusterau modern a hygyrch, wedi'u dylunio i ddiwallu anghenion defnyddwyr llyfrgelloedd o bob oedran yn well. Mae'n cynnwys detholiad ehangach o lyfrau ac adnoddau, gan gynnwys argraffydd 3D ac ardal Gofod Gwneud pwrpasol, ardaloedd cyfforddus ar gyfer darllen ac astudio, a digon o le i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol.

Mae'r gofod llyfrgell ar ei newydd wedd eisoes yn profi i fod yn hwb bywiog ar gyfer dysgu, creadigrwydd a chysylltiad cymunedol.

Fe'i datblygwyd gyda chymorth Grant Trawsnewid Llywodraeth Cymru o £212,000 ac mae'n arddangos ymrwymiad y Cyngor i greu cyfleusterau modern, hygyrch sy'n gwasanaethu pawb.

Yn ogystal â darparu **cyfleusterau modern a hygyrch**, mae'r llyfrgell newydd ar agor am hirach, mae ganddi fwy o le parcio ac, yn gyfleus, mae wedi'i **lleoli yn yr un man â chyfleusterau eraill**, gan gynnwys y Ganolfan Byw'n Annibynnol a gwasanaethau wyneb yn wyneb y Cyngor.

Mae'n helpu i **adeiladu cymunedau cryfach** lle mae gan bawb fynediad at gyfleoedd dysgu a diwylliannol ardderchog. Mae'r cynilion cyllidebol a gyflawnir trwy'r adleoliad a chostau rhedeg llai yn sicrhau bod y cyfleuster newydd hefyd yn **gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.**

DATBLYGU SGILIAU A HYDER

Mae Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion yn chwarae rôl hanfodol wrth gefnogi pobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau, yr hyder a'r gwydnwch sydd eu hangen arnynt i wneud cynnydd mewn dysgu ac ennill cyflogaeth.

Er enghraifft, trwy waith ieuenctid wedi'i dargedu, enillodd 83 o bobl ifanc gymwysterau achrededig yn ystod 2025/26, gyda 27 ohonynt yn symud ymlaen at addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Ar ben hynny, cefnogodd gwaith ieuenctid yn yr ysgol a'r gymuned bobl ifanc a oedd mewn perygl o ymddieithrio. Cefnogwyd 32 person ifanc yn ôl i mewn i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant trwy gymorth wedi'i deilwra. Roedd hyn yn cynnwys rhaglenni megis "Ysbrydoli", sy'n darparu cyfleoedd dysgu hyblyg ac anffurfiol sy'n canolbwyntio ar sgiliau bywyd, llesiant a chyflogadwyedd.

Mae systemau adnabod cynnar cryf yn sail i'w gwaith. Sicrhaodd hyn fod y 57 o bobl ifanc a nodwyd eu bod mewn perygl o ddod yn NEET (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) wedi derbyn cymorth cydgysylltiedig.

Mae ymgysylltu â'r gwasanaeth yn **datblygu sgiliau bywyd** a **chyfleoedd datblygiad personol** i fagu hyder a meithrin annibyniaeth. Mae hefyd yn darparu mannau diogel i gymdeithasu a bod yn greadigol, **lleihau ymddygiad gwrth-gymdeithasol** a **hyrwyddo dewisiadau cadarnhaol**. Mae'n rhoi llais i bobl ifanc trwy Gyngor Ieuenctid Ceredigion, gan eu **grymuso nhw i gymryd rhan wrth wneud penderfyniadau** a **dylanwadu ar y gwasanaethau sydd ar gael iddynt**.

Asesiad cyffredinol o'r daith hyd yn hyn

Mae cynnydd wrth fodloni'r amcan hwn yn ***dda*** ac mae rhagolygon gwella yn ***dda.***

Mae canlyniadau arolygiadau Estyn yn dangos nad oes unrhyw un o ysgolion Ceredigion yn destun mesurau dilynol a bod gan wasanaethau addysg lawer o barch yn y Sir.

Mae'r gwasanaeth Ieuenctid wedi bod yn gyfrwng i gefnogi datblygiad personol pobl ifanc, magu hyder ac agor llwybrau gyrfa. Mae Ceredigion yn parhau i fod â chyfran uchel iawn o ddisgyblion sy'n gadael ysgol ac yn symud ymlaen at addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Mae agor Llyfrgell newydd Aberaeron ym Mhenmorfa yn darparu ystod o gyfleusterau gwell ac mae'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Mae cynlluniau pellach cyffrous ar ddod gyda datblygiad hyfforddiant galwedigaethol yn Fferm Llettytwppa, gan gefnogi'r sectorau amaethyddiaeth a garddwriaeth yng Ngheredigion.

YN BERCHEN AR EIN HUCHELGAIS

MWYHAU EIN CYFRANIAD AT Y NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL

Mae'r nod llesiant corfforaethol **Darparu'r Dechrau Gorau mewn Bywyd a Galluogi Pobl o bob oed I Ddysgu** yn cefnogi'r nodau llesiant cenedlaethol canlynol. ▶

- Llewyrchus
- Cydnerth
- Iachach
- Mwy Cyfartal
- Cydlynus
- Diwylliant
- Byd-eang

DARPARU DATBLYGU CYNALIADWY

Hirdymor

- Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Ceredigion yn strategaeth 10 mlynedd i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg a gweithio tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg ledled Cymru erbyn 2050.
- Rhagwelir y bydd yr adferiad o'r pandemig yn para am nifer o flynyddoedd ac mae ein cynlluniau i fynd i'r afael â thlodi yn cymryd agwedd hirdymor
- Mae gwelliannau i ysgolion yn darparu cyfleusterau gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol o ddysgwyr

Atal

- Mae cefnogi pob dysgwr yn helpu i roi gwell cyfleoedd dysgu a gyrfa iddynt
- Bydd gweithio i godi lefelau incwm ar draws y Sir yn helpu i atal tlodi mewn gwaith
- Mae cefnogi pobl trwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor neu Daliadau Tai Dewisol yn elfennau allweddol o gymorth ariannol i aelwydydd drwy'r argyfwng costau byw ac i atal eu sefyllfa rhag gwaethygu.

Cydweithio

- Gweithio gyda'r Trydydd Sector i ddarparu cymorth iechyd meddwl i bobl ifanc yn dilyn pandemig COVID-19
- Bydd gweithio gyda phartneriaid i gyflawni'r Strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Gorllewin Cymru yn helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bobl ifanc Ceredigion.
- Cefnogi darpariaeth Cinio Ysgol am Ddim i ddisgyblion ysgolion cynradd ac ariannu gofal plant i bob plentyn dwy oed
- Mae'r Cyngor yn gweithio'n rhagweithiol gyda phartneriaid drwy Is-gr□p Tlodi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion i fynd i'r afael ag achosion ac effeithiau tlodi ar draws y Sir.

Cynnwys

- Mae cefnogi Cyngor Ieuenctid Ceredigion fel fforwm i blant a phobl ifanc yn sicrhau bod lleisiau pobl ifanc ledled Ceredigion yn cael eu clywed

Integreiddio

- Bydd darparu'r dechrau gorau mewn bywyd yn cael effaith gadarnhaol ar bob un o'r Amcanion Llesiant Corfforaethol a'r Nodau Llesiant Cenedlaethol.
- Mae gwell sgiliau a swyddi yn cynyddu lefelau incwm ac felly'n galluogi'r economi leol i dyfu
- Mae Rhaglen Arfor i gefnogi a chryfhau'r cysylltiadau rhwng twf economaidd a'r Gymraeg hefyd yn cryfhau pob un o'r pedair piler llesiant (economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol)

CYFLAWNIADAU MESUR ALLWEDDOL

93.1%

o ddisgyblion blwyddyn 13 sy'n gadael ysgol, mewn addysg, hyfforddi neu cyflogaeth, uwchben y cyfartaledd cenedlaethol (92.9%)

70.9%

o ddisgyblion yn cael ei addysgu yn y Gymraeg fel iaith cyntaf yng Ngheredigion, uwchben y cyfartaledd cenedlaethol (21.7%)

96.0%

o poblogaeth oedran gwaith Ceredigion gyda cymwysterau Lefel 2 neu uwch, uwchben y cyfartaledd cenedlaethol (87.6%)

77.5%

o poblogaeth oedran gwaith Ceredigion gyda cymwysterau Lefel 3 neu uwch, uwchben y cyfartaledd cenedlaethol (68.6%)



CREU CYMUNEDAU CYNALIADWY, MWY GWYRDD SYDD WEDI'U CYSYLLTU'N DDA A'I GILYDD



CYNNYDD A WNAED YN 2025/26

- Mae'r cynlluniau amddiffyn yr arfordir yng Ngheredigion yn parhau i wneud cynnydd da. Mae'r gwaith adeiladu yn Aberaeron wedi'i gwblhau ac mae'r cynllun eisoes wedi amddiffyn y dref ar sawl achlysur ers ei gwblhau yn ystod gaeaf 2025/26.
- Mae gwaith i gwblhau Achos Busnes Amlinellol Aberystwyth i ddiwallu anghenion Llywodraeth Cymru yn parhau, ac mae cyllid wedi'i sicrhau i ddatblygu'r Achos Busnes Llawn. Mae disgwyl i'r cynllun symud ymlaen at y cam dylunio manwl ac Achos Busnes Llawn yn 2026/27, gyda chefnogaeth £500k o gyllid gan Lywodraeth Cymru.
- Mae disgwyl i Borth Leat a Borth / Ynyslas gyrraedd y cam Achos Busnes Amlinellol erbyn diwedd 2026/27, gyda chefnogaeth £55k o gyllid gan Lywodraeth Cymru. Hefyd, mae disgwyl i Langrannog gyrraedd y cam Achos Busnes Amlinellol erbyn diwedd 2026/27, gyda chefnogaeth £110k o gyllid gan Lywodraeth Cymru.
- Disgwylir i'r gwelliannau i Bont Rhiwarthen a Chapel Bangor gyrraedd cam yr Achos Busnes Bras erbyn diwedd 2026/27. Yn y cyfamser, disgwylir i Gynllun Lliniaru Llifogydd Tal-y-bont symud ymlaen i gam y dyluniad manwl a'r Achos Busnes Llawn erbyn diwedd 2026/27, gyda chefnogaeth cyllid o £220,000 gan Lywodraeth Cymru.
- Yn 2019, datganodd y Cyngor Argyfwng Hinsawdd ac ymrwymodd y Cyngor i'r cam o sicrhau Carbon Sero Net erbyn 2030. Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Carbon Sero Net ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion, yn nodi ei ymateb i'r argyfwng hinsawdd, gan esbonio pam bod angen i ni gymryd y cam hwn a pham bod targed 2030 mor bwysig er mwyn mynd i'r afael â newid hinsawdd.
- Er 2005, bu gostyngiad yn allyriadau carbon deuocsid Ceredigion. Mae'r data diweddaraf gan yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net yn dangos bod allyriadau wedi gostwng 44% yn y sir o gyfanswm o 561.6 ktCO2e yn 2005 i 314.4 ktCO2e yn 2023. (ktC02e = cilodunnell o allyriadau carbon deuocsid cyfatebol)
- Ysgol Dyffryn Aeron yw ysgol carbon net sero gyntaf Ceredigion. Mae'r ysgol eisoes wedi ennill sgôr BREEAM Rhagorol, sef 93.6% - y mwyaf llwyddiannus o'r holl adeiladau addysgol yn y DU. Mae BREEAM yn darparu fframwaith asesu cynaliadwyedd, gan fesur gwerth megis dyluniad effaith isel a lleihau allyriadau carbon.
- Mae'r Cyngor yn parhau i weithio'n agos â'i bartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru, Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru a gweithredwyr trafnidiaeth, i ddatblygu datrysiadau teithio cynaliadwy, hygyrch a fforddiadwy.
- Mae Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, gan ddarparu cynnydd sylweddol mewn cyllid cyfalaf dros y pum mlynedd nesaf ar gyfer teithio llesol, seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus a gwefru cerbydau trydan.
- Cyflawnwyd gwelliannau seilwaith bysiau mewn 14 o safleoedd bysiau yn ystod 2025/26, gyda gwaith pellach wedi'i gynllunio yn 2026/27 i wella dibynadwyedd, hygyrchedd a phrofiad teithwyr mewn 16 o safleoedd bysiau.
- Mae gwelliannau i rwydwaith TrawsCymru eisoes wedi cynyddu cyfleoedd teithiau ar lwybrau strategol allweddol.
- Mae'r Cyngor yn gweithredu sawl safle bioamrywiaeth ar hyd ei rwydwaith priffyrdd. Mae safleoedd bioamrywiaeth yn cyfeirio at gynefinoedd a warchodwyd, lleiniau ymyl ffordd, a choridorau ecolegol a reolir gan awdurdodau ffordd i gefnogi bywyd gwyllt. Mae'r rhwydweithiau hyn yn gwasanaethu fel coridorau bywyd gwyllt hanfodol, gan warchod fflora a ffawna brodorol tra'n gwrthbwyso effaith amgylcheddol ffyrdd a darparu coridorau a llochesi gwyrdd hanfodol i beillwyr, pryfed a mamaliaid bach.
- Yn ystod 2025/26, ychwanegwyd 6 cherbyd trydan arall i fflyd gorfforaethol y Cyngor, gan gynyddu'r cyfanswm i 11 cerbyd i helpu lleihau ôl troed carbon y Cyngor a chyflawni'r weledigaeth gyffredinol o gyrraedd net sero erbyn 2030.
- Mae Polisïau Cynllunio Lleol a Chenedlaethol presennol yn cefnogi Technoleg Ynni Adnewyddadwy. Mae Rheoliadau Adeiladu yn gofyn am dai newydd i gael eu hadeiladu â thechnoleg ynni isel wedi'u hymgorffori ynddynt i leihau biliau ynni blynyddol o ran allyriadau carbon tai.
- Bydd tri o draethau mwyaf poblogaidd Ceredigion yn chwifio Baneri Glas yn 2025 ar ôl cael y wobr gan Gadwch Cymru'n Daclus. Y traethau Baner Las oedd Borth, Llangrannog a Tre-saith.
- Mae pum chwech pellach wedi sicrhau statws Gwobr Glan Môr, sef Gogledd Aberystwyth, De Aberystwyth, Harbwr Ceinewydd, Aber-porth, Clarach a Gogledd/Dolau Cei Newydd. Rhaid i draethau sy'n sicrhau statws dyfarniad Baner Las fodloni'r safon uchaf sef ansawdd dŵr "rhagorol", a chânt eu barnu am ddarparu cyfleusterau i ddefnyddwyr traeth ac ar gyfer dangos rheolaeth dda a darpariaeth diogelwch.
- Mae Cilborth, Llanrhystud, Mwnt a Phenbryn i gyd wedi llwyddo i sicrhau Gwobr yr Arfordir Gwyrdd. Mae'r Wobr yn cydnabod traethau sydd ag ansawdd dŵr o safon "Da" yn gyffredinol, cyfleusterau cyhoeddus, darpariaeth diogelwch a rheolaeth.
- Mae lobïo sylweddol gan Gyngor Sir Ceredigion ac eraill wedi arwain at fand eang ffeibr llawn ar gyfer 69.6%, gan gynnig galluogrwydd o dros 100 Mbps ar draws y Sir. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae darpariaeth Ffeibr i'r adeilad (FTTP) wedi codi o 56.7% i 69.6%.
- Casglwyd gwerth 107.05 cilogram o wastraff am bob unigolyn yn ystod 2025/26, a rheolwyd dros 700 o finiau gwastraff ar draws y Sir.

- Rheolwyd dros 1,700 o fannau parcio talu ac arddangos ar draws y Sir.
- Golygodd buddsoddiad y Cyngor mewn teithio llesol bod tua 683 metr o lwybrau teithio llesol wedi'u creu neu eu gwella yn ystod 2025/26, ynghyd â chyflawni 11 o gynlluniau croesfannau cyrbiau a phalmentydd botymog, gan wella hygyrchedd a diogelwch ar gyfer pobl anabl a defnyddwyr teithio llesol fel ei gilydd. Derbyniwyd cyllid sylweddol ar gyfer gwelliannau pellach yn ystod 2026/27.
- Ar ôl cwblhau gwaith adeiladu, agorodd y llwybr rhwng Llanbadarn Fawr a Llyfrgell Genedlaethol Cymru mewn pryd ar gyfer yr Wythnos Llyfrgelloedd Gwyrdd ym mis Hydref / mis Tachwedd 2025. Fel rhan o'r gwaith, tynnwyd y rhwystrau i wella hygyrchedd, ac fe'i lledaenwyd gydag arwyneb llyfn newydd sy'n ei wneud yn addas ar gyfer defnydd a rennir gan feicwyr a cherddwyr.
- Ar ôl datblygu Cynlluniau Cynefin ar gyfer trefi mwyaf y sir, mae'r Cyngor bellach yn canolbwyntio ar gynorthwyo 13 o gymunedau llai a phentrefi gwledig i ddatblygu eu cynlluniau eu hunain. Mae hyn yn cynnwys eu helpu nhw i ddeall eu hanghenion, llunio eu gweledigaethau a nodi blaenoriaethau. Mae'r broses gwneud lle yn arwain defnydd, datblygiad a gwelliant tir a mannau lleol yn y dyfodol. Mae datblygiad y cynlluniau cynefin yn darparu ffocws a mynediad at gyllid ar gyfer gwireddu gweledigaeth y cynllun.
- Lansiwyd gwefan newydd i arddangos Byrddau Rheoli Maetholion Gorllewin Cymru, sydd wedi'u sefydlu i amddiffyn yr afon Tywi, yr afon Teifi a'r afon Cleddau. Mae'r dalgylchoedd afon hyn yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac maen nhw, ar hyn o bryd, yn methu cyrraedd targedau ffosfforws, gan beryglu ecosystemau gwerthfawr. Wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru ac wedi'u harwain gan awdurdodau lleol yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, mae'r byrddau'n dod â chyrff cyhoeddus ynghyd i ddatblygu datrysiadau hirdymor i wella ansawdd dŵr tra'n cefnogi datblygiad cynaliadwy. Mae'r gwefan yn cynnwys adnoddau manwl ar gyfer perchnogion tir a datblygwyr tir, yn ogystal â chanfyddiadau gwyddoniaeth dinasyddion. Gall pobl hefyd ddarganfod sut i ymuno â grwpiau rhanddeiliaid neu gymryd rhan mewn ymgynghoriadau sydd ar y gweill. I gael rhagor o wybodaeth, beth am ymweld â: gwefan y Bwrdd Rheoli Maetholion
- Mae Amgueddfa Ceredigion yn un o 12 o bartneriaid yn y DU sy'n gweithio gyda'r Amgueddfa Astudiaethau Natur yn Llundain ar "Fixing Our Broken Planet: Interconnected", sef rhaglen sy'n cefnogi gweithredu ar yr hinsawdd sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Gyda chyllid, arddangosfeydd a mewnbwn gan wyddonwyr, mae'r amgueddfa'n gweithio gyda phobl ifanc leol sydd wedi dewis creu ffilm fer am Aber Dyfi, gan fynegi'r hyn y maent yn ei werthfawrogi amdano, eu gobeithion a'u pryderon ynghylch ei ddyfodol. Bydd y ffilm yn cael ei dangos yn y Galeri Archaeoleg, gan gysylltu newid a yrrir gan yr hinsawdd o'r gorffennol i'r presennol, a bydd hefyd yn cael ei chynnwys yn y llawlyfr addasu arfordirol, Changing Tides a gynhyrchwyd ar y cyd â thrigolion Dyfi.
- Mae Ceredigion yn aelod allweddol o Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol Canolbarth Cymru. Er mwyn helpu symbylu trawsnewidiad Ceredigion i sero net, mae'r Bartneriaeth yn nodi prinderau'r farchnad lafur trwy ymgysylltu â chyflogwyr ac arolygon manwl. Mae hyn yn galluogi'r Bartneriaeth i weithio gyda darparwyr hyfforddiant i gyflwyno cyrsiau a phrentisiaethau mewn ardaloedd allweddol megis ôl-osod, ynni adnewyddadwy a chynaliadwyedd amgylcheddol. Mae'r Bartneriaeth yn alinio datblygu'r gweithlu gyda gofynion yr economi leol ac yn cefnogi dyfodol cynaliadwy, carbon isel.



CYFLAWNIADAU

29

Eiddo gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd yn Dilyn ymyrraeth gan y Gwasanaeth Tai

13

o draethau Ceredigion wedi adnabod mewn Gwobrau Arfordir Cymru 2025/26

4.30

diwrnod ar gyfartaledd i glirio tomennu anghyfreithlon ledled y Sir yn well na'r targed o 5 diwrnod

107.1

Cilogramau o wastraff gweddilliol a gynhyrchwyd fesul person, yn well na'r targed o 165kg

69.6%

Darpariaeth band eang Ffibr i'r Adeilad (FTTP) wedi cynyddu o 40.9%, oherwydd buddsoddiad mewn cysylltedd digidol dros y ddwy flynedd ddiwethaf

5,078

Cyfanswm yr oriau cilowat o ynni adnewyddadwy a gynhyrchir gan asedau'r cyngor, yn uwch na'r targed o 2,899 oriau cilowatt

95.9%

O lwybrau casglu sbwriel wedi'i chasglu ar ddiwrnod rhestredig casglu, uwchben y targed o 90%

92.0%

o ddiffygion priffyrdd categori 1.5 wedi'i hatgyweirio neu eu gwneud yn ddiogel o fewn 5 diwrnod, uwchben y targed o 90%

GWELLA CANLYNIADAU

LLEIHAU ALLYRIADAU CARBON, CEFNOGI TEITHIO DIM CARBON A BOD YN GYFRIFOL YN FYD-EANG

Mae Ceredigion wedi gweld twf yn y galw am fannau gwefru cerbydau trydan (EV) dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae gan y Cyngor rôl bwysig i'w chwarae fel hwylusydd wrth ateb y galw a chyfrifoldeb i'w drigolion i gyfrannu at y symudiad i gerbydau di-allyriadau. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddod yn garbon sero net erbyn 2030.

Gwnaed cynnydd sylweddol o ran cyflwyno mannau gwefru ym meysydd parcio sy'n eiddo i'r cyngor ac a reolir ganddo.

Mae'r swp cyntaf o fannau gwefru cerbydau trydan, fel rhan o gynllun Peilot Cerbydau Allyriadau Isel Iawn y Llywodraeth, yn cael eu gosod ar strydoedd preswyl yng Ngheredigion er mwyn galluogi mynediad lleol at gyfleusterau gwefru.

O fis Medi 2025, gyda chyllid cyfatebol gan Lywodraeth Cymru, rydym yn gobeithio cyflwyno 40 o safleoedd mewn ardaloedd preswyl. Mae'r Cyngor yn blaenoriaethu ardaloedd sydd heb fynediad hawdd at wefrwyr cyhoeddus neu drigolion sy'n methu gwefru eu cerbydau gartref.

Y nod yw annog datgarboneiddio trafnidiaeth a chynyddu'r nifer sy'n defnyddio Cerbydau Allyriadau Isel Iawn.

Nifer y mannau gwefru fesul 100,000 o bobl yng Ngheredigion yw 250, yr ail uchaf yng Nghymru ac yn fwy na chyfartaledd y DU, sef 127.3.

Nifer y mannau gwefru chwim a chwim iawn yng Ngheredigion yw 51.7 fesul 100,000 o bobl, sydd, unwaith eto, yr ail uchaf yng Nghymru ac yn fwy na chyfartaledd y DU, sef 25.7.

Mae gan hyn nifer o ddeilliannau cadarnhaol i bobl a busnesau lleol, a'r Sir yn ei chyfanrwydd.

Yn gyntaf, mae'n darparu **arbedion carbon net** trwy **leihau nwyon tŷ gwydr** a **gwaredu llygredd aer**. Mae cerbydau trydan yn lleihau cylch oes cyffredinol allyriadau nwyon tŷ gwydr 60% i 70% o gymharu â cherbydau ag injans tanio mewnol.

Ond, mae hefyd yn helpu i yrru **integreiddio ynni adnewyddadwy**, lle mae seilwaith gwefru modern, yn aml, yn cydfynd yn uniongyrchol â phaneli solar a storfeydd batris. Mae hyn yn helpu i **bweru cludiant gydag ynni di-garbon** yn lle tanwydd ffosil a chyfrannu at ymgyrch y Cyngor i gyflawni carbon sero net.

Mae hefyd yn galluogi **cydbwyso gridiau clyfar, yn cynyddu effeithlonrwydd ynni trafnidiaeth** ac yn **creu'r seilwaith ar gyfer dyfodol trafnidiaeth**, a adnabyddir fel dyfodol trydan, yn ôl pob tebyg.

Trwy fuddsoddi yn y dechnoleg hon heddiw, gallwn helpu i wneud Ceredigion yn sir **iachach**, **fwy cynaliadwy** a mwy **cyfrifol yn fyd-eang**, y gall pawb elwa ohoni.

CRYFHAU IECHYD AFONYDD

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi sefydlu Bwrdd Rheoli Maetholion Afon Teifi, sydd wedi cyflwyno dulliau arloesol i ddiogelu ac adfer system afon Teifi.

Mae'r prosiect yn cyfuno technoleg flaengar ag ymdrechion a yrrir gan y gymuned i fynd i'r afael â heriau ansawdd dŵr.

Er enghraifft, afon Teifi oedd yr afon gyntaf yng Nghymru i gael ei monitro'n llawn, gyda rhaglen wyddoniaeth dinasyddion gynhwysfawr ar waith. Mae'r afon hefyd wedi'i dynodi'n Ardal Ddalgylch Arddangos, ac mae'r Cyngor, ochr yn ochr â sefydliadau partner, wedi llwyddo i sicrhau cyllid gwerth miliynau o bunnoedd gan y Gronfa Dreftadaeth (Heritage Lottery) ar gyfer prosiect adfer yr afon o'r enw 'Teifi Fyw', a fydd yn cychwyn ym mis Mehefin 2026.

Mae prosiectau eisoes wedi'u cyflawni fel rhan o'r Prosiect Lleihau a Lliniaru Ffosffad, megis gosod 9km o ffensys glan afon a chwe chynllun draenio trefol cynaliadwy.

Mae'r Bwrdd yn chwarae rhan hanfodol wrth **wella iechyd yr afon** drwy **ddod â rhanddeiliaid** (awdurdodau lleol, cwmnïau dŵr ac asiantaethau amgylcheddol) **ynghyd** i **leihau llygredd maetholion**, yn benodol ffosfforws. Mae hefyd yn hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol drwy ddefnyddio technoleg uwch ar gyfer monitro data, gwyddoniaeth dinasyddion a niwtraliaeth maetholion; mae'r rhain yn **gwrthbwyso effeithiau amgylcheddol datblygiadau newydd** ac yn galluogi **adeiladu cynaliadwy**, tra hefyd yn **gweithio'n weithredol i adfer Afon Teifi**.

GWNEUD Y MWYAF O AILGYLCHU

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Ceredigion wedi cyflawni un o'r cyfraddau ailgylchu uchaf yng Nghymru ac yn y DU. Yn ystod 2025/26, cynyddodd y gyfradd ailgylchu ymhellach i 74.0%, sydd nid yn unig yn uwch na tharged Llywodraeth Cymru o 70%, ond dyma'r swm uchaf erioed a ailgylchwyd gan drigolion Ceredigion.

Daw'r cynnydd hwn yn dilyn data sy'n dangos y gallai bron hanner y gwastraff a geir mewn bagiau gwastraff gweddilliol ar garreg y drws fod wedi cael ei ailgylchu. Mewn ymateb i hynny, cyflwynodd y Cyngor gyfyngiadau gwastraff gweddilliol newydd er mwyn annog trigolion i wahanu deunyddiau ailgylchadwy i'w rhoi yn y cynwysyddion cywir.

Profodd y canlyniadau cychwynnol i fod yn gadarnhaol, gan nodi cynnydd o 8% mewn ailgylchu gwastraff bagiau clir, cynnydd o 11% mewn casgliadau gwastraff bwyd, a gostyngiad o 11% mewn gwastraff gweddilliol a gesglir ar garreg y drws.

Mae'r cyfraddau ailgylchu uchel yn y sir yn **gwyro gwastraff o safleoedd tirlenwi**, **gan atal halogi pridd a dŵr**, **achub adnoddau naturiol** ac **amddiffyn ecosystemau lleol**.

Yn ychwanegol i gadwraeth amgylcheddol, mae hefyd yn helpu i **liniaru effeithiau newid hinsawdd** trwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a **darparu buddion economaidd** trwy greu swyddi ac arloesi yn y diwydiant ailgylchu a rheoli gwastraff.

Asesiad cyffredinol o'r daith hyd yn hyn

Mae cynnydd wrth fodloni'r amcan hwn yn ***dda*** ac mae'r rhagolygon gwella yn ***dda iawn***.

Mae Ceredigion wedi cymryd rôl flaenllaw yn ei uchelgeisiau i gyflawni sero net ac amddiffyn ei amgylchedd unigryw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n arwain ar Fwrdd Rheoli Maetholion Gorllewin Cymru i fynd i'r afael â heriau ansawdd dŵr ac mae'n buddsoddi mewn technoleg newydd megis pwyntiau gwefru cerbydau trydan er mwyn parhau i leihau allyriadau carbon a darparu'r seilwaith ar gyfer dyfodol trafnidiaeth.

O ran ailgylchu a gwyro gwastraff i ffwrdd o safleoedd tirlenwi, mae Ceredigion yn parhau i berfformio gyda'r gorau yn genedlaethol. Roedd 2025/26 yn flwyddyn orchestol i bawb yn y Sir wrth i bron tri chwarter y gwastraff gael ei ailgylchu. Mae'r rhain yn enghreifftiau o sut mae Ceredigion yn arwain y ffordd wrth greu cymunedau cynaliadwy, gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda.

YN ARWAIN Y FFORDD

MWYHAU EIN CYFRANIAD AT Y NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL

Mae'r nod llesiant corfforaethol **Creu Cymunedau Cynaliadwy, mwy Gwyrdd sydd wedi'u Cysylltu'n Dda a'i Gilydd** yn cefnogi'r nodau llesiant cenedlaethol canlynol. ▶

- Llewyrchus
- Cydnerth
- Iachach
- Mwy Cyfartal
- Cydlynus
- Diwylliant
- Byd-eang

DARPARU DATBLYGU CYNALIADWY

Hirdymor

- Bydd cynllunio hirdymor i leihau allyriadau carbon yn helpu i ddiogelu ein tirwedd hardd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
- Defnyddiwyd dadansoddiad Tueddiadau'r Dyfodol i ddatblygu Cynllun Rheoli Carbon 5 Mlynedd y Cyngor

Atal

- Mae'r amcan cyntaf yn canolbwyntio ar atal effaith pellach ar yr amgylchedd, yn enwedig lleihau allyriadau carbon, ond hefyd yr effaith ar fioamrywiaeth ar draws y Sir
- Mae teithio llesol yn rhan allweddol o strategaeth Ceredigion i wella iechyd a llesiant, ac felly atal problemau sy'n ymwneud ag iechyd yn y dyfodol.
- Mae bod yn gysylltiedig wedi dod i'r amlwg dros ers pandemig COVID-19, a bydd buddsoddi mewn cysylltedd yn helpu i greu cymunedau cryfach a mwy llewyrchus.

Cydweithio

- Bydd gweithio ar y cyd â phartneriaid a rhanddeiliaid yn helpu i sicrhau dull cydgysylltiedig o leihau effaith newid yn yr hinsawdd a'n bod i gyd yn canolbwyntio ar fathau mwy cynaliadwy o ynni yn y dyfodol.
- Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth o gyrff lleol, elusennau, sefydliadau gwirfoddol a phartneriaid eraill drwy Bartneriaeth Natur Leol Ceredigion. Mae'r rhwydwaith cydweithredol agored hwn yn cyflawni prosiectau sy'n canolbwyntio ar ddiogelu, adfer a dathlu bywyd gwyllt a chynefinoedd ledled Ceredigion.

Cynnwys

- Mae pawb yn cymryd rhan ac yn cael eu hannog i wneud dewisiadau a fydd yn lleihau costau nawr ac yn gwarchod yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol

Integreiddio

- Mae datgarboneiddio, gwella iechyd y Sir trwy annog teithio llesol, a gwella cysylltedd yn dod â buddion clir ar gyfer cynyddu ein cyfraniad i bob un o'r nodau llesiant

CYFLAWNIADAU MESUR ALLWEDDOL

74.0%

gwastraff wedi'i ailgylchu wedi'i gompostio yn ystod 2025/26, uwchben y targed o 70% i helpu lleihau llygredd a diogelu ein hadnoddau naturiol

44%

lleihad mewn allyriadau carbon deuocsid ers 2005 i helpu lleihau effeithiau newid hinsawdd a gwella iechyd cymunedau lleol

100%

o archwiliadau diogelwch priffyrdd wedi cwblhau ar amser i sicrhau rhwydwaith priffyrdd diogel ledled Ceredigion

90%

o safleoedd bwyd yn cydymffurfio (gan gyflawni sgôr o 3 i 5) yn dilyn arolygiad hylendid bwyd, er mwyn cynnal safonau bwyd a diogelu iechyd y cyhoedd

CYFRANIAD AT Y NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gydweithio i greu Cymru gynaliadwy. Ei bwriad yw helpu i greu Cymru yr ydym ni eisiau byw ynddo, nawr ac yn y dyfodol. Mae 7 nod llesiant cenedlaethol sy'n nodi gweledigaeth a rennir i bob corff cyhoeddus weithio tuag at (dangosir ar y dde).

Rydym yn gwybod ein bod yn wynebu heriau yng Ngheredigion – mae'r argyfwng costau byw parhaus yn effeithio ar nifer o aelwydydd yn y Sir, ac mae tlodi gwledig a mynediad i wasanaethau wedi bod yn her gyson, ac mae incwm ac enillion aelwydydd yn is na'r cyfartaledd.

Mae angen tyfu'r economi leol hefyd a chreu cyfleoedd i bobl aros yn eu cymunedau lleol a ffynnu yno. Bydd y ffaith bod y ddemograffeg yn newid yn y sir, tuag at boblogaeth sy'n heneiddio a'r ffaith bod pobl iau yn gadael y sir, yn cael effeithiau pellgyrhaeddol ar draws pedair conglfaen lles.

Mae rhai o'r materion hyn wedi gwaethygu dros y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i bandemig COVID-19, megis fforddiadwyedd tai, ac mae eraill yn parhau i fod yn her gyson, megis delio â thlodi.

Mae **Cyngor Sir Ceredigion** wedi cydweithio â'i bartneriaid lleol a rhanbarthol i fynd i'r afael â'r materion cymhleth hyn i greu'r Ceredigion yr ydym ei heisiau.

Rhai enghreifftiau yw Bargen Twf Canolbarth Cymru yn sicrhau cyllid sylweddol ar gyfer adfywio ar draws y rhanbarth, Is-Grŵp Tlodi y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn mynd i'r afael ag effaith Tlodi ar draws y Sir, ac yn arwain ar Fwrdd Rheoli Maethynnau ar gyfer afon Teifi er mwyn gwella cyflwr yr afon a hwyluso datblygiad niwtral Rheoli Maethynnau i symud yn ei flaen.

Roedd Amcanion Llesiant y Cyngor wedi'i osod yn seiliedig ar dystiolaeth o anghenion lleol ac ar farn pobl leol. Defnyddiwyd amrywiaeth o ffynonellau i bennu'r anghenion hyn gan gynnwys Asesiad diwethaf Ceredigion o Lesiant Lleol a'r Cynllun Llesiant Lleol.

Bydd yr Amcanion Llesiant yn ein helpu i wella canlyniadau i bobl leol a hefyd yn gwneud y mwyaf o'n cyfraniad at y Nodau Llesiant cenedlaethol.


Rydym yn monitro ac yn adolygu cynnydd tuag at gyflawni'r Amcanion yn rheolaidd ac yn cynhyrchu Adroddiad Hunanasesu blynyddol lle rydym yn cyfleu cynnydd.

Mae **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion** yn dod ag arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus y Sir a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ynghyd, i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y Sir drwy gryfhau cydweithio ar draws gwasanaethau'r Sir.

Fel y Cyngor, datblygwyd ei flaenoriaethau gan ddefnyddio tystiolaeth ac adborth ymgysylltu o ffynonellau allweddol megis yr Asesiad o Lesiant Lleol. Mae hyn yn sicrhau bod Amcanion Llesiant Cyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion wedi'u halinio i ganolbwyntio ar anghenion blaenoriaeth y Sir, a chynyddu'r cyfraniad at y Nodau Llesiant cenedlaethol.

Mae themâu cyffredin fel mynd i'r afael a thlodi, cyfrifoldeb amgylcheddol, creu cyfleoedd a darparu'r dechrau gorau mewn bywyd i gyd yn cyd-fynd yn agos ac yn caniatáu i ni ddarparu ymateb cydgysylltiedig a rennir i wella llesiant. Mae'r tabl trosodd yn dangos sut mae Amcanion Llesiant Ceredigion yn cyfrannu at y 7 Nod Llesiant cenedlaethol.

Y 7 NOD LLESIANT CENEDLAETHOL



Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi 7 Nod Llesiant ar waith.

Mae'r Ddeddf yn rhoi'r uchelgais, y caniatâd a'r rhwymedigaeth gyfreithiol i ni wella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd.

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio yn well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

▼ Nod Llesiant	Sut mae Amcanion Llesiant y Cyngor yn cyfrannu at y Nodau Llesiant cenedlaethol ▼
Cymru lewyrchus	Mae ein holl Amcanion Llesiant yn adlewyrchu'r pwysigrwydd o ddatblygu economi leol Ceredigion. Bydd galluogi cyflogaeth, datblygu sgiliau, darparu tai fforddiadwy, amddiffyn yr amgylchedd, cefnogi busnesau a buddsoddi mewn adfywio i gyd yn cyfrannu tuag at y nod cenedlaethol o Gymru lewyrchus. Bydd cynorthwyo busnesau sy'n bodoli eisoes a busnesau newydd i dyfu yn helpu i wella cynhyrchiant, gan greu mwy o swyddi a swyddi sy'n talu'n well, a chynorthwyo'r gweithlu trwy gyfleoedd dysgu. Bydd Ceredigion sy'n fwy ffyniannus yn helpu i fynd i'r afael â thlodi a chaledi hefyd.
Cymru gydnerth	Bydd cyflwyno ein huchelgais o fod yn garbon net sero, cynyddu cyfleoedd i deithio llesol a sicrhau bod cymunedau wedi'i chysylltu yn dda yn helpu amddiffyn ein hamgylchedd naturiol ac yn creu cymunedau cryf a gydnerth. Mae hyn yn cyfrannu tuag at y nod llesiant cenedlaethol o greu Cymru gydnerth trwy leihau ein heffeithiau ar yr amgylchedd a gwella ein gallu i addasu i newid.
Cymru iachach	Mae cefnogi dysgwyr mewn addysg a hyfforddiant, amddiffyn pobl rhag tlodi, a hybu bywydau iachach a mwy llesol yn ceisio adeiladau Ceredigion a Chymru iachach. Mae hyn hefyd yn galluogi byw annibynnol ac yn darparu ymyrraeth gynnar a gwasanaethau atal i'r rhai sy'n agored i niwed. Bydd cynorthwyo dinasyddion i wella eu lles corfforol ac emosiynol yn cynorthwyo mentrau eraill i ddarparu Cymru iachach a chreu cymunedau mwy cydnerth.
Cymru sy'n fwy cyfar-tal	Mae pob un o'n Hamcanion Llesiant yn ceisio sefydlu Cymru fwy Cyfartal drwy sicrhau cyfle cyfartal i bawb mewn cyflogaeth, tai, addysg, ffyrdd iachach o fyw a chymunedau cynaliadwy.
Cymru o gymunedau cydlynus	Mae adeiladu cryfder ein cymunedau yn nodwedd allweddol yn ein Hamcanion Llesiant. Bydd cynnig cymorth i'n cymunedau fod yn gadarn ac yn gysylltiedig fel eu bod yn gallu ffynnu, yn gwella Cymru llawn cymunedau cydlynus.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Mae'r Cyngor yn parhau i hyrwyddo diwylliant a hunaniaeth ddwyieithog unigryw a bywiog Ceredigion. Amlygwyd bod conglfaen diwylliannol Lles yn arbennig o bwysig i Ddinasyddion yn Asesiad Lles Lleol Ceredigion, ac mae mesurau pellach i hyrwyddo dwyieithrwydd a'r Iaith Gymraeg yn eu lle gan gynnwys Strategaeth yr Iaith Gymraeg newydd.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	Wrth ystyried ein Hamcanion Llesiant, rydym wedi ystyried Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion a gweithgarwch ymgysylltu er mwyn sicrhau y gallwn wneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang. Mae cymorth ar gyfer teithio llesol, dulliau eraill o deithio a ffyrdd newydd o weithio sy'n adeiladu ar ein huchelgais di-garbon yn parhau â'n gwaith yn y maes hwn.

YR EGWYDDOR DATBLYGU CYNALIADWY

Cyflwynodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy ac mae'n amlinellu'r 5 ffordd o weithio y mae'r rhaid i bob corff cyhoeddus eu mabwysiadu. Datblygu Cynaliadwy yw'r egwyddor drefnu ganolog sy'n llywio'r hyn yr ydym yn ei wneud a'r ffordd yr ydym yn gwneud hynny.

Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni ymdrechu i sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae'r dull hwn yn rhoi cyfle i feddwl yn arloesol, gan adlewyrchu'r ffordd yr ydym yn byw ein bywydau a'r hyn a ddisgwyliwn gan ein gwasanaethau cyhoeddus

Rydym wedi gwreiddio'r egwyddor ar draws y Cyngor ac wedi mabwysiadu'r egwyddor wrth gynllunio a chyflawni ein Hamcanion Llesiant.

Mae rhai o'r ffyrdd yr ydym wedi defnyddio'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy wedi'u hamlinellu i'r dde.

	Ffyrdd o Weithio	Sut mae'r Cyngor wedi dangos yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy
	Hirdymor Edrych i'r tymor hir fel nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu anghenion eu hunain	• Mae Cynllunio Ariannol Tymor Canolig yn sicrhau bod penderfyniadau yn ystyried yr effaith ar cenedlaethau'r dyfodol • Mae cynllunio'r gweithlu yn sicrhau datblygiad sgiliau'r gweithlu ar gyfer y dyfodol a sicrhau bod gwasanaethau yn cynaliadwy yn hir dymor. • Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn ceisio datblygu a gwella llesiant cymdeithasol, economi, amgylcheddol a diwylliannol Ceredigion dros y 5 mlynedd nesaf a thu hwnt. • Rhagwelir y bydd yr adferiad o'r pandemig COVID-19 yn para am nifer o flynyddoedd ac mae ein cynlluniau i fynd i'r afael â thlodi a mabwysiadu ymagwedd hirdymor at ddatblygu economaidd yn adlewyrchu hyn.
	Integreiddio Cymryd ymagwedd integredig fel bod cyrff cyhoeddus yn edrych ar yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu Hamcanion llesiant	• Mae'r Amcanion Llesiant Corfforaethol yn cyd-fynd â rhai Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion sy'n hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth ac ymateb cydgysylltiedig i'r heriau y mae Ceredigion yn eu hwynebu i wella llesiant dinasyddion.
	Cynnwys Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt	• Mae Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor wedi ystyried Asesiad o Lesiant Lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a gynhyrchwyd yn dilyn ymgysylltu helaeth â dinasyddion, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig. • Mae'r Cyngor yn ymgynghori gyda dinasyddion a'i grwpiau ymgysylltu ynghylch y cam o osod ei Amcanion Llesiant Corfforaethol. • Mae'r Cyngor wedi cofrestru ar gyfer yr Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol a ddatblygwyd gan Data Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a chynhaliodd ei arolwg cyntaf yn ystod yr haf 2024. • Bydd Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad y Cyngor yn helpu i sicrhau bod lleisiau holl grwpiau Ceredigion yn cael eu clywed.
	Cydweithio Gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol i ddod o hyd i atebion cynaliadwy a rennir	• Mae'r Cyngor yn cefnogi'r partneriaethau canlynol, ymhlith rhai eraill, mewn ffordd weithredol: o Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru. o Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion. o Partneriaeth Diogelwch Cymunedol. • Bu'r Cyngor yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a phartneriaid eraill wrth ymateb i COVID-19, gan gynnwys sefydlu dau ysbyty dros dro, canolfannau brechu torfol a phanel amlasiantaethol er mwyn sicrhau bod lleoliadau cymunedol yn cael eu hailagor yn ddiogel.
	Atal Deall achosion sylfaenol problemau i'w hatal rhag digwydd	• Mae Amcanion Llesiant y Cyngor wedi'u pennu er mwyn atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Mae'r rhain yn cynnwys mynd i'r afael ag effeithiau tlodi, materion gwledigrwydd a gwella llesiant pobl o bob oed, o'r blynyddoedd cynnar hyd at oedran hŷn. • Mae'r Model Gydol Oes yn darparu dull cydgysylltiedig o ymdrin â gofal cymdeithasol er mwyn atal, lleihau neu ohirio'r angen am gymorth parhaus, a chaniatáu i bobl aros yn eu cartrefi eu hunain.

UNO EIN CYNLLUNIAU - CYSYLLTIADAU I ADNODDAU ALLWEDDOL

ADNODDAU ALLWEDDOL

Mae ein Hadroddiad Hunanasesu yn cyflawni ein dyletswyddau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mewn perthynas â pherfformiad y Cyngor a gosod ac adolygu amcanion llesiant.

Mae gofynion Hunanasesu yn cyd-fynd â'r dyletswyddau a amlinellir mewn Deddfau eraill, ac yn eu cefnogi. Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi crynodeb o'r dyletswyddau hyn a pholisi neu strategaeth briodol y Cyngor sydd ar waith i ymateb i'r ddyletswydd.

- Cydraddoldebau
- Yr Iaith Gymraeg
- Cyllid
- Caffaeliad
- Llywodraethu
- Rheoli Asedau
- Adnoddau Dynol
- Llesiant Gydol Oes
- Economi
- Mynd i'r afael a Chaledi
- Strategaeth Gweithio Hybrid
- Tai

CYDRADDOLDEBAU

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor yn egluro sut y bydd Cyngor Sir Ceredigion yn sicrhau bod y camau a gymerwn yn deg i bawb. Mae cael eich trin yn deg a chyda pharch yn berthnasol i bob un ohonom ac i'n teuluoedd a'n ffrindiau. Dyma bum Amcan Cydraddoldeb y Strategaeth:

- Cyflogwr cyfle cyfartal enghreifftiol
- Meithrin perthnasoedd da a mynd i'r afael â rhagfarn
- Ymgysylltu a chyfranogi
- Urddas, parch a mynediad i wasanaethau
- Addysg deg a chynhwysol

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn dwyn ynghyd ac yn disodli'r cyfreithiau gwrth-wahaniaethu blaenorol. Mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith ac yn ei gwneud hi'n haws i bobl ddeall a chydymffurfio â'r gyfraith. Mae'r Ddeddf yn diogelu hawliau unigolion ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb. Mae'n cynnwys rhoi dyletswydd gyffredinol ar sefydliadau yn y sector cyhoeddus i roi 'sylw dyledus' i'r canlynol:

- Dileu gwahaniaethu'n anghyfreithlon, aflonyddu neu erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.
- Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu.
- Meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu trwy fynd i'r afael â rhagfarn a hybu dealltwriaeth ohono.

Mae'n ofynnol i gyrff y sector cyhoeddus adolygu eu Hamcanion Cydraddoldeb Strategol a'u cynllun gweithredu bob pedair blynedd. I wneud hyn, rydym yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â'n cymunedau lleol i lywio'r cynllun a'r amcanion. Mae Cyngor Ceredigion yn aelod o Grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Rhanbarthol y Canolbarth a'r Gorllewin, a chytunodd y Grŵp hwn i fynd ati fel rhanbarth i ymdrin â'r darn hwn o waith. Datblygwyd y cynllun ymgysylltu ac ymgynghori rhanbarthol yn Ch4 2022-23 a bydd yn cael ei roi ar waith yn ystod 2023-24 er mwyn i'n Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol diwygiedig fod yn barod i'w cyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2024.

YR IAITH GYMRAEG

Gweledigaeth Cyngor Sir Ceredigion yw bod yr iaith Gymraeg a Chymreictod yn rhywbeth sy'n perthyn i bawb yng Ngheredigion, gan fod yn rhywbeth y mae holl breswylwyr y Sir yn teimlo balchder ynddo.

Er mwyn cyflawni hyn, cyhoeddwyd Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg newydd y Cyngor ym mis Rhagfyr 2024, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, ac mae'n datblygu'r sylfeini a osodwyd yn y strategaeth flaenorol i gynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Iaith Gymraeg ar draws y Sir.

Cydnabyddir bod hyfywedd yr iaith Gymraeg yn ddibynnol ar gynnal cymunedau lle y mae nifer arwyddocaol o'r boblogaeth yn gallu siarad yr iaith a chael mynediad iddi ym mhob agwedd ar fywyd dyddiol.

Mae Ceredigion yn parhau i gael ei hystyried yn un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg, ac mae'n cynnwys y trydedd garfan fwyaf o siaradwyr Cymraeg ar lefel genedlaethol, sef 45.3% yn ôl Cyfrifiad 2021, gan gyfateb â 31,680 o breswylwyr.

Mae'r Strategaeth yn nodi sut y bydd y Cyngor yn annog yr iaith Gymraeg ac yn hwyluso ei defnydd yn fwy cyffredinol yn yr ardal leol, trwy gydweithredu gyda sefydliadau sy'n aelodau o Fforwm Iaith Dyfodol Dwyieithog Ceredigion. Mae Pwyllgor Fforwm Dyfodol Dwyieithog yn gyfrifol am fonitro gweithrediad y Strategaeth a datblygiadau o ran yr iaith Gymraeg yn y sir.

Mae'r Strategaeth yn cynnwys nifer o gamau a chanlyniadau uchelgeisiol er mwyn gweld yr iaith yn ffynnu ar draws y sir, a rhannir y rhain ar draws pedair thema, sef Dysgu, Byw, Perthyn, Llwyddo.

Y targed cyffredinol yw y bydd cyfran y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion yn codi 1.5% o 45.3% i 46.8% yn 2029. Bydd hyn yn arwain at gynnydd o 612 o siaradwyr Cymraeg o'r gwaelodlin yn 2021, a bydd hefyd yn dechrau dadwneud y dirywiad a welwyd rhwng 2011 a 2021.

Mae gweithredoedd y Cyngor yn cyfrannu at godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr iaith Gymraeg fel rhan hanfodol o hunaniaeth a threftadaeth Ceredigion, ynghyd â chyflwyno ymyriadau pendant a phenodol er mwyn annog y defnydd o'r iaith Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd y sir.

Mae'r Strategaeth yn cynorthwyo gweledigaeth gyffredinol y Cyngor o "gynnig gwerth am arian, gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog cynaliadwy" a gweledigaeth Llywodraeth Cymraeg o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Mae gwybodaeth bellach am Hyrwyddo a Hwyluso'r Iaith Gymraeg yng Ngheredigion ar gael ar wefan y Cyngor.

CYLLID

Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn rhoi fframwaith llywodraethu ariannol i weithredu ynddo drwy nodi'r materion i'w hystyried wrth gynllunio'n ariannol ar gyfer y tymor canolig.

Trwy ddwyn ynghyd yn y ddogfen hon ragdybiaethau ariannol, safonau darparu gwasanaeth, anghenion demograffig, a materion cynllunio'r gweithlu, disgwylir y bydd y Cyngor yn gallu ystyried rheolaeth gyffredinol ei adnoddau yn well er mwyn cyflawni ei amcanion.

Nod ariannol y Cyngor yw defnyddio adnoddau'n ofalus a chyfrifol a sicrhau cynnal a chryfhau cyfnerthed ariannol y Cyngor.

UNO EIN CYNLLUNIAU - CYSYLLTIADAU I ADNODDAU ALLWEDDOL

Mae deall y cyd-destun ariannol cyfan yn bwysig er mwyn sicrhau cyllideb gadarn a chytbwys ar gyfer y blynyddoedd nesaf gan y gwyddys y bydd cwtogi ar gyllid y Sector Cyhoeddus. Mae'r rhagolwg ariannol yn cynnwys rhagolwg cyllideb tair blynedd. Er gwaethaf yr heriau sy'n bodoli, gall cyfleoedd godi o'r heriau hyn drwy ystyried sut y gellir darparu gwasanaethau'n wahanol ac yn well a sicrhau mwy o werth am arian i'r trethdalwr.

CHAFFAEL

Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer caffael, fel y datganir yn ei **Strategaeth Gaffael**, yw sicrhau gwerth am arian drwy fynd ati'n effeithiol i gaffael y gofynion ar gyfer ei wasanaeth, a dangos gwelliant parhaus yn ei weithgarwch caffael.

Mae'r Cyngor yn gwario dros £60m yn flynyddol drwy drydydd parti i ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus. Trwy broses gaffael strategol ofalus, caiff y gwariant hwn ei dargedu ar gynorthwyo i wireddu gweledigaeth gyffredinol y Cyngor a'i Amcanion Llesiant Corfforaethol. Mae Strategaeth Gaffael y Cyngor am sicrhau'r canlynol:

- Gwerth am arian drwy seilio penderfyniadau caffael ar gyfuniad priodol o ansawdd a phris.
- Darparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, a gafwyd drwy broses gaffael sy'n ystyried anghenion defnyddwyr gwasanaethau ac yn defnyddio'r iaith o'u dewis, drwy ymgynghori ac ymgorffori Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 mewn contractau.
- Amgylchedd iach trwy gaffael atebion cynaliadwy a thrwy gymhwyso cyflenwyr o flaen llaw yn ôl eu hanes a'u gwerthoedd cynaliadwyedd.
- Y cyfraniad mwyaf posibl tuag at ddatblygu cynaliadwy drwy sicrhau bod Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhan annatod o brosesau Caffael.

Oherwydd swm digyffelyb y ddeddfwriaeth gaffael a bod diwygio'n dod i'r amlwg ar lefel genedlaethol, mae adolygiad a diweddariad y Strategaeth Gaffael wedi'u gwthio'n ôl tan fod y dirwedd ddeddfwriaethol wedi sefydlogi. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ystwyth, gan ymateb i ddatblygiadau wrth iddynt godi, a chymhwyso rheolau caffael yn effeithiol i gefnogi cyflawni gwasanaethau a llywodraethu da.

LLYWODRAETHU

Wrth weithredu ei gyfrifoldeb cyffredinol, mae'r Awdurdod yn gyfrifol am sefydlu trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ac am sicrhau y gweithredir ei swyddogaethau'n effeithiol, a hynny'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risgiau.

Golyga hyn sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gyflawni yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, a bod arian y cyhoedd yn cael ei ddiogelu, ei gyfrifo'n gywir, a'i ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae ei drefniadau llywodraethu i gefnogi cyflawni ei Amcanion Llesiant Corfforaethol a'i ymrwymiad parhaus i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y Sir.

Mae gan y Cyngor **Fframwaith Llywodraethu** sy'n dangos y trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod y canlyniadau a fwriadwyd ar gyfer yr holl randdeiliaid yn cael eu diffinio a'u cyflawni, gan sicrhau bod y Cyngor bob amser yn gweithredu er budd y cyhoedd.

Mae'n gosod allan y ffordd mae'r Cyngor yn cwrdd â'r ymrwymiad er mwyn cyflawni gweledigaeth y Cyngor a'i Amcanion Llesiant Corfforaethol, dod a'r holl drefniadau llywodraethu at ei gilydd a darparu sicrwydd bod trefniadau llywodraethu clir yn ei le.

Cyflwynwyd y **Datganiad Llywodraethu Blynyddol** diweddaraf ar gyfer 2025/26 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mawrth 2026 ac roedd yn cadarnhau bod trefniadau llywodraethu y Cyngor yn effeithiol ac yn addas i'r diben.

Roedd yr adolygiad o Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol 2025/26 yn cynnig:

- Sicrwydd sylweddol bod cadernid a system graffu gadarn yn ei lle a bod y systemau a'r gweithdrefnau wrth baratoi'r Fframwaith Llywodraethu yn foddhaol.
- Asesir bod gan y Cyngor fframwaith llywodraethu, rheolaeth risg a threfniadau rheoli mewnol boddhaol yn eu lle i reoli cyflawniad amcanion y sefydliad yn ystod y flwyddyn.
- Mae'r Cyngor wedi sicrhau cynnydd da yn ystod y flwyddyn gyda chyflawniadau cofnodedig yn erbyn y saith egwyddor craidd.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn asesiad o drefniadau llywodraethu y Cyngor ac fe'i ddefnyddir fel offeryn ar gyfer gwelliant corfforaethol, er mwyn gwerthuso cryfderau a gwendidau yn y fframwaith llywodraethu ac fel rhan o gynllun gweithredu blynyddol.

RHEOLI ASEDAU

Diben **Polisi Datblygu Asedau**'r Cyngor yw nodi dull Cyngor Sir Ceredigion o wneud y gorau o'i asedau drwy brydlesu, gwaredu a chaffael er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau a'i amcanion. Mae amcanion allweddol y Polisi fel a ganlyn:

- Nodi'r prif gamau wrth fynd ati i adolygu Datblygu Asedau. Gweler y Siart Llif am y broses Datblygu Asedau (atodiad C).
- Gosod cyd-destun strategol ar gyfer rheoli tir ac adeiladau sy'n wag neu sy'n cael eu tanddefnyddio.
- Sicrhau bod gan Gyngor Sir Ceredigion y portffolio asedau mwyaf effeithiol ac addas i gyd-fynd â'i amcanion.
- Cael y refeniw mwyaf posib o'r asedau sydd dan berchnogaeth y Cyngor.
- Nodi'r asedau nad oes bellach eu hangen at eu defnydd gwreiddiol, a chael yr incwm mwyaf posib drwy eu datblygu ac/neu eu gwaredu.
- Ychwanegu at y portffolio asedau lle bo'n briodol er mwyn cyflawni'r amcanion corfforaethol.

Mae Cynllun Rheoli Asedau Strategol (SAMP) newydd yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd i'w ystyried yng nghyfarfod y pwyllgor Craffu ym mis Gorffennaf 2026. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cynhaliwyd adolygiad sylfaenol o'r Tîm Asedau, gan edrych ar y blaenoriaethau a'r capasiti sydd ar gael.

Yn dilyn hynny, mae cynllun gweithredu Asedau penodol eisoes yn cael ei roi ar waith er mwyn mynd i'r afael ag ardaloedd amrywiol o waith, gan gynnwys gwella cynlluniau busnes/ gwasanaethau, gweithredu'r strwythur newydd o fewn y tîm a datblygu capasiti, gan gynnwys adeiladu tîm.

ADNODDAU DYNOL

Sail llwyddiant Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor yw gweithlu sy'n perfformio'n dda, ac sy'n gweithio mewn ffordd sy'n arloesol, yn ddigidol aeddfed ac yn gynaliadwy. Er mwyn cyflawni hyn, mae gennym **Gynllun Gweithlu**, sy'n amlinellu dull y Cyngor o reoli ei weithlu i ddiwallu ei anghenion darparu gwasanaethau nawr ac yn y dyfodol. Mae'n cynnwys dadansoddi gofynion gweithlu'r sefydliad, nodi unrhyw fylchau, a chanolbwyntio ar y cynlluniau datblygu i fynd i'r afael â hwy.

Mae'r Cynllun Gweithlu yn rhoi sylw i faterion allweddol gan gynnwys recriwtio, cadw a chynllunio ar gyfer olyniaeth er mwyn sicrhau lefelau staffio sefydlog, gweithlu cynaliadwy a bod swyddi gwag yn cael eu llenwi gyda staff sy'n meddu ar gymwysterau priodol. Mae hefyd yn cynorthwyo darpariaeth ffyrdd newydd o weithio, megis gweithio hybrid, er mwyn sicrhau

cynhyrchiant uwch, llai o deithio a chydbwysedd gwell rhwng bywyd a gwaith.

Yn ogystal, mae'r Cynllun yn cydnabod y cyflawniadau yn ystod cyfnod y cynllun blaenorol, y cyswllt gyda strategaethau corfforaethol eraill, a'n proffil fel gweithlu.

Y bedair flaenoriaeth thematig a gyflwynir yn y cynllun er mwyn ymateb i'r heriau a nodwyd yw:

1. Gwireddu Potensial
2. Profiad Ymgeiswyr a Denu Talent
3. Ffyrdd Newydd o Weithio
4. Ein Diwylliant

Caiff trosolwg o bob thema ei gynnwys, ynghyd â'r camau a fydd yn cael eu cymryd i gyflawni'r cynllun. Caiff set o fesurau arfaethedig eu cynnwys ar ddiwedd y ddogfen er mwyn caniatáu gwaith effeithiol i fonitro cynnydd yn ystod y cynllun tair blynedd.

LLESIANT GYDOL OES

Mae cynnig cymorth i bob oed a phob angen yn her sylweddol i'r Cyngor gan fod adnoddau yn brin. Mae demograffeg a phroffil y gymdeithas wedi newid yn sylweddol dros y degawd diwethaf gyda chynnydd sylweddol mewn camddefnyddio sylweddau a'i effaith, cynnydd mewn iechyd meddwl gwael a cham-drin domestig ac yn nifer y grwpiau oedran hŷn sy'n byw yng Ngheredigion. O ganlyniad, mae'r galw am rai gwasanaethau wedi cynyddu gan roi mwy o bwysau ariannol ar y meysydd gwasanaeth hynny.

Mae'r **Strategaeth Llesiant Gydol Oes** yn nodi'r weledigaeth a'r dull gweithredu a ddefnyddir i drawsnewid y ffordd y cefnogir llesiant a diogelwch pobl Ceredigion.

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, rydym wedi datblygu model gweithredu Llesiant Gydol Oes sydd wedi'i gynllunio i sicrhau bod pobl yn cael cymorth o'r math a'r lefel gywir, ar yr adeg gywir, er mwyn atal, lleihau neu ohirio'r angen am gymorth parhaus, ac i wneud y mwyaf o annibyniaeth pobl a'u galluogi i aros yn eu cartref eu hunain ac yn eu cymuned eu hunain lle bynnag y bo modd.

YR ECONOMI

Cyhoeddwyd **Strategaeth Economaidd** Ceredigion ym mis Mawrth 2021. Mae'n nodi fframwaith ar gyfer gweithredu yn ystod y cyfnod o bymtheng mlynedd hyd at 2035, gan amlinellu sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau twf economaidd cryf, cynaliadwy a mwy gwydn i Geredigion, wedi'i greu a'i rannu gan bawb.

Yn y strategaeth sonnir am y camau gweithredu a fydd yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd yn yr economi leol, gan ganolbwyntio ar bedwar prif faes blaenoriaeth sef Pobl, Menter, Lle a Chysylltedd, gyda phob adran yn amlinellu rhai o'r ymyriadau cynnar a ystyriwyd.

Datblygwyd a gweithredwyd nifer o fentrau eisoes dan y cyfeiriad strategol a osodwyd gan y Strategaeth Economaidd. Llwyddwyd i sicrhau swm sylweddol o gyllid allanol gan amrediad o sefydliadau rhanddeiliaid allweddol, a fydd yn golygu y bydd modd ymgorffori'r camau er mwyn sicrhau twf economaidd pellach.

Rhoddir diweddariadau am y cynnydd wrth gyflawni'r Strategaeth i **Bwyllgor Craffu Cymunedau Ffyniannus** y Cyngor o bryd i'w gilydd. Mae'r Strategaeth yn cynnig cyfle cyffrous i ddatblygu sylfeini cadarn Ceredigion a chynorthwyo economi ffyniannus uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol.

Yn ystod 2025/26, dechreuwyd adolygiad o'r Strategaeth i sicrhau ei bod yn gyfredol a bod y blaenoriaethau'n dal i fod yn berthnasol. Roedd hyn yn cynnwys cyfres o sesiynau galw heibio mewn naw lleoliad ledled y sir i berchnogion busnes, grwpiau cymunedol a thrigolion roi mewnbwn i'r strategaeth economaidd ddiwygiedig ac er mwyn helpu llunio dyfodol yr economi leol. Disgwylir i'r strategaeth newydd gael ei chyhoeddi yn ystod hydref 2026.

TRECHU CALEDI & THLODI

Mae **Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28** yn cynnwys pedwar amcan llesiant ynghyd â thema drawsbynciol ar fynd i'r afael â chaledi a thlodi sy'n cysylltu â phob un o'r amcanion sy'n ymwneud â llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn blaenoriaethu mynd i'r afael â chaledi a thlodi mewn ymateb i'r argyfwng costau byw, gan groesgyfeirio â chonglfeini llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Mae'r mecanwaith ar gyfer gweithredu'r thema trechu caledi a thlodi drwy Is-grŵp Tlodi y Bwrdd yn cynnwys rhwydwaith o sefydliadau partner sy'n craffu ar waith y Bwrdd i wella'r gwaith a wneir i fynd i'r afael â thlodi ar draws pob un o'r pedwar amcan.

GWEITHIO HYBRID

Yn dilyn yr **Adolygiad o'r Trefniadau Gweithio Hybrid** yn 2023 a mabwysiadu gweithio hybrid fel dewis parhaol ond dewisol i gyflogeion, cymeradwywyd **Polisi Gweithio Hyblyg** newydd y Cyngor ym mis Mehefin 2024.

Mae'r Polisi yn nodi manylion y cynllun gweithio hybrid sy'n ceisio helpu cyflogeion i wella eu cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith trwy leihau amser cymudo, gan leihau ôl troed carbon y Cyngor ar yr un pryd, ac ehangu ei gronfa dalent. Cydnabyddir bod yr arferion gweithio hyblyg a gynigir yn gallu cynorthwyo iechyd a lles, lleihau trosiant, cynyddu cymhelliant a denu talent.

Roedd y Polisi Gweithio Hyblyg yn un o nifer o Bolisïau Adnoddau Dynol a ddiweddarwyd yn ystod 2024/25, ac mae'n sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â deddfwriaeth bresennol, gan fanteisio ar yr hyn y mae'r Cyngor wedi'i ddysgu dros y bedair blynedd ddiwethaf.

TAI

Cafodd **Strategaeth Dai 2023/28** sydd wedi'i diweddaru i'w cyhoeddi yn Hydref 2023, sy'n gosod allan gweledigaeth ac uchelgeisiau tai'r Cyngor ar gyfer y cyfnod pum mlynedd o 2023 i 2028.

Gweledigaeth y strategaeth newydd yw: *bydd digon o letyau addas a chynaliadwy i gwrdd ag anghenion preswylwyr nawr ac yn y dyfodol.* Rydym yn cydnabod y rôl bwysig mae tai yn chwarae ynghyd a'i ddylanwad ar iechyd a llesiant unigolion, teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Mae'n ymateb i heriau allweddol, gan gynnwys darlun y dirwasgiad economaidd cenedlaethol, newidiadau deddfwriaethol, yr arferiad o pandemig COVID-19 a'r broblem ffosffadau sy'n effeithio ar ddatblygiad yn y Sir, sydd i gyd yn chwarae ei ran wrth effeithio tai Ceredigion.

Dwy brif flaenoriaeth y Strategaeth newydd yw:

- Cynyddu cyflenwad a gwella amodau tai.
- Cefnogi preswylwyr yn gartrefi a chymunedau ei hunan.

Er gwaethaf llwyddiannau blaenorol, mae diffyg tai addas a fforddiadwy o ansawdd da yn parhau. Mae hyn, ynghyd â'r angen i fynd i'r afael â digartrefedd, a chefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, yn golygu bod angen buddsoddiad a gwaith sylweddol i fynd i'r afael â'r sefyllfa hon. Bydd y Cyngor hefyd yn gweithio i sicrhau bod pobl leol yn cael eu cefnogi i barhau i fforddio byw yn eu cymunedau, gan gyfrannu at fywiogrwydd diwylliant a iaith Cymru.

DARPARU EIN CYNLLUNIAU BUSNES

Sut yr ydym yn Asesu ac yn Meincnodi ein Perfformiad

Mae'r Cyngor yn monitro ac yn meincnodi ei pherfformiad yn rheolaidd fel rhan o'i threfniadau rheoli perfformiad cyfredol. Mae meincnodi perfformiad yn cyfrannu at ein heffeithiolrwydd ac effeithlonrwydd wrth alluogi ni i adnabod arferion gorau a chyfleoedd i wella.

Yn **fewnol** rydym yn monitro cyflawni ein cynlluniau busnes ar gyfer y deuddeg gwasanaeth, a cyflawni ein Amcanion Llesiant Corfforaethol.

Yn **allanol**, rydym yn defnyddio nifer o ffynonellau ar gyfer meincnodi rheolaidd. Mae rhain yn Ddangosyddion i Arian Allweddol, Dangosyddion Allweddol y Cyngor a Phroffil Perfformiad a gynhyrchwyd yn annibynnol ar gyfer Awdurdodau Lleol.

Mae'r Cyngor hefyd yn un o nifer o fyrddau cyhoeddus yng Ngheredigion sydd yn cyfrannu at wella llesiant yn ein cymunedau. Er mwyn mesur ein cyfraniad tuag at y **canlyniadau mwy eang,** rydym yn adolygu ein cyfraniad tuag at y Mynegai Llefydd Llewyrchus Cymru a'r Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol. Mae'r tudalennau dilynol yn darparu crynodeb o'r canlyniadau diweddaraf o bob un ffynhonnell a'r dolennau er mwyn chwilio allan mwy.

Perfformiad Cynllun Busnes

Mae ein perfformiad cynllun busnes yn cael ei monitro trwy'r Bwrdd Perfformiad, ac ar sail gyfredol, gan y Grŵp Arweiniol. Ar ddiwedd 2025/26 mae ein perfformiad yn dangos bod 59% o'n mesurau ar darged a 77% o'n hamcanion naill ai'n gyflawn neu'n unol â'r amserlen (gweler y siartiau isod). Mae'r mesurau a'r amcanion oddi ar y targed yn cael eu craffu'n fanylach gan y Grŵp Arweiniol a'r pwyllgor craffu perthnasol.

Sut mae hyn yn cymharu â Blynyddoedd Blaenorol


Ers y gosodwyd ein Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd, mae'r systemau monitro yr ydym yn eu defnyddio i olrhain perfformiad wedi gwella'n sylweddol a gallwn fonitro darpariaeth ein Strategaeth Gorfforaethol mewn ffordd fwy effeithiol.

Mae mesurau perfformiad ein cynllun busnes yn dangos gostyngiad dros y flwyddyn ddiwethaf gyda 59% ohonynt ar y trywydd iawn, o gymharu â 62% yn 2024/25, a dros 70% yn y ddwy flynedd flaenorol (gweler y siart isod).


Tra bod hyn yn cynrychioli gostyngiad yn y gyfran o fesurau sy'n cwrdd â'u targedau, mae'r cyd-destun y tu ôl i hyn yn bwysig. Yn fwriadol, mae gwasanaethau wedi gosod targedau mwy heriol ac uchelgeisiol, gan adlewyrchu ein hymrwymiad i welliant parhaus a chynyddu lefelau perfformiad.

Ar yr un pryd, mae galw cynyddol am wasanaethau, adnoddau cyfyngedig, a phwysau cyllidebol parhaus wedi ei wneud yn anoddach i gyflawni'r holl ddeilliannau a gynlluniwyd o fewn y flwyddyn.

Er gwaethaf y pwysau hwn, mae'r Cyngor yn parhau i gyflawni tasgau'r cynllun busnes yn gymharol gryf. Yn ystod 2025/26, roedd 77% o'r camau gweithredu naill ai wedi'u cwblhau neu ar amser, sydd ychydig yn llai na'r canran o 80% a gyflawnwyd yn




- Ar targed: **106** (59%)
- Oddi ar y targed gan llai na 15%: **33** (18%)
- Oddi ar y targed gan mwy na 15%: **23** (41%)




- Ar amser / wedi cwblhau: **180** (77%)
- Ar y gweill ond ar ei ôl hi: **48** (20%)
- Heb cychwyn / heb cwblhau: **6** (3%)

Mesurau'r Cynllun Busnes ar y Trywydd



Cynnydd Tasgau'r Cynllun Busnes



DARPARU EIN AMCANION LLESIANT CORFFORAETHOL

2024/25, ond sy'n dal i fod yn uwch na'r lefelau a gofnodwyd yn 2023/24 (72%) a 2022/23 (71%), gweler y siart isod.

Mae hyn yn arddangos, er bod rhai mesurau perfformiad wedi bod yn anoddach eu cyflawni, bod gwasanaethau'n parhau i wneud cynnydd cadarn tuag at gyflawni'r gweithgareddau a'r gwelliannau craidd a nodwyd yn eu cynlluniau busnes.

Mae'r trywydd esgynnol yn nodi bod ein gallu i gyflawni camau gweithredu arfaethedig yn cryfhau, hyd yn oed yn wyneb heriau gweithredol cynyddol.

Wrth inni symud ymlaen, bydd y mewnwelediad hwn yn ein helpu i fireinio ein cynllunio, cryfhau rheoli perfformiad a sicrhau bod targedau'n parhau i fod yn uchelgeisiol ac yn gyraeddadwy.

Cyflawni ein Amcanion Llesiant Corfforaethol

Rydym hefyd yn monitro cyflawni ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol yn barhaus. Mae pob un amcan wedi'i chefnogi gan gyfres o nodau neu "tasgau" ar draws gwasanaethau'r Cyngor sydd yn cyfrannu at gyflawni'r amcan a gwella canlyniadau.

Mae'r canlyniadau o 2025/26 yn dangos bod:


- 58% neu 105 tasg wedi'i chwblhau sydd wedi cefnogi cyflawni'r nodau, gyda 17% neu 30 nod ymhellach ar y gweill ond ar y trywydd ar ddiwedd y flwyddyn, gwelir y siart isod.
- Mae hyn yn cynrychioli 75% o'r tasgau sydd nai llai wedi cwblhau neu ar y trywydd.
- Roedd hefyd 41 tasg ar y gweill ond ychydig tu ôl yr amserlen ar ddiwedd y flwyddyn. Bydd y tasgau hyn yn trosglwyddo i'r flwyddyn newydd ac yn parhau i gael eu monitro nes eu bod wedi'u cwblhau.
- Roedd 5 tasg bellach heb gychwyn oherwydd rhai heriau megis newid i flaenoriaethau, deddfwriaethau neu tynnu cyllid yn ôl er mwyn symud ymlaen. Bydd yr achosion yma yn cael i'w adolygu a bydd tasg arall yn cael i'w setio neu i'w diddymu, fel sy'n briodol.

Mae'r cynnydd cyffredinol wedi bod yn dda gyda'r rhan fwyaf o'r tasgau wedi'u cyflawni, er gwaethaf yr heriau sy'n deillio o'r galw cynyddol ac adnoddau cyfyngedig.


Wrth i'r Strategaeth Gorfforaethol bresennol ar gyfer 2022-27 fynd i mewn i'w blwyddyn olaf, mae llawer o'r prif brosiectau eisoes wedi'u cyflawni, tra bod rhai eraill wedi'u nodi wrth i gyfleoedd ddod i'r amlwg. Mae hyn yn cynnwys y cyfleoedd dysgu ôl-16 oed yn Fferm Llettytwppa, yr ail Ganolfan Llesiant sy'n gwasanaethu de'r Sir yn Aberteifi, ac atyniad digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol cenedlaethol pellach megis Rali Ceredigion a Phencampwriaethau Rasio Ffordd Cenedlaethol Lloyds.

O fewn yr Amcanion Llesiant Corfforaethol unigol, mae'r canlyniadau'n dangos yr oedd cynnydd yn arbennig o gryf o fewn yr amcan "Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth", ac o fewn yr amcan "Darparu'r Dechrau Gorau Mewn Bywyd a Galluogi Pobl o Bob Oed i Ddysgu" (gweler y siart isod).

CYNNYDD O RAN AMCANION LLES CORFFORAETHOL YN YSTOD 2025/26



CYNNYDD YN ÔL AMCAN 2025/26



MEINCNODI - SUT YR YDYM YN PERFFORMIO'N GENEDLAETHOL

Proffil Perfformiad Awdurdod Lleol

Mae Data Cymru wedi datblygu offeryn meincnodi i gefnogi awdurdodau lleol i deall ei pherfformiad cyffredinol yn well.

Enw'r offeryn newydd ydy'r Proffil Perfformiad Awdurdod Lleol ac mae'n cynnwys detholiad o 34 mesur perfformiad allweddol ar draws 11 thema, ynghyd ag amrywiaeth o ddata cyd-destunol i helpu i osod yr olygfa.

Mae'n meincnodi holl berfformiad awdurdodau lleol gyda'r cyfartaledd cenedlaethol, chwartelau ac efo canlyniadau awdurdodau arall i sefydlu ble mae'n perfformio yn well a ble sydd angen gwella. Mae'r canlyniadau yn cael i'w ddiweddaru yn barhaol fel bod modd i'r offeryn darparu ciplun o unrhyw bwynt mewn amser.

Defnyddiwyd y Proffil i gefnogi Asesiad Perfformiad Panel cyntaf y Cyngor ym mis Hydref 2024. Roedd yn un o nifer o ddarnau o dystiolaeth i helpu i lywio barn y Panel ar sut mae'r Cyngor yn perfformio.

Rydym hefyd yn defnyddio canlyniadau'r Proffil drwy gydol y flwyddyn i helpu i nodi meysydd i'w gwella a meysydd i'r pwyllgor craffu eu sylw.


Canlyniadau Diweddaraf

Mae'r canlyniadau diweddaraf ym mis Ebrill 2026 yn dangos bod Ceredigion yn parhau i berfformio'n dda ar draws y mesurau allweddol ac yn un o'r awdurdodau sy'n perfformio orau yn gyson yn genedlaethol.


Er enghraifft:

- Ceredigion sydd â'r trydedd nifer uchaf ar y cyd o fesurau perfformiad yn y chwartel uchaf gyda 13 (gweler y siart isod ar y chwith).
- Ceredigion sydd â'r nifer trydydd uchaf o fesurau perfformiad yn y chwartel canol uchaf ac uchaf gyda 21 allan o 34 (gweler y siart isod).
- Ceredigion sydd â'r cydradd ail uchaf ar y cyd o'i mesurau yn y chwartel canol uchaf ac uchaf yn genedlaethol, sef 66.7%.
- Yn gyffredinol, mae gan Geredigion 13 o fesurau yn y chwartel uchaf, 8 yn y chwartel canol uchaf, 4 yn y chwartel canol isaf a 6 yn y chwartel isaf fel y dangosir yn y siart isod ar y dde.
- Ers y diweddariad diwethaf, mae perfformiad Ceredigion wedi gwella mewn 6 o'r mesurau, wedi aros yr un fath mewn 20, ac wedi gostwng mewn 5. (Mae 1 mesur na ellir ei asesu a 2 fesur lle nad

NIFER Y MESURIADAU YN Y CHWARTEL UCHAF



NIFER Y MESURIADAU YN Y CHWARTEL CANOL UCHAF AC UCHAF



oedd data ar gael ac maent wedi'u heithrio o'r siartiau isod).

Beth mae'r Canlyniadau'n dweud

Ers lansio'r Proffil gyntaf, mae Ceredigion wedi bod yn gyson yn un o'r awdurdodau sy'n perfformio orau ledled y wlad.

Er gwaethaf yr heriau sylweddol y mae Ceredigion yn eu hwynebu drwy fod yn un o'r awdurdodau sy'n cael y cyllid isaf, ynghyd â'r heriau sy'n ymwneud â gwledigrwydd a phoblogaeth wasgaredig, mae'r canlyniadau hyn yn darparu tystiolaeth ddefnyddiol bod y Cyngor nid yn unig yn perfformio'n dda o gymharu ag awdurdodau ledled Cymru, ond hefyd yn gwneud defnydd effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael iddo.

Dyma ddwy o brif themâu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) sef bod y Cyngor yn 'arfer ei swyddogaethau'n effeithiol' ac yn 'defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol'.

Camau Nesaf


Mae'r mesurau sy'n is na'r cyfartaledd ac sy'n disgyn o fewn y chwartel canol isaf ac isaf yn cael eu harchwilio'n fanylach gan y Grŵp Arweiniol a'r Bwrdd Perfformiad. Mewn rhai achosion, byddant yn cael eu galw i'r pwyllgor craffu perthnasol i helpu i nodi pam mae perfformiad islaw'r cyfartaledd a sut y gellir ei wella. Mae hyn yn rhan o'n cylch parhaus o wella a amlinellir yn fanylach ar dudalen 26.

Cynlluniau i'r Dyfodol


Bydd yr offeryn Proffil Perfformiad yn parhau i gael ei ddatblygu, felly bydd yr ystod o fesurau sydd wedi'u cynnwys a'r swyddogaeth yn gwella ymhellach yn y blwyddyn nesaf. Mae'r Proffil yn rhan annatod o drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor ac yn enghraifft dda o gwelliant a arweinir gan y sector. Byddwn yn parhau i weithio'n rhagweithiol gyda ein cydweithwyr yn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i rhannu a dysgu o arfer gorau ar draws y sector.

(Sylwch fod cyfyngiadau ar ba ddata y gellir eu cyhoeddi o'r offeryn, felly dim ond Ceredigion a nodir yn y siartiau ar y tudalen gyferbyn).

NIFER Y MESURIADAU YN ÔL CHWARTEL: CEREDIGION



CRYNODEB O BERFFORMIAD (Y DATA DIWEDDARAF O'I GYMHARU Â'R CYFNODAU ADRODD BLAENOROL): CEREDIGION



DARPARU GWERTH AM ARIAN

Mesuriadau Perfformiad Allweddol

Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o ddangosyddion perfformio i fonitro pa mor dda mae ein gwasanaethau yn perfformio wrth gyrraedd anghenion defnyddwyr gwasanaeth ac er mwyn mesur effeithlonrwydd a gwerth am arian.

Maent yn mesur perfformiad ar draws ystod eang o wasanaethau'r Cyngor gan gynnwys: rheolaeth ariannol, addysg, tai, gwasanaethau hamdden, rheolaeth gwastraff a glanhau strydoedd.

Gwerth am Arian

Gall Gwerth am Arian cael i'w diffinio fel y perthynas rhwng yr Economi, Effeithiolrwydd ac Effeithlonrwydd. Mae'n term sy'n cael i'w defnyddio i asesu os bod y Cyngor wedi cael y budd mwyaf o'r nwyddau a'r gwasanaethau y mae'n eu caffael ac yn eu darparu o fewn cyfyngiadau'r adnoddau cyfyngedig sy'n wynebu'r Cyngor.


Er enghraifft, dau fesur allweddol o effeithlonrwydd yw casglu Treth y Cyngor a threthi annomestig (busnes). Er bod casglu trethi annomestig yn parhau i fod uwchlaw 'r cyfartaledd ar 97.3%, mae casglu Treth y Cyngor ychydig yn is na'r cyfartaledd ar 94.9%.

Mae'r Dreth Gyngor Band 'D' gyfartalog, a ddefnyddir yn aml fel cymharydd rhwng gwahanol Siroedd, yn dangos bod cyfraddau presennol ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ledled Cymru sef £2,419 tra bod ein harbedion cronnol a wnaed dros y deng mlynedd diwethaf yn gwneud cyfanswm o £70m drwy ailstrwythuro, prosiectau ailgynllunio a thrawsnewid gwasanaethau, gyda £2m wedi'i cyflawni yn ystod 2025/26.


Roedd gwariant alldro refeniw y pen yn £3,232 am y flwyddyn lawn ddiwethaf a gwariant a gyllidebwyd ar gyfer y flwyddyn gyfredol 2026/27 yn £3,541. Gwariant alldro refeniw yw'r costau gweithredu o ddydd i ddydd sy'n hanfodol i redeg y sefydliad.

Fel ym mhob ardal yng Nghymru, roedd y dasg o osod cyllideb gytbwys yn 2025/26 yn un heriol unwaith eto, ond roedd yn gyflawniad arwyddocaol i gael cytundeb unfrydol.


ARBEDION EFFEITHLONRWYDD A WNAED




Cyfraddau casglu'r dreth gynor




Treth gyngor band D gyfartalog




Cyfraddau casglu ardrethu annomestig



Gwariant alldro refeniw





RHEOLI EIN RISGIAU

Ein Dull Rheoli Risgiau

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cynnal dull cadarn a rhagweithiol o reoli risgiau, wedi'i gynllunio i sicrhau y gall y sefydliad rhagweld, deall ac ymateb yn effeithiol i'r ystod eang o risgiau a allai effeithio ar ein gwasanaethau, ein cymunedau, a'n Hamcanion Llesiant Corfforaethol. Mae ein dull wedi'i adeiladu ar egwyddorion tryloywder, atebolrwydd a gwelliant parhaus, ac mae wedi'i ymgorffori ar draws pob lefel o lywodraethant a phrosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor.

Caiff rheoli risgiau ei gydlynu trwy Fframwaith Rheoli Risgiau sy'n nodi sut mae'r risgiau'n cael eu hadnabod, eu hasesu, eu monitro a'u hadrodd. Mae Gwasanaethau'n cynnal adolygiadau rheolaidd o'r risgiau gweithredol a strategol, a gefnogir gan gyfarwyddyd ac offerynnau corfforaethol sy'n sicrhau cysondeb o ran sut mae risgiau'n cael eu pwyso a'u mesur a'u cofnodi.

Caiff risgiau eu hasesu gan ddefnyddio methodoleg safonol sy'n ystyried y tebygolrwydd o achos yn digwydd a'r effaith bosibl ar gyflawni gwasanaethau, sefydlogrwydd ariannol, cydymffurfiaeth gyfreithiol, enw da a llesiant ein cymunedau. Mae hyn yn ein galluogi i flaenoriaethu risgiau'n effeithiol a dyrannu adnoddau i ardaloedd y byddai'n elwa fwyaf o liniaru.

Y Gofrestr Risg Gorfforaethol

Mae Cofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor yn darparu trosolwg o'r risgiau mwyaf sylweddol sy'n wynebu'r sefydliad. Caiff ei adolygu'n rheolaidd gan y tîm rheoli uwch ac aelodau etholedig, gan sicrhau bod materion sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hadnabod yn gynnar a bod camau gweithredu addas ar waith i'w lliniaru. Dangosir y Gofrestr Risg Gorfforaethol ddiweddaraf ar ddiwedd 2025/26 ar y dde. Ar hyn o bryd, mae naw risg ar y gofrestr a'r ychwanegiad diweddaraf oedd Tlodi Gwledig. Mae'r statws presennol yn dangos difrifoldeb y risg, gyda coch neu oren yn golygu ei bod yn risg uwch ac felly pam y maent wedi'i hychwanegu ar ein Cofrestr Risg. Mae'r dyddiad adolygu yn cyfeirio at y dyddiad y cafodd ei hadolygu ddiwethaf gan y Pwyllgor Craffu perthnasol – caiff hyn ei wneud yn rheolaidd.

Integreiddio i Gynllunio a Rheoli Corfforaethol

Nid yw rheoli risgiau'n cael ei drin fel gweithgaredd unigol, caiff ei integreiddio i mewn i'n trefniadau cynllunio, perfformiad a llywodraethu ehangach. Mae gan benderfyniadau strategol, achosion busnes a phrosiectau blaenllaw ystyriaeth o risg, gan sicrhau bod peryglon a chyfleoedd posibl yn cael eu deall o'r dechrau. Mae hyn yn ein helpu i wneud dewisiadau gwybodus, yn cryfhau atebolrwydd ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni gwerth am arian. Mae'r Cyngor hefyd yn hyrwyddo diwylliant risg cadarnhaol, gan annog staff i godi pryderon, rhannu'r hyn a ddysgwyd ac ymgysylltu'n adeiladol â thrafodaethau sy'n ymwneud â risgiau.

Rydym yn cydnabod bod rhaid i reoli risgiau esblygu mewn ymateb i amgylchiadau sy'n newid. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn adolygu ein Fframwaith Rheoli Risgiau ac yn rhoi dull gwell ar waith o ran parodrwydd i dderbyn risg.

At ei gilydd, mae dull rheoli risgiau Cyngor Sir Ceredigion yn darparu sylfaen gref ar gyfer diogelu'r sefydliad, gan gefnogi gwneud penderfyniadau effeithiol, a sicrhau y gallwn barhau i gyflawni ar gyfer ein cymunedau, nawr ac yn y dyfodol.

Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL (AR 31/03/2026)

Risg	Sgôr	Statws	Tuedd	Pwyllgor Adolygu	Dyddiad Adolygu
Cyllid - Mae llai o gyllid ac ansicrwydd yn arwain at bwysau cyllidebol gan achosi risgiau lleihau gwasanaethau	20	■	→	Adnoddau Corfforaethol	29/09/2025
Diogelwch Rheoli Gwybodaeth - Mae llywodraethu gwybodaeth gwan yn arwain at dorri diogelwch data, gan achosi niwed rheoleiddiol ac i'r enw da	16	■	→	Adnoddau Corfforaethol	16/02/2026
Newid Hinsawdd - Mae effeithiau cynyddol yr hinsawdd yn arwain at aflonyddwch ar seilwaith a chymunedau gan achosi effeithiau ar yr amgylchedd, effeithiau ariannol ac effeithiau ar gwasanaethau	25	■	→	Cymunedau Ffyniannus	17/06/2025
Gwywiad Coed Ynn - Mae gwywiad eang o goed ynn yn arwain at goed anniogel gan achosi canlyniadau diogelwch, amgylcheddol ac ariannol	16	■	→	Cymunedau Ffyniannus	17/06/2025
Recriwtio a Dargadwad - Mae heriau'r farchnad lafur yn arwain at brinder staff, gan achosi risgiau o ran darparu gwasanaethau a chydymffurfiaeth.	12	●	↓	Adnoddau Corfforaethol	10/03/2026
Systemau sy'n heneiddio - Mae systemau sy'n heneiddio yn cyrraedd diwedd eu hoes, gan arwain at fethiant y system ac effeithio ar weithrediadau, diogelwch a chydymffurfiaeth	16	■	→	Adnoddau Corfforaethol	16/02/2026
Hydwythdedd Seiber - Mae bygythiadau seiber cynyddol yn arwain at beryglu systemau, gan achosi tarfu ar wasanaethau a risgiau o golli data	20	■	→	Adnoddau Corfforaethol	16/02/2026
Diogelwch Tân - Mae methu â chydymffurfio â rheoliadau diogelwch rhag tân mewn eiddo'r cyngor yn arwain at risgiau tân a allai achosi niwed difrifol, cau safleoedd ac effeithiau ariannol	12	●	↓	Adnoddau Corfforaethol	08/10/2024
Tlodi Gwledig - Mae tlodi gwledig strwythurol a chyllid annigonol yn arwain at lai o les, yn ogystal â mwy o amddifadedd a mwy o alw am wasanaethau'r cyngor	16	■	→	Cydlynu	06/07/2026

EIN CYLLIDEB - BLE GWNAETHOM FLAENORIAETHU EIN CYLLID YN 2025/26?

Mae gan Geredigion hanes o osod a chyflawni cyllideb gytbwys yn ogystal â chael bil iechyd glân gan Archwilio Cymru yn ystod archwiliadau ac adolygiadau.

Ar ddiwedd 2025/26, roedd y Cyngor mewn safle ariannol cydnerth gyda chyfrifon diamod a sawl prif flaenoriaeth wedi'u cyflawni eisoes yn ystod y flwyddyn megis Cynllun Amddiffyn Arfordirol Aberaeron, dau gyfleuster newydd i blant yn y sir a denu digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol mawr.

Fodd bynnag, mae pob awdurdod lleol ar draws Cymru yn wynebu heriau ariannol sylweddol a ddaw yn sgil yr argyfwng costau byw ac yn fwy diweddar dychwelyd i galedi, sydd ynghyd â galw cynyddol am wasanaethau fel gofal cymdeithasol, yn gosod cryn dipyn. straen ar Gynghorau ledled y wlad.


Felly, bydd angen i'r Cyngor addasu, rheoli lleihau cyllidebau a dod o hyd i ffyrdd newydd o gyflawni gwasanaethau er mwyn cynnal gwasanaethau'r Cyngor yn eu ffurfiau presennol.

Roedd cyllideb net Ceredigion ar gyfer 2025/26 yn £209.2 miliwn, gyda 69% yn cael i'w ariannu gan Lywodraeth Cymru a 31% gan dalwyr Treth Cyngor. Mae'r siart isod yn nodi gwariant y Cyngor ar wasanaethau yn 2025/26.

Fel rhan o ysgogiad y Cyngor i sicrhau gwelliant parhaus a gwerth am arian, mae ei weithgareddau'n cynnwys gwneud y defnydd mwyaf posibl o adeiladau, rhoi mesurau effeithlonrwydd ynni ar waith, buddsoddi mewn cyflawni'r Strategaeth Ddigidol a chwilio am arbedion effeithlonrwydd gweithredol lle bo hynny'n bosibl.

Cefnogir hyn gan egwyddor drosfwaol Tîm Ceredigion o drawsnewid ac arloesi ar draws yr holl wasanaethau.

Ceir rhagor o wybodaeth am sefyllfa cyllideb y Cyngor a'r heriau ariannol yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.



Ysgolion & Dysgu Gydol Oes*	30%	(£62.60m)
Porth Cynnal	20%	(£41.24m)
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	11%	(£22.27m)
Cyllid a Chaffael	10%	(£21.11m)
Porth Gofal	10%	(£20.92m)
Cyswllt Cwsmer a TGCh	3%	(£7.17m)
Ardollau, Premiwm Treth y Cyngor a Chronfeydd Wrth Gefn	3%	(£6.48m)
Grŵp Arweiniol	3%	(£5.58m)
Gwasanaethau Democrataidd	3%	(£5.54m)
Porth Cymorth Cynnar	2%	(£4.95m)
Economi ac Adfywio	2%	(£4.28m)
Polisi, Perfformiad & Diogelu'r Cyhoedd	1%	(£2.68m)
Pobl a Threfnidiaeth	1%	(£2.56m)
Cyfreithiol a Llywodraethu	1%	(£1.80m)

** Gan gynnwys cyllidebau dirprwyedig ysgolion*

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y DYLETSWYDD PARTNERIAETH GYMDEITHASOL

Cefndir

Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 ("SPPP") yn mynnu bod y Cyngor, fel corff cyhoeddus, yn paratoi adroddiad blynyddol i ddangos tystiolaeth o'r ffordd y mae wedi cydymffurfio â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol.

Mae Deddf SPPP yn cynnig fframwaith i wella lles pobl Cymru trwy wella gwasanaethau cyhoeddus wrth weithio mewn partneriaeth, hyrwyddo gwaith teg a chaffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol. Bwriedir iddi gyd-fynd â deddfwriaeth arall, gan gynnwys y Ddyletswydd Gymdeithasol-economaidd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae Deddf SPPP yn mynnu bod y Cyngor, wrth wneud gwaith datblygu cynaliadwy, yn ceisio consensws neu gyfaddawd gyda'i undebau llafur cydnabyddedig, i'r graddau ag y bo hynny'n rhesymol, wrth osod ei amcanion llesiant (yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) a gwneud penderfyniadau o natur strategol am y camau rhesymol y maent yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny.

Adolygiad o Amcanion Llesiant Corfforaethol

Fel rhan o'n cylch adrodd perfformiad blynyddol, ac fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae Cyngor Sir Ceredigion yn cynnal adolygiad rheolaidd o'i Amcanion Llesiant Corfforaethol. Caiff y broses hon ei chyfuno gyda'n gwaith Hunanasesu blynyddol, a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'r Amcanion Llesiant Corfforaethol yn galluogi darpariaeth gwasanaethau a fydd yn gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol dinasyddion a chymunedau Ceredigion. Datblygwyd yr Amcanion, a'r camau i'w cyflawni, yn ystod 2022 i gyd-fynd â'r Strategaeth Gorfforaethol newydd. Fe'u nodwyd trwy gyfrwng amrywiaeth eang o dystiolaeth, gan gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, Asesiad Llesiant Ceredigion ac uchelgais y weinyddiaeth wleidyddol.

Yn ystod yr hydref 2024, adolygwyd ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol, pan gytunodd y Cyngor y byddent yn parhau i fod yn feysydd blaenoriaeth ar gyfer y Sir ac y byddent yn parhau yn ystod 2025/26.

Fel rhan o'r adolygiad hwn, cynhaliwyd cyfarfod gyda chynrychiolwyr undebau llafur i geisio adborth a chonsensws am gynnwys yr Hunanasesiad ac Adroddiad yr Adolygiad Blynyddol o'r Amcanion Llesiant a Pherfformiad. Ni chodwyd unrhyw faterion ynghylch parhad yr Amcanion yn ystod 2025/26.

Mae'r Adroddiad Hunanasesu yn amlinellu'r camau a gymrwyd gan y Cyngor i gyflawni ei Amcanion Llesiant Corfforaethol a chaiff ei gymeradwyo gan y Grŵp Arweiniol (sy'n cynnwys staff uwch) a'r Cabinet, ond hefyd, caiff ei adolygu'n helaeth gan y Pwyllgor Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Gweithio mewn Partneriaeth

Mae gan Gyngor Sir Ceredigion berthynas waith ragorol gyda'i phartneriaid sy'n undebau llafur, sy'n ymwneud â gweithgarwch datblygu polisi, cynllunio strategaeth hirdymor a rheoli adnoddau. Isod, gweler enghreifftiau o'u cyswllt ar draws meysydd allweddol:

- **Cysylltiadau Diwydiannol**

Caiff ein hundebau llafur eu cynnwys yn y broses o ddatblygu polisïau gweithlu yn gynnar, ac ymgysylltir â nhw ar adegau lluosog yn ystod y prosesau cymeradwyo er mwyn sicrhau eu bod yn gallu gwneud cyfraniadau arwyddocaol ac ystyrlon i siapio ein polisïau.

Cynhelir cyfarfodydd bob pythefnos gyda'r swyddog undeb llawn amser, cynhelir cyfarfodydd bob deufis o'r Fforwm Undebau Llafur Corfforaethol ar y Cyd a chynhelir Fforwm Corfforaethol ar gyfer Gweithwyr o leiaf ddwywaith y flwyddyn gyda Aelodau Etholedig ac Uwch Swyddogion yn bresennol. Mae'r cyfarfodydd yn rhoi cyfleoedd i drafod a mynd i'r afael â materion neu anghydfodau mewn ffordd sy'n cefnogi staff wrth gynnal darpariaeth gwasanaeth. Mae ein hundebau llafur hefyd yn eistedd ar y paneli dilysu ac apelio ar gyfer gwerthuso swyddi, gyda hawliau pleidleisio cyfartal, i gefnogi graddio cyflog teg a chyson.

- **Gweithlu yn Rheoli Newid**

Mae ein hundebau llafur yn ymwneud â phob proses rheoli newid, o weithgarwch ymgynghori cynnar am achosion busnes rheoli newid arfaethedig, i gwblhau'r broses. Mae enghreifftiau o hyn dros y flwyddyn ddiwethaf wedi cynnwys ailstrwythuro ein Timau Cyswllt Uniongyrchol a Llyfrgelloedd o fewn y Gwasanaeth Cyswllt Cwsmeriaid, TGCh a Digidol a'r ailstrwythuro tymor hwy o fewn Gwasanaethau Anabledd Arbenigol yn y Porth Gofal. Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid mewn undebau llafur i ysgolion er mwyn gwella amseroldeb prosesau rheoli newid ac ymgynghori yn y maes hwn.

Rydym yn ystyried bod ein Hundebau Llafur yn bartneriaid allweddol yn ein hymdrechion i nodi a rhoi sylw i feysydd pryder o fewn gwahanol garfannau ein gweithlu, ac maent wedi cyflawni rolau hollbwysig wrth gynorthwyo ein hymdrechion. Un enghraifft o hyn yw'r gwaith sy'n cael ei wneud yn gydweithredol i geisio datrysiad o ran pryderon sy'n codi yn ein gwasanaeth casglu gwastraff ynghylch newidiadau arfaethedig i newidiadau contractiol yn ymwneud â chasgliadau ar wyliau banc.

- **Rheoli Cyllideb**

Mae ein hundebau llafur yn derbyn sesiwn friffio fanwl gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gweithredol - Cyllid a Chaffael ar oblygiadau'r setliad cyllideb blynyddol bob blwyddyn o ran dyraniadau gwasanaethau a chyfraddau treth y cyngor arfaethedig. Mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gweithredol hefyd yn mynychu'r Fforwm Undebau Llafur Unedig Corfforaethol i roi diweddariad ar berfformiad ariannol yn ystod y flwyddyn.


- **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**

Rydym yn cydweithio'n agos gyda'n partneriaid mewn undebau llafur i gyflwyno polisïau ar gyfer y gweithle er mwyn sicrhau bod y rhain yn hyrwyddo amrywiaeth yn y gweithle, gan fynd i'r afael â gwahaniaethu a/neu aflonyddu, a chynorthwyo gwasanaethau effeithiol ar gyfer preswylwyr Ceredigion.

MESURIADAU PERFFORMIAD ALLWEDDOL: CANLYNIADAU'R CYNGOR


Dysgu Cymunedol

Nifer y dysgwyr mewn dysgu cymunedol awdurdodau lleol fesul 1,000 o'r boblogaeth gan gynnwys dysgu a ddarperir mewn cydweithrediad â sefydliadau Addysg Bellach (2024/25)




Ysgolion Cyfrwng Cymraeg

Canran yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg (2024/25)




Cwynion a Dderbyniwyd gan yr Awdurdod Lleol

Nifer y cwynion a dderbyniwyd fesul 1,000 o drigolion (2023/24)




Mewn Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth

Pobl ifanc Blwyddyn 13 sy'n gadael ysgol mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (2025)




Iaith Gymraeg

% y disgyblion a addysgodd y Gymraeg fel iaith gyntaf (2024/25)




Treth y Cyngor

Cyfradd Treth y Cyngor Band D gyfartalog (2026/27)




Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant

Gadawyr ysgol Blwyddyn 13 y gwyddys nad ydynt mewn Addysg, Hyfforddiant na Chyflogaeth (2025)




Cwnsela Ysgol

Nifer y plant a phobl ifanc ym mlwyddyn 6 i 13 a gafodd gwnsela fesul 1,000 o'r boblogaeth (2024/25)




Casglu Treth y Cyngor

Canran Treth y Cyngor a gasglwyd (2025/26)




Trethi Annomestig

Cyfraddau casglu ardrethu annomestig (2025/26)




Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl

Nifer yr anheddau a gafodd eu gwella fesul 10,000 o anheddau (2024/25)




Casglu Gwastraff

Y cilogramau o wastraff cartrefi a gynhyrchwyd fesul unigolyn (2024/25)




Atal Digartrefedd

% o deuluoedd sydd wedi'u hatal rhag bod yn ddigartref anghyfreithlon (2024/25)




Cynllunio

Ceisiadau Cynllunio wedi eu Penderfynu o fewn Amserlenni Statudol ac a Gytunwyd (Hydref i Rhagfyr 2025)




Ailgylchu

Canran o wastraff a gafodd ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio (2024/25)




Rhyddhad Digartrefedd

% yr aelwydydd a gafodd ryddhad llwyddiannus o ddigartrefedd (2024/25)




Cynllunio

Amser ar gyfartaledd mewn dyddiau i benderfynu ar geisiadau cynllunio (Hydref i Rhagfyr 2025)



Tipio Anghyfreithlon


Cyfanswm y digwyddiadau a gofnodwyd fesul 1,000 o'r boblogaeth (2024/25)



MESURIADAU Y GYMUNED EHANGACH: CANLYNIADAU'R POBLOGAETH


Cyfradd Gweithgaredd Economaidd

Cyfradd Gweithgarwch Economaidd (Ionawr 2025 Rhagfyr 2025)




Cyfradd Geni Busnes

Cyfradd geni net mentrau fesul ardal awdurdod lleol yn 2023 (Demograffeg Busnes 2025, ONS)




Enillion

Tâl wythnosol gros i bob gweithiwr amser llawn yn ôl man preswylio (£)




Cyfradd Cyflogaeth

Cyfradd cyflogaeth Ionawr 2025 i Rhagfyr 2025




Goroesi Busnes

Canran goroesi 2 flwyddyn o fentrau newydd yn 2022 (Demograffeg Busnes 2025, ONS)




Sgiliau a Chymwysterau

Canran yr oedolion o oedran gweithio sydd wedi cymhwyso i Lefel 2 neu uwch (Y flwyddyn yn diweddu Rhagfyr 2025)




Diweithdra

Cyfradd ddiweithdra Ionawr 2025 i Rhagfyr 2025




Goroesi Busnes

Canran goroesi 5 flwyddyn o fentrau newydd yn 2019 (Demograffeg Busnes 2025, ONS)




Sgiliau a Chymwysterau

Canran yr oedolion o oedran gweithio sydd wedi cymhwyso i Lefel 3 neu uwch (Y flwyddyn yn diweddu Rhagfyr 2025)




Sgiliau a Chymwysterau

Canran yr oedolion o oedran gweithio sydd wedi cymhwyso i Lefel 4 neu uwch (Y flwyddyn yn diweddu Rhagfyr 2025)




Nifer yr Hawlwyr 18-24

Cyfrif hawlwyr fel cyfran o boblogaeth breswyl yr ardal 18-24 oed (Mai 2026)




Incwm Gwaredu Crynswth

Incwm gwario gros aelwydydd y pen (£) (2023)




Sgiliau a Chymwysterau

% yr oedolion o oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau (Y flwyddyn yn diweddu Rhagfyr 2025)




Cymhareb Fforddiadwyedd Tai

Cymhareb enillion ar sail pris tŷ i breswylfa (2025)




Cysylltedd Digidol

Argaeledd Band Eang Ffibr Llawn (Ym mis Gorffenaf 2025)




Nifer yr Hawlwyr

Cyfrif hawlwyr fel cyfran o ardal boblogaeth breswyl 16-64 oed (Mai 2026)



Ail Gartrefi

Canran yr anheddau sy'n destun premiwm gwag hirdymor / ail gartref (2026/27)



Ffynonellau:

Mae mesurau perfformiad yn ddata agored ac wedi'u casglu o'r ffynonellau canlynol:

- StatsCymru
- Swyddfa Ystadegau Gwladol
- NOMIS
- Arolwg Cenedlaethol Cymru
- Thinkbroadband

Mae'r ffigurau fesur *1,000* o'r boblogaeth a fesul *10,000* aelwyd wedi'i amcangyfrif gan defnyddio Amcangyfrifon Poblogaeth o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a Amcangyfrifon Stoc Anheddau oddi wrth Llywodraeth Cymru.

Yr holl ddata a gyflwynir yw'r canlyniadau diweddaraf sydd ar gael ym mis Gorffennaf 2026.

Dweud eich dweud

Rydym yn croesawu eich barn ar yr adroddiad hwn a pherfformiad y Cyngor. Cysylltwch unrhyw bryd.

Cysylltwch â Ni

Y ffordd orau i gysylltu â ni yw drwy gofrestru neu lofnodi i mewn i'ch **Fy Nghyfrif.**

Mae **Fy Nghyfrif** yn eich galluogi i godi ymholiadau a monitro cynnydd ac mae hefyd yn darparu llawer o nodweddion eraill sy'n eich helpu i ryngweithio â ni.

Ewch i **https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/fy-nghyfrif/**

✉ **Post:**

Cyngor Sir Ceredigion
Neuadd Cyngor Ceredigion Penmorfa
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0PA

Ffôn :
01545 570881

E-bost:
clic@ceredigion.gov.uk

Neu ewch i'r wefan:
www.ceredigion.gov.uk

Mae Fersiwn **Testun Plaen** neu Fersiwn **Hawdd ei Ddarllen** o'r ddogfen yma ar gael o Gyngor Sir Ceredigion







